

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research


Rhif/Number: 40/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad Annibynnol o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed



Gwerthusiad Annibynnol o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed

Adroddiad Terfynol

**Simon Pringle, Joe Duggett, a Chris Wilkinson, SQW Ltd.
Geoff White, Geoff White Inc.**

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Ceri Greenall

Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3811

E-bost: Ceri.greenall@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

ISBN 978-1-4734-1190-6

© Hawlfraint y Goron 2014

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
1 Rhagymadrodd	12
2 Cyd-destun a sail resymegol.....	22
3 Arbedion a grëwyd gan brosiectau Buddsoddi i Arbed	32
4 Effeithiau Prosiectau Buddsoddi i Arbed.....	50
5 Ychwanegedd Buddsoddi i Arbed.....	61
6 Synthesis Astudiaethau Achos	74
7 Ystyriaethau o brofiad blaenorol gweithgarwch Buddsoddi i Arbed	86
8 Casgliadau ac Argymhellion	96
Atodiad A: Prosiectau yr ymgysylltwyd â hwy yn y gwerthusiad.....	107

Crynodeb Gweithredol

Cyd-destun, diben a phroses y gwerthusiad

1. Menter gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Buddsoddi i Arbed sy'n rhoi cymorth ariannol, ar sail gystadleuol ac ad-daladwy, i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n cefnogi gweithrediad prosiectau gwella strategol a'i nod yw rhoi arbedion rhyddhau arian ac arbedion effeithlonrwydd ehangach, tra hefyd yn sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithiol a gwell sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.
2. Erbyn diwedd 2012 roedd y Gronfa, a sefydlwyd yn 2009, wedi ymrwmo buddsoddiad a oedd yn agos i £60 miliwn mewn 54 o brosiectau gwella unigol dros chwe rownd ariannu.
3. Ym mis Ebrill 2013, comisiynwyd SQW Ltd gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Gronfa. Gan gwmpasu chwe rownd gyntaf y buddsoddi, diben y gwerthusiad oedd:
 - amcangyfrif yr arbedion a grëwyd gan brosiectau Buddsoddi i Arbed unigol, a rhoi amcangyfrif o'r arbedion cyfanredol
 - asesu effaith y Gronfa
 - canfod maint yr ychwaneged a ddarparwyd gan y Gronfa.

Y sail resymegol dros ymyrraeth

Y sail resymegol dros ymyrraeth

4. Barn y gwerthusiad yw bod y sail resymegol sy'n tanategu'r Gronfa yn gadarn a chryf. Mae'r Gronfa yn ymateb i nifer o ysgogwyr, gan gynnwys:
 - y cyd-destun polisi strategol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar greu gwell gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys drwy gael mwy o gydweithio rhwng asiantaethau
 - yr angen i gefnogi sefydliadau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn darpariaeth gwasanaeth o gofio'r cyd-destunau cyllidebol ac ariannol heriol

- ‘methiannau’ a materion penodol ar lefel darpariaeth gwasanaeth/leol, sy’n atal sefydliadau rhag datblygu prosiectau gwella a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac o ansawdd.
5. Ar lefel prosiect, roedd materion methiannau cydgysylltu rhwng sefydliadau a rhwystrau ariannol yn arbennig o amlwg mewn cyfiawnhau’r angen am adnodd Gronfa. Yn gyffredinol nid oedd prosiectau yn adrodd bod osgoi risg mewn buddsoddi adnoddau mewn gweithgareddau ‘newydd’ yn fater a ystyriwyd: diffyg adnoddau mewnol, yn hytrach nag osgoi eu defnyddio, oedd yn cael ei adrodd yn gyson fel y mater a oedd yn cyfiawnhau’r angen am gymorth y Gronfa. Fodd bynnag, ni chafodd mathau eraill o gymorth allanol eu hystyried bob amser gan brosiectau cyn ceisio buddsoddiad y Gronfa. O ganlyniad, efallai bod osgoi risg defnyddio adnoddau mewnol yn fwy amlwg mewn gwirionedd nag a adroddwyd.
 6. Mae’n ymddangos mai prin oedd ystyriaeth benodol o farchnad a methiannau/materion eraill yng nghylch datblygu’r prosiect, ac ni chawsant eu ffurfioli yn y broses arfarnu. Felly, mae a defnyddiwyd y Gronfa i fynd i’r afael yn gynaliadwy ag achosion, yn hytrach na symptomau, marchnad/methiant arall, yn rhywbeth dadleuol i raddau. Wrth symud ymlaen efallai y gallai mwy o ffocws ar fethiannau a seiliau rhesymegol annog canolbwyntio mwy cyson ar ‘pam’ y dylid defnyddio’r Gronfa, a rhoi gwell dysgu a dealltwriaeth ynglŷn â pha fath o ymyriadau sy’n gweithio, pryd a pham.

Manteision ac effeithiau

7. Mae manteision rhyddhau arian sylweddol wedi eu creu hyd yma gan brosiectau’r Gronfa. Ar gyfer prosiectau a gwblhawyd mae’r gwerthusiad yn amcangyfrif tua £3 o fanteision rhyddhau arian gros am bob £1 o adnodd y Gronfa a fuddsoddwyd. Mae manteision rhyddhau arian gros o brosiectau sy’n mynd rhagddynt yn fwy cymedrol ar y cam hwn ond yn dal yn gadarnhaol. Mae’r data hwn yn cynnwys arbedion ‘gwirioneddol’ a ‘rhagolygol’, felly gall fod iddynt Ogwydd Optimistiaeth ar gyfer arbedion sydd heb eu cyflawni hyd yma. Fodd bynnag, mae’r gwerthusiad yn dynodi yn gyfanredol bod y Gronfa’n debygol o gael mwy ‘allan’ o ran arbedion, nac a ‘roddwyd i mewn’ o ran buddsoddiad.

8. Nid yw'r holl brosiectau a gefnogwyd hyd yma wedi rhoi manteision rhyddhau arian. O'r 23 prosiect a gwblhawyd, mae o leiaf 15 wedi creu manteision rhyddhau arian y gellir eu priodoli i'r Gronfa. O'r pum prosiect a gwblhawyd lle na chafwyd manteision rhyddhau arian, arweiniwyd pedwar ohonynt gan sefydliadau llywodraeth leol.
9. Ni roddwyd unrhyw brosesau na systemau ffurfiol ar waith gan y Gronfa i gasglu gwybodaeth am fanteision nad oedd yn rhyddhau arian ar draws y portffolio prosiectau, er bod mathau o fanteision a welwyd nad oedd yn rhyddhau arian yn cynnwys gwelliannau i ddarpariaeth gwasanaeth drwy ddatblygu a gweithredu TG, gwell darpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i resymoli a gwell defnydd o asedau presennol, ac arbedion effeithlonrwydd drwy integreiddio/cydgysylltu gwasanaethau. Mae sefydlu prosesau a systemau i dracio manteision nad sy'n rhyddhau arian yn fater pwysig wrth symud ymlaen, a bydd angen rhagor o gyngor ac arweiniad er mwyn cefnogi gallu lleol.
10. Roedd manteision eraill a welwyd i'r Gronfa yn cynnwys:
- manteision mesuradwy o ran gwell canfyddiad defnyddwyr gwasanaeth, gwell mynediad at wasanaethau ac, mewn nifer o achosion, gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth gyda ffocws ar iechyd a gofal cymdeithasol.
 - manteision anfesuradwy yn cynnwys dysgu a gwell gwybodaeth a chanfyddiad o ddarpariaeth a gwella gwasanaeth ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau, gwell cydgysylltu a gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau, a datblygiad gallu a gwell gwytnwch mewn darpariaeth gwasanaeth a chynllunio.
11. Ar y cyfan, mae'n dal yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau pendant ynglŷn ag effeithiau meintiol ac ansoddol ehangach y Gronfa. Fodd bynnag, mae'r arwyddion yn galonogol, mae rheolwyr prosiect ar y cyfan yn hyderus bod yr arbedion a'r manteision ehangach a ragwelwyd ar ddechrau eu prosiectau wedi cael eu cyflawni, neu y cânt eu cyflawni. Fel gydag arbedion nad sy'n rhyddhau arian, byddai'n fuddiol gwneud gwaith pellach i ddatblygu mathau o fanteision mesuradwy er mwyn galluogi prosiectau i ar lefel unigol, a

Llywodraeth Cymru ar lefel cyfanredol, i gasglu'n well effeithiau gweithgarwch y Gronfa.

Cymhelliannau i ad-dalu

12. Mae'n rhaid ad-dalu'r buddsoddiad a ddarperir gan y Gronfa, boed arbedion wedi eu cyflawni neu beidio, yn seiliedig ar amserlen o daliadau a gytunwyd fel rhan o'r trafodaethau ffurfiol. Mewn rhai achosion mae ad-daliad wedi ei glymu'n uniongyrchol gyda chyflawni arbedion. Ond yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd mae'r dystiolaeth yn dangos bod y buddsoddiad wedi/yn cael ei ad-dalu drwy linellau cyllideb canolog sefydliadau ar adegau a gytunwyd, nid pan fo arbedion gwirioneddol wedi eu creu.
13. Mae'r model hwn yn lleihau risg i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae ganddo nifer o ganlyniadau anfwriadol pwysig posibl: heb yr angen i dracio'n swyddogol yr arbedion a grëir, gellir colli llwybr ariannol y prosiect, ac y gellid cael datgysylltiad ar lefel cyflenwi'r prosiect rhwng rheolaeth 'ymarferol' ac 'ariannol'.
14. Yn llai diriaethol, ond yn bwysig, mae perygl cysylltiedig o golli 'disgyblaeth' mewn gweithredu/cyflawni'r prosiect, lle bo'r cymhelliant i staff sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei fwriad yn cael ei leihau. Gellir dadlau hefyd bod risg wedi'i chanolbwyntio ar bartneriaid cyflenwi wedi arwain yn gyffredinol at lai o brosiectau arloesol a newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer cymorth y Gronfa nag a fyddai mewn gwirionedd wedi ei ddisgwyl.
15. Nid oes dull cywir nac anghywir glir yma - y mater allweddol yw cydbwysu'r risg rhwng y cyllidwr a'r derbynnydd. Mae proffil risg mwy cytbwys yn bosibl - ar gyfer rhai elfennau o'r Gronfa o leiaf - lle gall Llywodraeth Cymru leihau'r risg ar sefydliadau sy'n cyflenwi drwy glymu'n ffurfiol (yn llawn, neu'n fwy realistig yn rhannol) ad-daliad i gyflawni arbedion. Yr anfantais o safbwynt cyllidwr fyddai na pe na bai arbedion yn cael eu creu ni fyddai ad-daliad yn cael ei wneud. Fodd bynnag, gallai'r dull hwn arwain yn ei dro at ddatblygu prosiectau mwy arloesol a newydd, gan leihau risg i bartneriaid y prosiect pe bai'r prosiect yn methu.

Ychwanegedd a Gwerth am Arian

16. Mae'r Gronfa wedi cyflawni ychwanegedd, yn arbennig o ran gwneud i brosiectau ddigwydd yn gynt, neu ar raddfa fwy na fyddent fel arall. Hunan-adroddwyd hefyd ar enghreifftiau o 'ychwanegedd llawn' lle na fyddai gweithgareddau na manteision wedi eu cyflawni heb y Gronfa.
17. O gofio natur gweithgareddau'r gronfa, a chymhlethdodau mewn deall y gwrthffeithiol mewn cyd-destun darpariaeth gwasanaeth, nid yw dadansoddiad meintiol o ychwanegedd yn briodol. Wedi dweud hynny, mae tystiolaeth yn dangos y byddai cyfran dda o'r manteision rhyddhau arian, a'r manteision ehangach, a grëir gan brosiectau'r Gronfa heb eu cyflawni, neu fe fyddent wedi eu cyflawni'n ddiweddarach, heb y Gronfa.
18. Yn gadarnhaol, nid cheir llawer o dystiolaeth o amnewid - nid yw ymwneud â phrosiectau a gefnogir gan y Gronfa wedi atal sefydliadau rhag gwneud cynnydd gyda gweithgareddau datblygu eraill er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau gwella gwasanaeth.
19. Tystiolaeth y gwerthusiad hwn (sy'n gyson ag asesiad interim cynharach o'r Gronfa) yw ei bod hi'n gyffredin i brosiectau gael eu datblygu cyn gofyn am gymorth y Gronfa. O ganlyniad, yn gyffredinol mae prosiectau wedi cael eu 'plygu' i fodloni bwriadau'r Gronfa yn hytrach na chael eu hysgogi ganddi, gyda'r Gronfa wedyn yn chwarae rôl allweddol i alluogi a hwyluso'r prosiectau hyn. Yn ei dro, mae lefel y risg ac arloesedd y mae prosiectau'r Gronfa'n eu cynnwys ar y cyfan (er nad yn llwyr) yn gymharol fach, ac maent yn debygol o ddigwydd mewn rhyw ffurf hyd yn oed heb arian y Gronfa, er yn ddiweddarach neu ar raddfa lai. Efallai bod achos dros werthusiad sy'n canolbwyntio mwy ar ychwanegedd prosiectau cyn cael cymorth gan y Gronfa, a/neu ddarparu lefel is o adnoddau'r Gronfa i brosiectau sydd wedi eu canolbwyntio'n bennaf ar gyflymu neu gynyddu gweithgareddau a manteision sy'n bodoli'n barod, yn hytrach na chreu rhai cwbl newydd.
20. Mae'r Gronfa yn dal yn weithredol, felly mae'n rhaid i unrhyw asesiad o Werth am Arian gael ei wneud yn ofalus. Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad bod Gwerth am Arian cyffredinol y Gronfa yn dderbyniol, o ran Darbodusrwydd, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd.

21. Wrth symud ymlaen, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru allu adrodd yn gadarn a gyda thystiolaeth ar Effeithiolrwydd y Gronfa. Bydd datblygu Theori Newid ffurfiol yn allweddol i gyflawni hyn lle y gellir cynnal, ochr yn ochr ag uniongyrchedd y manteision a grëir (o ran arbedion ac effeithiau ehangach posibl wrth i systemau mesur perfformiad esblygu), asesiadau cadarn ynglŷn ag i ba raddau mae'r Gronfa yn mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol y mae'n ceisio ymateb iddynt.

Gwersi o'r astudiaethau achos

22. Roedd y gwersi allweddol o'r ymchwil astudiaethau achos ynglŷn â 'beth sy'n gweithio', sydd hefyd yn berthnasol i brosiectau eraill, fel a ganlyn:

- Sicrhau ymrwymiad lefel uwch i'r prosiect a pherchnogaeth ohono ymhlith partneriaid drwy ymgysylltiad eang/manwl gyda phartneriaid
- Rheoli disgwyliadau – a darparu cefnogaeth ar gyfer – yr aelodau staff hynny y mae disgwyl iddynt ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a staff nad sy'n gysylltiedig â'r prosiect ond y gellir effeithio arnynt
- Sefydlu a chytuno ar fetrigau a systemau mesur perfformiad o'r dechrau - yn arbennig o ran arbedion mewn arian uniongyrchol lle mai'r rhain fydd y ffynhonnell ar gyfer ad-dalu
- Lleihau risg drwy ddull fesul cam a chynllunio wrth gefn gydag ymchwil a cham cyntaf cynllunio cadarn
- Mabwysiadu dull systemau cyfan – lle bo hynny'n bosibl drwy dîm rheoli dynodedig gyda phwerau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n dda.

23. Amlygodd yr astudiaethau achos a'r gwerthusiad yn fwy eang hefyd bwysigrwydd perthynas o ymddiriedaeth rhwng partneriaid, ymgysylltiad eang a manwl rhanddeiliaid, a recriwtio – gyda goblygiadau o ran adnoddau – tîm rheoli a chyflenwi dynodedig. Lle roedd y ffactorau hyn i'w gweld roedd mwy, neu mae mwy, yn cael ei gyflawni.

Crynodeb

24. Mae canfyddiadau gwerthusiad y Gronfa yn gadarnhaol. Mae'r Gronfa wedi cefnogi prosiectau da, i wneud pethau gwerthfawr, ac wedi cyflawni ystod

eang o fanteision, yn cynnwys arbedion, sy'n dangos ychwanegedd. Er bod meysydd y gellir eu datblygu, sy'n cynnwys monitro perfformiad (yn arbennig o ran arbedion a chanlyniadau) a gallai model mwy parod am risg fod yn bosibl, ar y cam hwn mae'r Gronfa'n gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ei nodau a'i hamcanion cyffredinol.

25. Yn ogystal, nid yw nifer o'r heriau a nodir yn y gwerthusiad hwn yn rhai newydd. Roedd materion tebyg yn ymwneud â diffinio seiliau rhesymegol prosiectau, hyrwyddo ychwanegedd, cefnogi arloesedd, a dangos canlyniadau/effaith i'w gweld mewn adolygiadau cynharach o Gyllideb Buddsoddi i Arbed y Trysorlys.
26. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i Uned a Phanel Buddsoddi i Arbed a Llywodraeth Cymru nad yw'r materion y maent yn ymgiprys â hwy er mwyn datblygu'r Gronfa yn rhai eithriadol nac unigryw. Mae'n rhoi cyfle gwerthfawr hefyd i adolygu'r dysgu a'r profiad o'r gorffennol a'i drosglwyddo i'r cyd-destun presennol, wrth i weithgaredd 'buddsoddi i arbed', yn gyffredinol, ddatblygu yn gyffredinol yng Nghymru.
27. Bydd goblygiadau o ran adnoddau o ganlyniad i unrhyw newidiadau monitro perfformiad, gweithrediad a rheolaeth y Gronfa. Yn wir, efallai y bydd angen mwy o adnoddau ar gyfer yr Uned Buddsoddi i Arbed er mwyn trosi prosesau canfyddedig yn wireddiad ymarferol mewn monitro, a gyda dull tebycach i 'bortffolio wedi'i reoli' ar gyfer y Gronfa ar waith.
28. Mae Darbodusrwydd y Gronfa yn ymddangos yn dda o ran ei chostau gweithredu: efallai bod achos i Lywodraeth Cymru leihau lefel darbodusrwydd mewn costau rheoli er mwyn galluogi'r tasgau rheoli hyn i gael eu cyflawni'n fwy effeithiol.

Argymhellion

29. Ar sail y canfyddiadau hyn, gwneir yr argymhellion canlynol.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu datganiad ffurfiol ar sail resymegol a Theori Newid y Gronfa, yn nodi'n glir y materion a'r heriau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy. Dylai hyn ddilyn rhesymeg ROAMEF (Sail Resymegol, Amcanion, Gweithgareddau, Monitro, Gwerthuso ac Adborth) safonol fel y nodir yn

Llyfr Gwyrdd y Trysorlys. Bydd hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod y Gronfa yn gallu canolbwyntio'n gyson ac yn systematig ar y materion a'r methiannau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy. Bydd y Theori Newid hefyd yn rhoi darlun allanol hygyrch – i ymgeiswyr, rhanddeiliaid ac asiantaethau partner – ynglŷn â beth mae'r gronfa yn y bôn yn ceisio ei wneud.

Argymhelliad 2: Yn dilyn datblygiad datganiad ROAMEF ffurfiol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys yn y Broses Datblygu Prosiect a Chais ffocws pendant ar sail resymegol prosiectau, yn cynnwys datganiadau a thystiolaeth ynglŷn â pham bod angen y prosiect a'r farchnad a/neu'r methiannau/materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy.

Argymhelliad 3: Dylai cyfeiriad a rheolaeth prosiect fod yn gyfrifoldeb clir a diamheuol unigolyn penodedig yn y sefydliad Partner Arweiniol; dylai'r trefniadau hyn gael eu diweddu'n barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy, yn y pen draw, sy'n atebol am berfformiad y prosiect a chyflawniad gweithgarwch y Gronfa, dros gyfnod cyflawni'r prosiect, a'r cyfnod ad-dalu sy'n dilyn. Mae'r prosesau ar waith i gyflawni hyn, ac wrth symud ymlaen dylai bod mwy a mwy o ganolbwyntio ar sicrhau bod arfer yn adlewyrchu'n llawn y disgyblaethau proses hyn. Fel cam cyntaf, dylid cynnal adolygiad ffurfiol o'r manylion cyswllt ar gyfer yr holl brosiectau sydd wedi'u cwblhau a rhai sy'n mynd rhagddynt er mwyn sicrhau bod manylion cyswllt priodol nawr yn bodoli er mwyn rhoi llwyfan cadarn wrth symud ymlaen.

Argymhelliad 4: Dylai'r gwaith o fonitro a choladu arbedion rhyddhau arian gael ei integreiddio'n llawn i system CRM/cronfa ddata Buddsoddi i Arbed. O gofio mai arbedion rhyddhau arian yw'r allbwn allweddol sy'n cael ei 'brynu' gan y Gronfa, dylid ei ystyried fel data allbwn sydd i'w gasglu'n arferol wrth fonitro (ar ffurf gros), yn hytrach na thrwy weithgarwch gwerthuso. Ni chynhwyswyd y data hwn yn y wybodaeth monitro ar lefel Cronfa a ddarparwyd i'r tîm gwerthuso ar gyfer yr astudiaeth hon, dylai fod wedi ei gynnwys ar gyfer unrhyw werthusiad/ymchwil effaith yn y dyfodol.

Argymhellid 5: Dylid datblygu canllawiau i alluogi ceisiadau prosiect i nodi'n well, ac yna monitro, manteision nad sy'n rhyddhau arian prosiectau'r Gronfa, ac felly sicrhau y gall prosiectau gynllunio'n well ar gyfer, a dangos, manteision nad sy'n rhyddhau arian yn y dyfodol. Yn ymarferol gallai hyn gynnwys datblygiad a lledaeniad cyfres o gameos prosiect sy'n rhoi enghreifftiau 'byd go iawn' o'r Gronfa ac, yn fwy eang, sut y mae manteision nad sy'n rhyddhau arian wedi eu gwireddu a'u casglu er mwyn hysbysu ymgeiswyr newydd. Hyd yma prin yw'r canllawiau ar fanteision nid mewn arian: rhydd hyn gyfle i'r Uned Buddsoddi i Arbed arwain yn y

maes hwn a lledaenu a gwreiddio ei arbenigedd amlwg.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ffurfiol, drwy asesu dewisiadau os, a sut, i gysylltu'n gliriach gyflawniad arbedion ac ad-daliad buddsoddiad y Gronfa. Dylai hyn gynnwys ail-gydbwyso'r proffil risg oddi wrth y sefydliadau cyflenwi ac ar y Llywodraeth fel ffordd o ysgogi prosiectau sy'n fwy arloesol a mentrus, ond a fydd o bosibl yn rhoi gwell canlyniadau. Dylai hyn gynnwys ymchwil gydag asiantaethau sector cyhoeddus perthnasol (yn cynnwys ymgeiswyr y gorffennol ac ymgeiswyr posibl yn y dyfodol) er mwyn darparu tystiolaeth ynglŷn ag i ba raddau y byddai dull ail-gydbwyso risg yn ysgogi mwy o syniadau prosiect, neu rai gwahanol.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu cyfres o fesuriadau canlyniad, gyda dangosyddion wedi eu sefydlu a rhesymeg sy'n cysylltu'n ôl i amcanion y Gronfa. Gellir defnyddio'r rhain i gasglu'n well ac yn gyson y mathau o ganlyniadau y mae'r Gronfa yn ceisio eu cyflawni. Er enghraifft, mae canlyniadau'n ymwneud â manteision cysylltiedig ag iechyd a mesuriadau traws-sector o ganfyddiad defnyddwyr yn feysydd posibl y gellid datblygu mesuriadau canlyniadau. Dylai'r rhain fod yn ddigon eang i beidio cyfyngu ar fathau gweithgarwch, ond â digon o ffocws iddynt i alluogi dadansoddiad a gwerthusiad addysgiadol. Fel cam cyntaf, dylai'r Uned Buddsoddi i Arbed ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn asesu i ba raddau y gellid defnyddio hyn i lywio fframwaith ar gyfer y Gronfa.

Argymhelliad 8: Dylai lleihau diffyg ychwanegedd wrth ddewis prosiectau a gwerthusiad fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen, er mwyn cael y gwerth am arian a'r enillion gorau posibl ar fuddsoddiad mewnbwn y Gronfa. Er bod ychwanegedd yn amlwg, mae'r gwerthusiad yn nodi y byddai llawer o'r gweithgarwch a gefnogir gan y Gronfa wedi digwydd beth bynnag, er yn ddiweddarach, neu ar raddfa lai. Ochr yn ochr ag Argymhelliad 2, ac Argymhelliad 9, a fydd yn chwarae rhan mewn lleihau diffyg ychwanegedd, gallai hyn gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i bob ymgeisydd prosiect gwblhau datganiad Theori Newid cryno ac wedi'i ganolbwyntio yn nodi: (i) beth sydd angen ei newid (ii) beth gaiff ei newid a (iii) sut bydd y prosiect yn peri'r newid. Dylai hyn gynorthwyo Uned a Phanel Buddsoddi i Arbed i flaenoriaethu a chefnogi dim ond y prosiectau hynny lle mae'r theori newid yn gydlynol, bod iddi dystiolaeth a'i bod yn ddilys.

Argymhelliad 9: Ochr yn ochr â datblygiad datganiad ROAMEF y Gronfa, dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu a chynnwys datganiad model rhesymeg syml

mewn Ceisiadau Prosiect ac wrth Fonitro i alluogi prosiectau i gasglu'n llawn, ac i staff gwerthuso a'r Uned Buddsoddi i Arbed brofi'n glir, y cysylltiadau rhwng amcanion, mewnbynnau, gweithgareddau, arbedion a chanlyniadau ehangach prosiectau.

Argymhelliad 10: Dylai'r Gronfa gael ei pharhau, ond dylid rhoi ystyriaeth ffurfiol i hyrwyddo bwriad mwy datblygol, yn cynnwys drwy roi cefnogaeth i brosiectau mwy arloesol a dull rheoli portffolio gweithredol. Bydd angen digon ac adnoddau a gallu o fewn yr Uned Buddsoddi i Arbed er mwyn cyflawni'r gofynion hyn.

1 Rhagymadrodd

Cyd-destun

- 1.1 Menter gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Buddsoddi i Arbed sy'n rhoi cymorth ariannol, ar sail gystadleuol ac, yn bwysig, ad-daladwy, i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ledled Cymru. Mae'n cefnogi gweithrediad prosiectau gwella strategol a'i bwriad yw rhoi arbedion rhyddhau arian ac arbedion effeithlonrwydd ehangach, tra hefyd yn sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithiol a gwell sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.
- 1.2 Erbyn diwedd 2012 roedd y Gronfa, a sefydlwyd yn wreiddiol yn 2009, wedi ymrwymo i fuddsoddi bron i £60 miliwn mewn 54 o brosiectau unigol dros chwe rownd ariannu. Mae sefydliadau sydd wedi cyfranogi yn cynnwys cyrff cyhoeddus cenedlaethol a lleol, gyda chynrychiolaeth fawr o sefydliadau GIG Cymru.

Diben y gwerthusiad

- 1.3 Cynhaliwyd gwerthusiad interim o'r Gronfa gan Lywodraeth Cymru yn 2012. Roedd y gwerthusiad interim hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion ffurfiannol megis y broses gais ar gyfer ariannu a rheoli, gyda dim ond ychydig o dystiolaeth ar gael ar y pryd am ganlyniadau'r Gronfa. Argymhellodd y gwerthusiad interim y dylid comisiynu gwerthusiad yn 2013, unwaith yr oedd sail tystiolaeth gyfoethocach ynglŷn â chanlyniadau prosiectau wedi datblygu, ac yn dod yn amlwg.
- 1.4 Ym mis Ebrill 2013, comisiynwyd SQW Ltd (SQW) gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r Gronfa, yn cwmpasu prosiectau a oedd yn rhan o chwe rownd gyntaf gwaith y Gronfa.
- 1.5 Fel y nodwyd yn y Gwahoddiad i Dendro, diben y gwerthusiad yw:
 - amcangyfrif yr arbedion a grëwyd gan brosiectau Buddsoddi i Arbed unigol, a rhoi amcangyfrif o'r arbedion cyfanredol
 - asesu effaith y Gronfa
 - canfod maint yr ychwanegedd a ddarparwyd gan y Gronfa.

- 1.6 Mae'n fwriad gan y gwerthusiad hefyd i ffurfioli, rhannu a rhaeadru dysgu ynglŷn â 'beth sy'n gweithio' mewn prosiectau effeithlonrwydd a gwella gwasanaeth drwy ddatblygu a lledaenu astudiaethau achos cysylltiedig â'r Gronfa.
- 1.7 Mae'n bwysig nodi nad diweddariad ffurfiol o'r broses a'r materion ffurfiannol a gwmpaswyd yn y gwerthusiad interim yw diben y gwerthusiad hwn, er bod materion proses yn cael sylw pan fyddant yn ymwneud yn uniongyrchol â'r dystiolaeth ar arbedion, effeithiau ac ychwanegedd. Nid yw'n fwriad chwaith gan y gwerthusiad i asesu i ba raddau y mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed wedi ymateb i ganfyddiadau'r gwerthusiad interim, nac argymhellion Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r Gronfa a adroddodd ym mis Mawrth 2013. Wedi dweud hynny, yn Adran 7 mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cyd-destunol o ganfyddiadau'r arolwg hwn yn erbyn yr asesiadau cynharach hyn o'r Gronfa, yn ogystal ag asesiad cymharol gydag ymyrraeth 'buddsoddi i arbed' tebyg blaenorol.

Methodoleg

- 1.8 Mae'r gwerthusiad wedi ei seilio ar ddull 'model rhesymeg'. Argymhellir defnyddio modelau rhesymeg wrth werthuso polisi: maent yn cynorthwyo i nodi amcanion y gwerthusiad a chwestiynau ymchwil, hysbysu'r data a'r wybodaeth sydd i'w casglu, a rhoi fframwaith asesu tryloyw. Cyflwynir model rhesymeg y gwerthusiad yn Ffigur 1-1.
- 1.9 Datblygwyd y model rhesymeg yn dilyn adolygiad o ddogfennau cefndir a data Buddsoddi i Arbed, ymgysylltiad cychwynnol â'r Uned Buddsoddi i Arbed yn Llywodraeth Cymru. Hefyd rhestrwyd yr hyn a ddysgwyd yn y gorffennol wrth adolygu prosiectau Buddsoddi i Arbed a gynhaliwyd gan Drysorlys EM.
- 1.10 Defnyddiwyd ffurf ymchwil 'dulliau cymysg', gan gynnwys:
- **Adolygiad desg o ddogfennau a data perthnasol y Gronfa** yn cynnwys y Gwerthusiad Interim mewnol, adolygiad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r Gronfa, a gwybodaeth ar lefel prosiect pan oedd ar gael i ddatblygu tystiolaeth gan brosiectau lle cwblhawyd ymgynghoriadau/astudiaethau achos ac i lenwi'r bylchau

pan nad oedd ymgynghoriadau wedi'u cwblhau. Cafodd y gwerthuswyr hefyd gronfa ddata monitro'r Gronfa fel ag yr oedd ym mis Mai 2013, ac mae holl ddadansoddiadau nodweddion poblogaeth y Gronfa yn defnyddio'r dyddiad hwnnw.

- **Ymgynghoriadau dros y ffôn â 25 rheolwr prosiect/cysylltiadau arweiniol prosiectau Buddsoddi i Arbed**, yn cwmpasu prosiectau wedi'u cwblhau (17 ymgynghoriad) a phrosiectau sy'n mynd rhagddynt (wyth ymgynghoriad). Cynhaliwyd y 17 ymgynghoriad â phrosiectau wedi'u cwblhau ym mis Mehefin/Gorffennaf 2013 gan ddefnyddio offer ymchwil cyson (yn Atodiad B); cysylltwyd â chwe phrosiect arall oedd wedi'u cwblhau, ond ni fu'n bosibl cwblhau ymgynghoriad. Cwblhawyd yr wyth ymgynghoriad â'r prosiect sy'n mynd rhagddynt ym mis Hydref/Tachwedd 2013 gan ddefnyddio'r un offer ymchwil ag a ddefnyddiwyd ar gyfer prosiectau wedi'u cwblhau gyda nifer o newidiadau er mwyn adlewyrchu statws cynharach y prosiectau hyn (yn Atodiad B); cysylltwyd ag wyth prosiect arall a oedd yn mynd rhagddynt (o restr a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru, gyda nifer o brosiectau wedi eu heithrio oherwydd nad oeddent wedi mynd rhagddynt, roeddent ar gam cynnar iawn neu oherwydd eu bod wedi cysylltu'n agos â phrosiectau Buddsoddi i Arbed eraill a oedd eisoes wedi'u cwmpasu yn yr ymchwil) ond nid oedd yn bosibl cwblhau ymgynghoriad. Drwy'r gwerthusiad i gyd, defnyddiwyd yr ymgynghoriadau fel y prif ddull er mwyn galluogi i nodi a chael tystiolaeth am fanteision y Gronfa (yn cynnwys arbedion rhyddhau arian, arbedion nad sy'n rhyddhau arian, manteision mesuradwy a manteision anfesuradwy¹).
- **Un ar ddeg astudiaeth achos o brosiectau Buddsoddi i Arbed** er mwyn darparu tystiolaeth fanwl am ddatblygiad prosiectau, arbedion a grëwyd, effeithiau, ychwanegedd a gwersi a ddysgwyd. Roedd

¹ Mae'r disgrifiad hwn o fanteision wedi ei gael o ganllawiau'r Trysorlys ar fathau o fanteision o ymyrraeth sector cyhoeddus. Gweler yma:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/190601/Green_Book_guidance_public_sector_business_cases_using_the_Five_Case_Model_guidance.pdf

chwech o'r astudiaethau achos gyda phrosiectau a oedd yn mynd rhagddynt (na oedd wedyn yn rhan yn yr ymgynghoriadau dros y ffôn), ac roedd pump o'r astudiaethau achos gyda phrosiectau oedd wedi'u cwblhau (yr ymgynghorwyd â hwy yn flaenorol a gwnaethant gytuno i gymryd rhan mewn astudiaeth achos). Nodwyd a chytunwyd ar yr astudiaethau achos mewn trafodaeth â Phanel Buddsoddi i Arbed a Rheolwr Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru. Roedd pob astudiaeth achos yn cynnwys adolygiad o ddogfennau cefndir perthnasol (er enghraifft, y ffurflen gais, data monitro, unrhyw adroddiadau astudiaeth achos neu werthusiadau mewnol sy'n bodoli), ymgynghoriadau gyda'r rheolwr prosiect/person cyswllt arweiniol (a gynhaliwyd fel arfer wyneb yn wyneb, er mewn nifer o achosion lle nad oedd cyfarfod yn bosibl gwnaed hynny dros y ffôn), a lle bo hynny'n briodol ymgynghoriadau dilynol (wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) gyda phartneriaid perthnasol a oedd yn rhan o'r prosiect. Cynhaliwyd yr astudiaethau achos gan ddefnyddio canllawiau ymchwil cyson, gyda'r canfyddiadau yn cael eu cofnodi mewn adroddiad cryno o astudiaethau achos. Anfonwyd y crynodebau at bartneriaid lleol ar gyfer gwirio ffeithiau a'u clirio, cyn eu cyhoeddi.

- **Pedair astudiaeth achos o brosiectau nad oedd yn rhai Buddsoddi i Arbed er mwyn cymharu;** roedd y rhain yn cynnwys dau brosiect a wnaeth gais am gymorth Buddsoddi i Arbed ond na lwyddodd i sicrhau cymorth yn y pen draw, a dau brosiect oedd â dim cysylltiad â'r Gronfa ond a oedd yn ceisio cyflawni gweithgareddau tebyg a sicrhau canlyniadau effeithlonrwydd arian a gwella gwasanaeth tebyg. Fel gydag astudiaethau achos prosiectau Buddsoddi i Arbed, roedd yr astudiaethau achos a ddefnyddiwyd i gymharu yn cynnwys ymgynghoriadau gyda'r rheolwr prosiect/prif berson cyswllt (cynhaliwyd wyneb yn wyneb ym mhob achos) a, lle bo hynny'n briodol, ymgynghoriadau dilynol (wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) gyda phartneriaid perthnasol sy'n ymwneud â'r prosiect. Cynhaliwyd yr astudiaethau achos gan ddefnyddio canllawiau ymchwil

cyson, a defnyddiwyd y canfyddiadau allweddol i lywio adroddiad cyffredinol yr ymchwil.

- 1.11 Drwy'r ymgynghoriadau a'r astudiaethau achos, mae'r gwerthusiad wedi sicrhau tystiolaeth gynradd gan 31 o'r 54 prosiect a gefnogwyd dros chwe rownd gyntaf y Gronfa, cyfradd cyfranogi o 57% (uwch os na cyfrifir y prosiectau na chysylltwyd â hwy ar sail canllawiau gan y cleient).
- 1.12 Mae'r data wedi ei ddadansoddi drwy gymysgedd o ddadansoddiad meintiol (lle mae data ariannol neu ddata arall wedi ei ddarparu, a data monitro perthnasol wedi ei dderbyn gan yr Uned Buddsoddi i Arbed) a dadansoddiad ansoddol (o'r ymgynghoriadau dros y ffôn ac astudiaethau achos).
- 1.13 Profwyd canfyddiadau'r dadansoddiad gyda Llywodraeth Cymru a'i Phanel Buddsoddi i Arbed, cyn cynhyrchu'r adroddiad hwn.

Cyd-destun y gwerthusiad

- 1.14 Ar ddechrau'r adroddiad mae nifer o bwyntiau sy'n bwysig eu hystyried o ran cyd-destun wrth fframio'r gwerthusiad a'i ganfyddiadau:
- Mae'r gwerthusiad yn ymdrin â'r cyfnod llawn o ddechrau'r Gronfa yn 2009 hyd 2013, a dros chwe rownd benodol. Dros y cyfnod hwn, datblygodd ac esblygodd y Gronfa, gan adeiladu ar y profiad a'r gwersi a ddysgwyd o'i gweithredu, ac ymateb i ganfyddiadau ac argymhellid y gwerthusiad interim, ac yna adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol (er mai dim ond ym mis Mawrth 2013 yr adroddwyd ar hwn ac felly ni fyddai unrhyw newidiadau wedi cael effaith ar gyfer y gwerthusiad hwn). Mae cydnabod 'natur ddatblygol' y Gronfa yn bwysig mewn rhoi cyd-destun i ganfyddiadau'r adroddiad hwn.
 - Gwerthusiad o'r Gronfa ei hun ydyw. Nid asesiad cymharol o'r Gronfa yn erbyn ffrydiau ariannu neu raglenni cyfredol eraill ar lefel troswaol (boed y rhain yn rhai Llywodraeth Cymru neu, er enghraifft, Cronfeydd Cymdeithasol Ewropeaidd). Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried casgliadau'r gwaith, ac yn arbennig yr argymhellion a nodir ynddo, yng

nghyd-destun y cyfresi ehangach o ffrydiau ariannu a'r rhaglenni sydd ar gael i gyrff cyhoeddus ledled Cymru.

- Fel gwerthusiad ar 'lefel rhaglen', mae'n rhaid i'r gwaith fod yn lefel uchel ac wedi ei ganolbwyntio ar lefel gyfanredol a strategol, er y cydnabyddir bod pob prosiect unigol o'r Gronfa ynddo'i hun yn fanwl a chymhleth. Nid yw o fewn cylch gwaith y gwaith hwn i ymchwilio'n fanwl, neu nodi'n hirfaith, fanylion dros 50 o ymyriadau unigol.
- Roedd dirywiad cof yn fater sylweddol ar gyfer y gwerthusiad, gydag angen i bartneriaid prosiect weithiau feddwl yn ôl dros dair i bedair blynedd, ac yn aml i ddarparu asesiadau eithaf penodol a manwl dros y cyfnod hwn. Er bod gan SQW brofiad helaeth yn y sefyllfaoedd hyn, ac yn llwyr hyderus yng nghywirdeb y deunydd a gesglir, mae'r risg generig o ddirywiad cof (gan arwain ar beth bylchau mewn gwybodaeth), a'r risg benodol o brofiad mwy diweddar yn cael ei adrodd yn llawnach, wedi bod yn un sylweddol. Mae hyn yn amlygu'r tensiwn arbennig mewn gwerthusiadau o'r math hyn i ganiatáu digon o amser i fod wedi treulio fel bod gwir effaith yn cael ei weld, ond hefyd dim gormod fel bod atgofion cywir a chytbwys o beth yn union a ddigwyddodd yn cael eu colli. Roedd amseru'r gwerthusiad hwn yn dilyn argymhelliad gwerthusiad interim y Gronfa. Fodd bynnag, gyda nifer o brosiectau yn dal yn mynd rhagddynt mae'n parhau'n asesiad interim.
- Roedd hi'n bwysig caniatáu ar gyfer effeithiau allanol dirywiad y sefyllfa ariannol a thoriadau mewn gwariant sector cyhoeddus yn yr ymgynghoriadau a'r dadansoddiad, o gofio bod cyfnod y gwerthusiad yn ymdrin â 2009-2013 pan welodd y sector cyhoeddus doriadau ariannol sylweddol a gwasgfeydd ar gyllidebau. Er bod Buddsoddi i Arbed yn rhan o'r ymateb i'r her hon, mae'n bwysig cydnabod nad oedd hwn yn gyfnod 'normal' - bryd hynny o leiaf - ar gyfer darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus, gyda phwysau sylweddol i dorri ar gostau ac ysgogi effeithlonrwydd yn fater prif ffrwd ar gyfer sefydliadau. Felly aliniwyd Buddsoddi i Arbed gyda'r agenda strategol, ond roedd i ba raddau y gellir gwahanu'r arbedion a grëwyd yn fanwl gywir oddi wrth

weithgareddau effeithlonrwydd eraill o bosibl yn fwy cymhleth dros gyfnod y gwerthusiad na fyddai wedi bod yn gyffredinol.

1.15 Mae un pwynt olaf yn bwysig o ran fframio'r gwerthusiad a'i ganfyddiadau.

Er, yn y pen draw, bod dros hanner y prosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa yn ystod cyfnod y gwerthusiad wedi chwarae rhan uniongyrchol mewn darparu tystiolaeth gynradd ar gyfer y gwerthusiad, roedd sicrhau'r lefel hon o gyfranogiad yn anodd, ac roedd lefel ac ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd yn amrywiol. Roedd nifer o elfennau yn effeithio ar hyn:

- roedd enwau'r rheolwyr/arweinwyr prosiect a manylion cyswllt a oedd gan yr Uned Buddsoddi i Arbed ac a ddarparwyd i'r Tîm Astudiaeth weithiau yn hen, ar y cyfan oherwydd newid mewn staff yn y sefydliadau a gafodd gymorth, gyda'r person cyswllt gwreiddiol wedi symud ymlaen. Mewn nifer o achosion roedd angen cysylltu â thri neu bedwar unigolyn er mwyn cwblhau ymgynghoriad, gyda lefel y profiad oedd ganddynt am weithgarwch manwl y prosiect yn aml yn gymysg iawn
- nid oedd hi bob amser yn hawdd canfod pwy oedd y prif berson gyswllt ar gyfer prosiectau, ac ai person cyswllt o ochr ymarferol neu weithredol, neu ochr rheolaeth ariannol y prosiect oedd hwn. Yn y pen draw, weithiau roedd ansicrwydd ynglŷn â phwy oedd yn 'berchen' ar y prosiect, ac unwaith eto roedd gan hyn oblygiadau ar gyfer pa mor gynhwysfawr oedd y wybodaeth a ddarparwyd a'i hansawdd
- roedd cysylltiadau gweithredu agos rhwng rhai prosiectau a sicrhodd gymorth y Gronfa, yn cynnwys nifer o brosiectau 'dilynol', eto yn peri goblygiadau ar gyfer canfod y person cyswllt cywir, ac roedd nodi gweithgarwch a manteision prosiect mewn trafodaeth ar adegau yn her. Weithiau, roedd gwahanu gyda'r person cyswllt (yn ystod ymgynghoriadau'r astudiaeth a'r astudiaethau achos) effeithiau penodol prosiectau unigol y Gronfa, yn hytrach na'r gyfres ehangach o weithgareddau, yn peri problemau.

1.16 Mae sicrhau bod y personau cyswllt mwyaf diweddar a pherthnasol yn cael eu cynnal bob amser yn her i ymyriadau megis y Gronfa Buddsoddi i Arbed,

gan fod pobl yn newid swyddi yn naturiol, a gan fod elfennau ariannol a gweithredol y prosiect yn gweithio ochr yn ochr. Sefydlodd Llywodraeth Cymru systemau ffurfiol gyda'r bwriad o sicrhau bod eglurder ynglŷn â phwy yw'r person cyswllt yn cael ei sefydlu a'i gynnal, yn cynnwys dynodi Prif Berchennog Cyfrifol (SRO) a rheolwr prosiect ar ddechrau'r prosiect, ac yn cynnwys fel amod i'r cynnig bod prosiectau yn hysbysu Llywodraeth Cymru ynglŷn ag unrhyw newid mewn rheolwr prosiect. Yna dylai'r manylion cyswllt gael eu cynnal drwy adroddiadau monitro chwarterol hyd nes bod yr ad-daliad wedi ei gwblhau a bod adroddiad ôl-prosiect wedi ei ddarparu. Ni chynhelir cysylltiad rhwng yr Uned Buddsoddi i Arbed a'r prosiectau ar ôl i brosiect gau.

- 1.17 Nid cynnig sylwadau manwl ar gadernid y systemau sydd ar waith ar gyfer rheolaeth weithredol yw canolbwynt y gwerthusiad effaith hwn. Fodd bynnag, mae'r gwerthuswyr wedi sylwi ar nifer o achlysuron lle mae'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd pan fo prosiect ar waith yn aml yn wahanol i'r hyn a gynigwyd yn y ceisiadau a wnaed i'r Panel. Dychwelir at y mater o natur ddeinamig aml prosiectau a gefnogir yn Adran 3.

Strwythur


- 1.18 Mae gweddill yr adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 2: Cyd-destun a sail resymegol
- Adran 3: Arbedion a grëwyd gan brosiectau Buddsoddi i Arbed
- Adran 4: Effeithiau prosiectau Buddsoddi i Arbed
- Adran 5: Ychwanegedd Buddsoddi i Arbed
- Adran 6: Synthesis astudiaeth achos
- Adran 7: Ystyriaethau o brofiad blaenorol gweithgarwch Buddsoddi i Arbed
- Adran 8: Casgliadau ac argymhellion

- 1.19 Mae Atodiad A y ddogfen hon yn rhestru'r prosiectau yr ymgysylltwyd â hwy yn y gwerthusiad drwy'r ymgynghoriadau a'r astudiaethau achos. Darperir

adroddiadau cryno o'r astudiaethau achos mewn dogfen ar wahân a gyhoeddir gyda'r adroddiad hwn.

Ffigur 1-1: Model rhesymeg ar gyfer y Gronfa Buddsoddi i Arbed



2 Cyd-destun a sail resymegol

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r Gronfa dros gyfnod y Gwerthusiad, ac yn cynnig sylwadau am y sail resymegol waelodol ar gyfer ymyrraeth.

Trosolwg o brosiectau

Trosolwg o bortffolio Buddsoddi i Arbed

2.2 Mae'r gwerthusiad hwn yn ymdrin â phrosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa dros ei chwe rownd gyntaf o gynigion, tua 54 prosiect i gyd.² Yn Rownd Un y cafwyd y nifer mwyaf o brosiectau, er bod y data yn dangos bod maint y prosiectau wedi cynyddu'n raddol - os nad mewn modd llinellol - dros y chwe rownd, gyda chyfartaledd maint prosiect yn codi ym mhob rownd ddilynol. Caiff hyn ei egluro'n rhannol gan gyflwyniad isafswm trothwy prosiect o £100 mil yn dilyn Rownd Dau, penderfyniad a wnaed er mwyn annog mwy o ganolbwyntio ar brosiectau 'strategol'.

Tabl 2-1: Nifer y prosiectau a'u gwerth fesul Rownd

	Nifer y prosiectau	Gwerth y cynnig (£000)	Gwerth cyfartalog y cynnig (£000)
Rownd Un	19	9,971	525
Rownd Dau	9	16,915	1,879
Rownd Tri	6	5,115	853
Rownd Pedwar	6	3,850	642
Rownd Pump	5	12,777	2,555
Rownd Chwech	6	6,408	1,068
Rownd heb ei nodi	3	2,694	898
Cyfanswm	54	57,730	1,069

Ffynhonnell: Data monitro Buddsoddi i Arbed

2.3 Roedd maint y prosiectau, yn ôl gwerth ariannol, yn amrywio'n sylweddol: o dros £5 miliwn i dan £50 mil. Fel y dangosir yn Nhabl 2-2, roedd yr wyth prosiect mwyaf (allan o 54) yn gyfrifol am tua 64% o gyfanswm gwerth cynnig y Gronfa. Roedd hyn yn cynnwys dau brosiect unigol a sicrhodd dros £5 miliwn o gymorth y Gronfa: y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VERS) dan

² Roedd y gronfa ddata a ddarparwyd i SQW gan yr Uned Buddsoddi i Arbed yn nodi 60 o brosiectau 'llwyddiannus'. Fodd bynnag, yn dilyn hynny nododd yr Uned bod chwech heb fynd rhagddynt. Felly nid yw'r chwe phrosiect hyn wedi eu cynnwys yn y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

arweiniad GIG Cymru, a Rhaglen Llesgedd Gwent dan arweiniad Cyngor Torfaen a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan.

Tabl 2-2: Prosiectau yn ôl gwerth y cynnig

	Nifer y prosiectau	Gwerth y cynnig (£000)	% cyfanswm gwerth y cynnig
Dros £5 miliwn	2	13,714	23.8%
£2.5 miliwn i £5 miliwn	6	23,097	40.0%
£1 miliwn i £2.5 miliwn	4	6,100	10.6%
£500 mil i £1 miliwn	11	7,960	13.8%
£250 mil i £500 mil	13	4,981	8.6%
£50 mil i £250 mil	12	1,801	3.1%
Dan £50 mil	2	75	0.1%

Ffynhonnell: Data monitro Buddsoddi i Arbed

Dosbarthiad prosiectau yn ôl sector

2.4 Cefnogwyd prosiectau ar draws y sector cyhoeddus gan y Gronfa yn ei chwe rownd gyntaf. Fodd bynnag, roedd sefydliadau GIG Cymru yn cyfrif am 65% o gyfanswm gwerth y cynnig (£37.3 miliwn o'r £57.7 miliwn), yn cynnwys 28 prosiect unigol (er mewn nifer o achosion bod cysylltiad agos rhwng y prosiectau, gyda nifer o brosiectau 'olynol').

2.5 Fel y nodwyd yn y Gwerthusiad Interim, mae'r pwyslais hwn ar brosiectau GIG yn adlewyrchu, yn rhannol, y dewisiadau ariannol mwy cyfyngedig sydd ar gael i gyrff cyhoeddus, o ran dewisiadau amgen i ariannu prif ffrwd. Roedd y dystiolaeth o'r gwerthusiad hwn hefyd yn awgrymu bod y cyd-destun gweithredu ariannol cynyddol dynn yn y sector iechyd yn ffactor bwysig, gyda Buddsoddi i Arbed yn cael ei defnyddio i gefnogi prosiectau a oedd yn 'bwysig' mewn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau strategol sefydliadol, ond nid yn 'greiddiol' i ddarpariaeth gwasanaeth prif ffrwd, yn aml yn cynnwys cynnal rhaglen beilot a phrofi gweithgareddau newydd, ac felly ddim yn rhan o gyllidebau mewnol.

Tabl 2-3: Cynigion yn ôl sector

	Nifer y prosiectau	Gwerth y cynnig (£000)	Gwerth cyfartalog y cynnig (£000)
GIG Cymru	28	37,251	1,330
Sector cyhoeddus arall	8	12,272	1,534
Llywodraeth leol	17	7,487	440
Addysg uwch	1	719	719

- 2.6 Roedd cymysgedd sectoraidd y prosiect a gefnogwyd yn adlewyrchu'n gyffredinol ddosbarthiad y ceisiadau a dderbyniwyd. Dros y chwe rownd ariannu ceisiodd tua 230 o brosiectau gymorth Buddsoddi i Arbed. Fel y dangosir isod, roedd GIG Cymru yn gyfrifol am gyfran uwch o geisiadau (57%) na'r prosiectau a gefnogwyd (52%); mewn cyferbyniad roedd prosiectau Llywodraeth Leol yn gyfrifol am ddim ond 24% o'r ceisiadau, ond 31% o brosiectau.
- 2.7 Mae'r data'n awgrymu bod ceisiadau llywodraeth leol yn 'fwy tebygol' o gael cefnogaeth na phrosiectau o sectorau eraill, gydag un prosiect yn cael ei gefnogi am bob tri chais llywodraeth leol, o gymharu ag un ym mhob pump o brosiectau GIG.

Tabl 2-4: Cymharu ceisiadau a chynigion yn ôl sector

	Cyfran y ceisiadau (n=230)	Cyfran y prosiectau a gefnogwyd (n=54)	Ceisiadau fesul prosiect a gefnogwyd
GIG Cymru	57%	52%	4.7
Sector cyhoeddus arall	17%	15%	4.8
Llywodraeth leol	24%	31%	3.2
Addysg uwch	3%	2%	6.0

Ffynhonnell: Data monitro Buddsoddi i Arbed

- 2.8 Nid y broses o ddewis a gwerthuso prosiectau yw canolbwynt y gwaith hwn. Bydd ystod eang o ffactorau wedi dylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi, yn seiliedig ar safon y ceisiadau ac i ba raddau yr oeddent yn bodloni meini prawf y Gronfa. Wedi dweud hynny, gallai'r Uned a'r Panel Buddsoddi i Arbed ystyried gwneud gwaith i ddeall i ba raddau y gallai fod gwersi i'w dysgu gan safon ceisiadau gan lywodraeth leol sy'n egluro 'canlyniadau gwell' y prosiectau wrth sicrhau cymorth, gyda'r potensial i'r negeseuon hyn gael eu lledaenu yn fwy eang.

Dosbarthiad prosiectau yn ôl lleoliad

- 2.9 Mae dosbarthiad gofodol prosiectau a gwerth y cynigion wedi ei nodi yn Nhabl 2-5. Pwynt pwysig yw nad oedd targedu gofodol gweithgarwch yn rhan o feini prawf y Gronfa: aseswyd ceisiadau ar sail ansawdd y cyflwyniad a manyleb y prosiect, nid ar leoliad gofodol.

2.10 Yn ogystal, aeth tua 30% o werth y cynigion (£16.8 miliwn) i brosiectau a oedd yn gweithredu ar draws Cymru, yn cynnwys nifer o brosiectau GIG gyfan.

Roedd y prosiectau hyn, fel y gellid disgwyl, ar y cyfan yn fwy na phrosiectau lleol/rhanbarthol penodol, gyda chyfartaledd o £1.5 miliwn o gymorth

Buddsoddi i Arbed yn cael ei gynnig.

2.11 Mae'n nodedig bod cyfartaledd maint prosiect yng Nghanolbarth Cymru yn benodol yn isel, tua £725 mil, o gymharu â thua £1 miliwn ar gyfer prosiectau yn Ne Ddwyrain a De Orllewin Cymru.

Tabl 2-5: Cynigion yn ôl lleoliad

	Nifer y prosiectau	Gwerth y cynnig (£000)	Gwerth cyfartalog y cynnig (£000)
Cymru gyfan	11	16,751	1,523
Canolbarth Cymru	10	7,234	723
Gogledd Cymru	9	7,985	887
De Orllewin Cymru	6	6,783	1,131
De Ddwyrain Cymru	18	18,977	1,054

Ffynhonnell: Data monitro Buddsoddi i Arbed

2.12 Eto, mae'n werth cymharu dosbarthiad ceisiadau gyda phrosiectau a gefnogwyd. O'r 230 cais a gofnodwyd yn y gronfa ddata a ddarparwyd i SQW, roedd 149 yn cynnwys lleoliad gofodol. O'r garfan hon, roedd prosiectau Cymru gyfan yn cyfrif am gyfran ychydig yn uwch o brosiectau a gefnogwyd na cheisiadau, gyda Gogledd Cymru yn cyfrif am gyfran is. Fodd bynnag, nid yw'r data yn dangos anghydbwysedd yn nosbarthiad gofodol cefnogaeth o ran y cydbwysedd rhwng ceisiadau a chynigion.

Tabl 2-6: Cymharu ceisiadau a chynigion yn ôl lleoliad

	Cyfran o'r holl geisiadau (n=149)	Cyfran y prosiectau a gefnogwyd (n=54)	Ceisiadau am bob prosiect a gefnogwyd
Cymru gyfan	16%	20%	2.2
Canolbarth Cymru	19%	19%	2.8
Gogledd Cymru	22%	17%	3.7
De Orllewin Cymru	13%	11%	3.2
De Ddwyrain Cymru	30%	33%	2.5

Ffynhonnell: Data monitro Buddsoddi i Arbed

Taliadau a wnaed

2.13 Mae'r data uchod yn cyfeirio at werth y *cynnig* gan Lywodraeth Cymru i brosiectau drwy'r Gronfa, nid y swm sydd wedi ei dalu. Roedd y gronfa ddata a roddodd yr Uned Buddsoddi i Arbed i SQW yn cofnodi taliadau a wnaed hyd fis Mai 2013 - mae'r data a nodir isod wedi ei godi o'r wybodaeth hon. Mae'r data Enillion ar Fuddsoddiad dilynol wedi ei seilio ar y wybodaeth ariannol hon a ddarparwyd yng nghronfa ddata mis Mai 2013.

2.14 Erbyn mis Mai 2013 (y pwynt y darparwyd gwybodaeth), mae'r data yn dangos bod y Gronfa wedi talu tua £31.8 miliwn o gymorth ariannol i brosiectau, sy'n cyfateb i 55% o gyfanswm y gwerth a gymeradwywyd hyd y pwynt hwnnw. Roedd y data hwn yn amrywio fesul Rownd, fel y disgwylir, erbyn mis Mai 2013:

- roedd taliadau i brosiectau a oedd yn rhan o Rownd Un i Rownd Pedwar ar y cyfan wedi eu cwblhau, heblaw am un prosiect mawr lle'r oedd taliad wedi ei oedi – roedd cyfanswm o £30.7 miliwn wedi ei dalu, o'r cyfanred o £35.8 miliwn a gynigiwyd
- roedd taliad i brosiectau a oedd yn rhan o Rownd Pump a Chwech ar gam cynnar, gyda £1.0 miliwn wedi ei dalu, o'r £19.2 miliwn a gynigiwyd.

2.15 Gwnaed taliadau ychwanegol yn ystod cyfnod y gwerthusiad, rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2013. Mae'r Uned Buddsoddi i Arbed wedi cadarnhau bod yr holl gymorth ariannol a gytunwyd gyda phrosiectau fel rhan o Rownd Un i Rownd Chwech wedi ei dalu erbyn mis Ionawr 2014 yn unol ag amserlenni buddsoddi prosiect cytunedig.

Negeseuon allweddol

2.16 Mae trosolwg o bortffolio'r Gronfa yn amlygu nifer o negeseuon pwysig ar gyfer y gwerthusiad:

- Mae'r portffolio o brosiectau yn amrywiol. Mae prosiectau'n amrywio o ymyriadau sylweddol iawn (dros £5 miliwn o adnodd y Gronfa) i rai cymharol fach, mewn termau ariannol o leiaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ystod o weithgareddau y mae sefydliadau wedi ceisio cymorth y Gronfa ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae gan hyn hefyd oblygiadau ar gyfer rheolaeth a mesur perfformiad y Gronfa, yn cynnwys i ba raddau y mae/y dylai

cefnogaeth barhaus, goruchwyliaeth a monitro fod wedi'i ganolbwyntio ar brosiectau mwy, lle mae'r rhan fwyaf o'r arian wedi'i leoli, ac a oes angen cam gwerthuso a datblygu cysyniad mwy manwl ar y prosiectau hyn cyn eu cymeradwyo yn llawn.

- Ar draws yr amrywiaeth hwn nid yw'n ymddangos o'r data bod patrwm clir o gefnogaeth, naill ai'n ofodol, yn ôl sector, neu o ran maint. Yn hyn o beth (ac fel y'i bwriedir gan Lywodraeth Cymru) mae'r Gronfa wedi bod yn bennaf ymatebol i alw allanol, yn hytrach na bod yn rhagweithiol mewn chwilio i ddatblygu neu dargedu dull portffolio a reolir lle caiff mathau o brosiectau eu targedu er mwyn llenwi bylchau a/neu fodloni anghenion polisi penodol (er bod Llywodraeth Cymru ei hun wedi arwain ar nifer o brosiectau strategol a oedd yn gyfrifol am gymorth Cronfa sylweddol, yn cynnwys y Cynllun Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus). Gallai dull wedi ei reoli yn fwy, wedi'i seilio ar fethiannau a phroblemau sylfaenol fod wedi bod yn bosibl - byddwn yn dychwelyd at y mater hwn isod.
- Pan gynhaliwyd yr ymchwil cychwynnol gyda phrosiectau (yng nghanol/diwedd 2013), nid oedd yr holl arian a glustnodwyd iddynt wedi ei dalu, yn arbennig ar gyfer y prosiectau a oedd yn dal i fynd rhagddynt o rowndiau diweddarach y Gronfa a gwmpaswyd gan y gwerthusiad (pump a chwech). O ganlyniad, ni fydd yr holl weithgareddau a manteision wedi eu cyflawni. O gofio llwybrau amser i sicrhau arbedion a manteision prosiectau gwella gwasanaeth, golyga hyn ei bod yn 'gynnar' ar gyfer nifer o'r prosiectau a gefnogir gan y Gronfa ac sydd wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad; mae angen cydnabod hyn wrth ystyried casgliadau'r gwerthusiad.

Sail resymegol

- 2.17 Nid yw asesiad a beirniadaeth fanwl o sail resymegol sylfaenol y Gronfa yn rhan ffurfiol o ddiben craidd y gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, mae dealltwriaeth glir o'r sail resymegol yn bwysig fel y gall y gwerthusiad brofi'n gadarn a yw'r Gronfa wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni yn erbyn ei bwriad.
- 2.18 Er nad yw'n ymddangos yno bod datganiad ffurfiol o sail resymegol y Gronfa o ran y rhwystrau a/neu fethiannau penodol y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy


(a fyddai wedi bod yn arferol i'w ddisgwyl, ac sydd wedi ei ddatblygu wedyn gan y gwerthuswyr yn y model rhesymeg), mae'r gwerthusiad yn dynodi bod y Gronfa yn y bôn yn ceisio ymateb i dri mater sy'n ategu ei gilydd:

- Y cyd-destun polisi strategol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar gyflawni gwell gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys drwy fwy o gydweithio rhwng asiantaethau a darparwyr gwasanaeth.
- Yr angen i gefnogi sefydliadau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn darparu gwasanaeth, o gofio'r cyd-destun cyllidebol ac ariannol heriol, tra'n cynnal a gwella ansawdd gwasanaeth: mewn geiriau syml, darparu adnoddau nad sydd gan y sefydliadau eu hunain.
- Mynd i'r afael â methiannau a materion penodol ar lefel leol/darpariaeth gwasanaeth sy'n atal sefydliadau rhag datblygu prosiectau gwella yn cynnwys *methiannau cydgysylltu* (lle nad yw asiantaethau cyhoeddus yn cydweithredu ac yn gweithio gyda'i gilydd), *osgoi risg* (mewn buddsoddi adnoddau prin mewn prosiectau a gweithgareddau newydd), *rhwystrau ariannol* (lle mae nifer o asiantaethau cyhoeddus yn methu cyrchu arian gan ddarparwyr prif ffrwd), a *methiannau gwybodaeth* (lle mae bylchau neu anghymesureddau gwybodaeth yn atal gwelliant gwasanaeth neu'n effeithio'n negyddol ar gyflenwi).

Sail resymegol ac amcanion prosiectau

2.19 Profwyd y materion hyn gyda phrosiectau fel rhan o'r gwerthusiad, drwy'r ymgynghoriadau a'r astudiaethau achos. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos bod materion methiant o ran cydgysylltu a rhwystrau ariannol (yr olaf yn arbennig ar gyfer prosiectau GIG) yn amlwg. Er enghraifft, fel y dangosir isod, allan o'r 25 ymgynghoriad gyda phrosiectau wedi'u cwblhau a rhai sy'n mynd rhagddynt, nododd 11 ohonynt fod methiannau cydgysylltu yn elfen bwysig iawn i'r sail resymegol sylfaenol ar gyfer y prosiect, gyda methiannau o ran gwybodaeth a methiannau sefydliadol hefyd i'w gweld yn fynych iawn.

Ffigur 2-1: Prosiectau yn nodi methiannau/materion penodol fel rhai ‘pwysig iawn’ i’w prosiect



2.20 Mae methiannau sefydliadol fel petai'n fwy o fater ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt; mae hyn yn adlewyrchu, yn rhannol, natur y prosiectau yr ymgynghorwyd â hwy, a oedd yn cynnwys nifer o brosiectau technegol yn ceisio datblygu ffyrdd newydd o weithio.

2.21 Mae'n nodedig na ystyriwyd osgoi risg mewn buddsoddi adnoddau mewn gweithgareddau 'newydd' ar y cyfan yn broblem gan brosiectau: diffyg adnoddau mewnol, yn hytrach nag osgoi eu defnyddio, a adroddwyd yn gyson fel y mater a oedd yn cyfiawnhau'r angen am gymorth y Gronfa. Fodd bynnag, roedd yn nodedig hefyd bod ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda phrosiectau wedi'u cwblhau a rhai sy'n mynd rhagddynt yn dangos na ystyriwyd ar y cyfan fathau eraill o gymorth allanol, ac mai adnodd mewnol oedd y dewis arall mwyaf tebygol i'r Gronfa'.

2.22 Mae'r mater hwn yn cyffwrdd ar ychwanegedd cymorth y Gronfa, y bydd yr adroddiad yn dychwelyd ato'n ddiweddarach. Fodd bynnag, ar y cam hwn, mae'n werth nodi bod yr ymchwil astudiaethau achos yn awgrymu y ceisiwyd adnodd y Gronfa er mwyn gwella perfformiad ar raddfa fwy, yn gynt, yn fwy arloesol ac/neu mewn modd integredig gwell nag y gellid bod wedi ei gyflawni gan ddefnyddio adnoddau mewnol yn unig. Awgryma hyn bod osgoi risg defnyddio adnoddau mewnol o bosibl wedi bod yn fater mwy amlwg nag a adroddwyd yn uniongyrchol gan y prosiectau.

2.23 Mae hi hefyd yn bwysig nodi bod y sefyllfa ariannol a chyllidebol cefndirol yn fater a nodwyd yn gyffredin: nododd nifer o'r prosiectau yr ymgynghorwyd â hwy, ar draws pob sector a chyfnod amser, yr angen sylfaenol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd er mwyn cyfrannu ar gyflawni targedau ariannol corfforaethol yn ysgogydd craidd ar gyfer datblygiad eu prosiect, ac un a alluogwyd gan adnodd y Gronfa.

Y sail resymegol yn llawn

2.24 Ar y cyfan, mae'r gwerthusiad yn ystyried bod y sail resymegol ar gyfer y Gronfa yn gadarn, a bod prosiectau a oedd yn sicrhau cymorth gan y Gronfa yn gyffredinol wedi eu seilio ar sail resymegol gadarn a sylweddol ar gyfer ymyrraeth. Nid yw hyn yn gwbl annisgwyl, o gofio'r gwerthusiad ffurfiol a'r ddisgyblaeth asesu oedd eu hangen i sicrhau cymorth gan y Gronfa. Serch hynny, mae'n ganfyddiad cadarnhaol.

2.25 Wedi dweud hynny, prin oedd ystyriaeth benodol o'r farchnad ac yn arbennig yn achos y Gronfa fethiannau a materion eraill - megis methiannau cydgysylltu, neu osgoi risg - ar draws prosiectau, ac nid yw wedi ei ffurfioli yn y broses werthuso: hynny yw, nid profi beth fydd y prosiect yn ei wneud ac a yw hyn yn 'rhywbeth da' ond pam, yn sylfaenol, mae angen y prosiect. Oherwydd hyn, gallai'r seiliau rhesymegol ar gyfer prosiectau fod wedi eu cuddio rhywfaint a/neu wedi eu tybio, yn hytrach na bod tystiolaeth iddynt. Nid yw hyn yn golygu nad oedd gan brosiectau unigol seiliau rhesymegol, neu nad oedd achos strategol dros eu cefnogi, ond y gellid dadlau nad oedd y seiliau rhesymegol wedi eu hegluro'n llawn a'u profi mor fanwl ag y gellid. Mae dadl dros fynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

2.26 O ystyried y safbwyntiau hyn gyda'i gilydd, yr awgrym yw y gallai defnyddio'r Gronfa i fynd i'r afael yn gynaliadwy ag achosion, yn hytrach na symptomau methiannau'r farchnad neu fethiannau eraill, o bosibl fod wedi bod yn llai amlwg nag y gallai fod wedi bod. Efallai y byddai mwy o ganolbwyntio ar fethiannau a meddwl am seiliau rhesymegol wedi annog canolbwyntio mwy cyson ar 'pam' y dylid defnyddio'r Gronfa, a rhoi gwell dysgu a dealltwriaeth o ba fath o ymyriadau sy'n gweithio, pryd a pham.

2.27 Nid galw am ddull gor-dechnegol ar gyfer gweithrediad y Gronfa yw hyn, ond cydnabyddiaeth y bydd hi'n bwysig, wrth i'r Gronfa fynd yn ei blaen, i ganolbwyntio mwy ar ddisgrifio'n llawnach y rhesymau pam fod angen ymyrraeth, er mwyn canfod yn well y mathau o faterion a heriau mewn darparu gwasanaeth cyhoeddus y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy.

Argymhellion yr Adran

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu datganiad ffurfiol ar sail resymegol a Theori Newid y Gronfa, yn nodi'n glir y materion a'r heriau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy. Dylai hyn ddilyn rhesymeg ROAMEF (Sail Resymegol, Amcanion, Gweithgareddau, Monitro, Gwerthuso ac Adborth) safonol fel y nodir yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys. Bydd hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod y Gronfa yn gallu canolbwyntio'n gyson ac yn systematig ar y materion a'r methiannau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy. Bydd y Theori Newid hefyd yn rhoi darlun allanol hygrych – i ymgeiswyr, rhanddeiliaid ac asiantaethau partner – ynglŷn â beth mae'r gronfa yn y bôn yn ceisio ei wneud.

Argymhelliad 2: Yn dilyn datblygiad datganiad ROAMEF ffurfiol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys yn y Broses Datblygu Prosiect a Chais ffocws pendant ar sail resymegol prosiectau, yn cynnwys datganiadau a thystiolaeth ynglŷn â pham bod angen y prosiect a'r farchnad a/neu'r methiannau/materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy.

3 Arbedion a grëwyd gan brosiectau Buddsoddi i Arbed

3.1 Mae'r adran hon yn nodi canfyddiadau'r gwerthusiad ynglŷn â'r arbedion a grëwyd gan y Gronfa, gan gynnwys manteision rhyddhau arian a rhai nad sy'n rhyddhau arian. Er eglurder, cyflwynir y dystiolaeth ar gyfer prosiectau wedi'u cwblhau a phrosiectau sy'n mynd rhagddynt ar wahân ar gyfer y ddau fath yma o fanteision.

3.2 Cyn nodi'r canfyddiadau ar arbedion, mae'n bwysig tynnu sylw yn gyntaf at dri mater pwysig:

- Yn gyntaf, roedd cael gafael ar dystiolaeth gadarn ynglŷn ag arbedion, yn rhai rhyddhau arian a rhai nad sy'n rhyddhau arian (er yn arbennig yr ail fath), yn aml yn anodd, hyd yn oed drwy ymgynghoriadau ac achosion achos gyda phrosiectau lle roedd natur y wybodaeth a geisiwyd wedi ei datgan ymlaen llaw. Roedd nifer o ffactorau yn berthnasol yma, yn cynnwys anawsterau mewn canfod metrigau'r Gronfa o gyllidebau ehangach prosiectau, y sylweddoliad yn dilyn cymeradwyaeth prosiect na allai'r arbedion a gytunwyd mewn gwirionedd gael eu nodi a/neu ddim yn rhai mewn arian o ran eu natur, ac amser a phobl yn symud ymlaen (yn golygu na ymgynghorwyd â'r personau cyswllt allweddol oedd yn gysylltiedig ar ddechrau prosiectau, gan olygu goblygiadau ar gyfer manylder y data ansoddol oedd ar gael). Yn fwy cyffredinol, nododd yr ymchwil y gellid cryfhau arfer monitro'r Gronfa (o'i gyferbynnu â theori) ar lefel leol, ac yn ei dro yn ganolog yn Llywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd, golygai'r materion hyn bod y sail tystiolaeth ar gyfer arbedion yn llai cynhwysfawr a chywir nag y gellir dadlau y dylai fod, o gofio maint yr adnodd sector cyhoeddus sydd dan sylw a chymhlethdod y newid y mae'r Gronfa yn ceisio ei gyflawni.
- Yn ail, er y cytunwyd ar arbedion rhyddhau arian ar gyfer pob prosiect, nid felly yr oedd hi ar gyfer arbedion nad sy'n rhyddhau arian, ac nid oedd gweithdrefnau yn eu lle i gefnogi prosiectau i gasglu tystiolaeth a dangos manteision nad sy'n rhyddhau arian. O ganlyniad, mae i ba raddau y mae'r manteision hyn wedi eu monitro yn amrywio ar draws y portffolio

prosiectau. Nid yw hyn yn llwyr annisgwyl; mae'r Gronfa wedi ei chanolbwyntio'n glir ar gyflawni manteision rhyddhau arian ac mae prosiectau wedi eu datblygu i ymateb i'r bwriad hwn, ond mae manteision nad sy'n rhyddhau arian yn anoddach yn eu hanfod i'w casglu na rhai sy'n rhyddhau arian, gan olygu heb systemau a phrosesau ffurfiol i alluogi iddynt gael eu monitro y gallai eu manteision gael eu colli.

- Yn drydydd, roedd data am fuddsoddiad cyhoeddus (neu o bosibl preifat) arall yr oedd Buddsoddi i Arbed yn arian cyfatebol iddynt, yn brin. Ni ddarparwyd y wybodaeth hon yn y gronfa ddata a ddarparwyd i SQW (gan awgrymu nad yw wedi ei choladu a'i chofnodi'n ganolog), ac roedd hi'n anodd i ymgynghoreion prosiect nodi fel mater o drefn gydag unrhyw gywirdeb na manylder faint yr oedd yr adnodd Buddsoddi i Arbed yn cyfateb iddo. Golyga hyn mai dangosol yw unrhyw briodoliad manteision i'r Gronfa.

3.3 Mae'r materion hyn yn awgrymu angen cyffredinol am broses fonitro dynnach er mwyn sicrhau bod yr arbedion - rhai sydd ac nad sy'n rhyddhau arian - a grëir gan y Gronfa yn cael eu monitro a'u casglu'n llawn ac yn gynhwysfawr gan brosiectau ac ar lefel Cronfa. Yn ogystal, dylid cofnodi unrhyw ariannu arall yn y gronfa ddata monitro er mwyn sicrhau y gall priodoliad manteision i'r Gronfa gael ei asesu yn llawnach ac yn fwy cywir wrth symud ymlaen.

Manteision sy'n rhyddhau arian

3.4 Mae manteision sy'n rhyddhau arian yn cyfeirio at brosiectau yn rhyddhau adnoddau ariannol yn uniongyrchol, tra'n cynnal darpariaeth ac ansawdd allbwn y gellir ei ddefnyddio yn rhywle arall a/neu ei ddefnyddio at ddibenion eraill.

3.5 Cytunwyd ar arbedion sy'n rhyddhau arian gyda phrosiectau fel elfen graidd o gymeradwyo buddsoddiad y Gronfa, a gofynnwyd i bob prosiect ddarparu ffurflenni monitro chwarterol i Lywodraeth Cymru er mwyn adrodd ar y data hwn. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'n ymddangos y bu amrywiad sylweddol yn y graddau y mae hyn wedi ei wneud ac, yn bwysig, nid yw'r data yn ymddangos fel petai wedi ei goladu'n ganolog ar lefel rhaglen gan Lywodraeth

Cymru: nid oedd y gronfa ddata o wybodaeth prosiect a ddarparwyd i'r tîm astudiaeth ym mis Mai 2013 yn cynnwys y wybodaeth hon.

Tystiolaeth gan brosiectau sydd wedi'u cwblhau

- 3.6 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod manteision rhyddhau arian wedi eu creu gan o leiaf 15 o'r 23 prosiect a gwblhawyd a gwmpaswyd gan y gwerthusiad h.y. yn y bôn dwy ran o dair.
- 3.7 Mewn pum achos, mae'r dystiolaeth (o ymgynghoriadau a dogfennau) yn dangos nad oedd unrhyw fanteision rhyddhau arian wedi eu creu, neu na fu'n bosibl i briodoli gydag unrhyw sicrwydd unrhyw fanteision rhyddhau arian i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed. Mae nodweddion y prosiectau, a'r rheswm dros beidio â chyflawni arbedion mewn arian, wedi eu nodi yn y Tabl isod.

Tabl 3-1: Prosiectau ddim yn cyflawni arbedion rhyddhau arian

	Sector	Cymorth Buddsoddi i Arbed	Math o brosiect	Rheswm dros beidio cyflawni manteision rhyddhau arian
Achos 1	GIG	£250 mil - £500 mil	Gwella TGCh	Dim yn bosibl priodoli manteision rhyddhau arian i gefnogaeth Buddsoddi i Arbed o gofio'r ffrydiau ariannu eraill sy'n gysylltiedig â natur integredig y rhaglen trawsnewid
Achos 2	Llywod Leol	£100 mil - £250 mil	Caffael	Adroddwyd nad oes manteision rhyddhau arian wedi eu creu hyd yma, ac maent yn annhebygol i gael eu cyflawni hyd 2015, os o gwbl. Rhagwelwyd manteision rhyddhau arian sylweddol ar y dechrau ond caiff y rhain eu hystyried yn afrealistig nawr, gyda'r amcangyfrifon heb eu craffu'n briodol.
Achos 3	Llywod Leol	£250 mil - £500 mil	Trawsnewid Busnes	Ni wnaeth y prosiect gwreiddiol fodloni ei amcanion allweddol a rhoddwyd y gorau iddo. Dywedodd adolygiad wedi'r prosiect ei bod yn 'Anodd gwerthuso' y manteision rhyddhau arian a grëwyd.
Achos 4	Llywod Leol	£250 mil - £500 mil	Gwella TGCh	Ni wnaeth y prosiect gwreiddiol fodloni ei amcanion allweddol a rhoddwyd y gorau iddo, gyda gwariant Buddsoddi i Arbed yn cael ei atal. Dywedodd yr adolygiad wedi'r prosiect 'na ellid cysylltu arbedion yn uniongyrchol i brosiect Buddsoddi i Arbed gan fod y gwariant wedi ei atal'.
Achos 5	Llywod Leol	£100 mil - £250 mil	Gwella TGCh	Adolygwyd y prosiect ac wedyn ataliwyd ef gan olygu nad yw manteision wedi eu cyflawni. Dywedodd adolygiad wedi'r prosiect fod 'Dim arbedion wedi eu

				gwireddu hyd yma. Oherwydd y buddsoddiad ychwanegol a fyddai ei angen, byddai arbedion ddim ond yn dod yn amlwg dros gyfnod llawer hwy.'
--	--	--	--	--

3.8 Er gwaethaf nodweddion penodol bob prosiect, mae'n werth nodi bod pedwar o'r pum prosiect lle nad yw prosiectau wedi'u cwblhau wedi rhoi manteision rhyddhau arian yn rhai a arweiniwyd gan Lywodraeth Leol, ac roedd y pump yn gymharol fychan eu maint o ran yr adnodd Buddsoddi i Arbed, yn ddim mwy na £500 mil. Nid oedd y prosiectau hyn fel petaent yn amlwg yn fwy arloesol a mentrus nac eraill ar draws y portffolio prosiectau. Fodd bynnag, roedd dau fater allweddol fel petaent yn gyffredin ac yn tanategu'r diffyg manteision rhyddhau arian:

- targedu arbedion amhriodol ar y dechrau, na ellid wedyn eu priodoli i'w rhoi'n dystiolaeth
- yn fwy cyffredinol, methiant model prosiect ar y cyfan i gyflawni yn erbyn ei amcanion, gan olygu na chyflawnwyd unrhyw arbedion.

3.9 Mae'r ffaith bod prosiectau yn y bôn wedi 'methu' â chreu arbedion rhyddhau arian, ac yn fwy eang methu â chyflawni yn erbyn eu hamcanion, yn destun pryder. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o fethiant i'w weld bob amser mewn cynllun fel Buddsoddi i Arbed - yn wir, o gofio rôl y Gronfa, nid yw'n ymddangos bod tua un ym mhob pump yn lefel annerbyniol o fethiant.

3.10 Gan droi at sefyllfaoedd pan grëwyd manteision rhyddhau arian, mae maint y manteision wedi amrywio'n fawr ar draws prosiectau sydd wedi'u cwblhau, o ddegau o filoedd mewn rhai achosion i filiynau mewn achosion eraill. Mae hyn yn gyson â phroffil y buddsoddiadau prosiect (gweler Adran 2).

3.11 Yn gyfanredol, amcangyfrifir bod manteision rhyddhau arian a nodwyd gan y gwerthusiad ar draws prosiectau sydd wedi'u cwblhau yn dod i:³

- £55.5 miliwn, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2012/13

³ Oherwydd y cyfyngiadau yn y data at gyfer nifer o brosiectau, gwnaeth Tîm SQW yr amcangyfrif gorau ar gyfer maint y manteision rhyddhau arian yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan y person cyswllt.

- disgwylir £48.7 miliwn yn y blynyddoedd i ddod (2013/14 hyd 2017/18) o ganlyniad i'r gweithgarwch sydd wedi ei roi ar waith.

3.12 Os cyflawnir hyn yn llawn, byddai'r manteision rhyddhau arian (gros) a gyflawnir gan brosiectau'r Gronfa yn £104.1 miliwn. Efallai bod hyn yn danamcaniad, gan fod peth ansicrwydd mewn nifer o achosion a oedd yr arbedion yn rai rheolaidd, ac yn nodedig am ba hyd y dylid eu cyfrif: cyfrifodd y gwerthusiad y manteision rheolaidd hyd at ddiwedd 2017/18, cyfnod o bum mlynedd. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig cadw mewn cof y risg o Ogwydd Optimistiaeth mewn darogan manteision yn y dyfodol.

3.13 Mae dwy enghraifft o sut mae'r manteision rhyddhau arian hyn wedi eu gwireddu yn ymarferol wedi eu nodi yn y blwch isod.

Ceisiodd prosiect Gwella eich Lle ym Mhen-y-bont ar Ogwr sicrhau arbedion, ac ysgogi gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaeth drwy weithredu strategaeth llety swyddfeydd y Cyngor, a rhesymoli portffolio eiddo'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi adrodd ar arbedion rhentu gwerth £335 mil y flwyddyn ers 2011/12, gyda gwaredu adeiladau untro yn creu gwerth £636 mil arall o arbedion.

Ceisiodd prosiect **Dychweliad Cleifion Iechyd Meddwl Gofal Iechyd Parhaus i Leoliadau** a arweiniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, ar ran GIG Cymru, gyflawni manteision rhyddhau arian drwy leihau cost defnydd gofal iechyd preifat ar gyfer cleifion ag anghenion iechyd meddwl difrifol. Drwy ddatblygu'r gallu a'r systemau yn y GIG i nodi Gwerth am Arian mewn defnydd darpariaeth breifat, rhagamcannir bod y prosiect wedi cyflawni arbedion gwerth £5 miliwn hyd yma, gyda'r posibilrwydd o ragor o arbedion yn y dyfodol.

3.14 Mae tri phwynt arall yn bwysig:

- Mae'r data'n dibynnu'n drwm ar ddau brosiect unigol, Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd a Caffael Cymru Gyfan y GIG, yn cyflawni manteision rhyddhau arian (a gyflawnwyd ac a ddisgwyliwyd) o tua £50 miliwn a £20 miliwn yn yr un drefn. Gyda'i gilydd, mae'r ddau brosiect yn cyfrif am bron i dri chwarter (73%) cyfanswm y manteision rhyddhau arian a grëwyd gan brosiectau'r Gronfa a gwblhawyd (a gyflawnwyd ac a ddisgwyliwyd), felly mae ystumio sylweddol. Heb gyfri'r ddau brosiect hwn, *cyfartaledd* y

manteision rhyddhau arian (a gyflawnwyd ac a ddisgwyliwyd) ar gyfer prosiectau a gefnogwyd gan Buddsoddi i Arbed sydd wedi creu'r math yma o fanteision yw tua £2.4 miliwn.

- *Nid* yw'r arbedion a amlinellir uchod yn cynnwys arbedion o'r prosiect Trefniadau Gwasanaethau a Rennir ar gyfer GIG Cymru Buddsoddi i Arbed, sy'n cefnogi sefydlu Partneriaeth Gwasanaeth a Rennir, sydd ei hun, yn ei dro, nawr yn cyflawni ar raglen fawr o brosiectau gwella gwasanaeth ac effeithlonrwydd ar draws y GIG gyda chyllideb flynyddol o £50 miliwn a 1,300 o staff a tharged i gyflawni tua £15 miliwn mewn arbedion uniongyrchol dros gyfnod o 10 mlynedd, ac arbedion ychwanegol drwy ddylanwad a chynghor proffesiynol i GIG Cymru. Cyfrannodd y Gronfa £250 mil i sefydlu'r Partneriaeth, a oedd yn bwysig i ddechrau a chyflymu datblygiad y partneriaeth. Fodd bynnag, nid yw'n briodol i briodoli'r arbedion 'ail rownd' a grëwyd gan weithgareddau dilynol, fel yr adroddwyd yn adroddiadau blynyddol y Partneriaethau, ac a ddarparwyd i Dîm Astudiaeth y gwerthusiad, i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.
- Mae'r arbedion a nodir uchod yn rhai gros: hynny yw nid ydynt yn rhoi cyfrif am ychwanegedd (neu beth a fyddai wedi digwydd beth bynnag heb y Gronfa), a fyddai'n rhoi ffigur net.

3.15 Mae'r arbedion a nodwyd ar draws y prosiectau a gwblhawyd yn sylweddol. Fodd bynnag, mae angen eu cymharu â maint y mewnbynnau er mwyn rhoi syniad o enillion ar fuddsoddiad.

3.16 Fel y nodir uchod, nid oedd gwybodaeth am gostau eraill ar gael ar gyfer pob prosiect. Mae priodoliad uniongyrchol i'r Gronfa felly'n ansicr. Fodd bynnag, gan dybio (fel tybiaeth ar gyfer modelu, oherwydd diffyg data manwl ar lefel prosiect) bod y Gronfa yn gyfrifol am 75% o gyfanswm costau prosiect (yr uchafswm a ganiateir), gellir priodoli 75% o'r arbedion manteision rhyddhau arian i fuddsoddiad y Gronfa. Byddai hyn yn rhoi arbedion rhyddhau arian cyfanredol y gellir eu priodoli i'r Gronfa o £21.2 miliwn, ar gyfer £10.0 miliwn o fewnbwn y Gronfa (heb gyfrif Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd a Caffael

Cymru Gyfan y GIG, yr ymdrinnir â hwy ar wahân isod). Mae hyn yn rhoi cymhareb enillion (gros) dangosol ar fuddsoddiad o tua 2.1:1.⁴

Tabl 3-2: Cymhareb costau a manteision rhyddhau arian ar gyfer 21 o'r 23 prosiect sydd wedi'u cwblhau

Adnodd Buddsoddi i Arbed	£10.0 miliwn
Cyfanswm manteision rhyddhau arian	£28.3 miliwn
Manteision rhyddhau arian a briodolir i'r Gronfa (gan dybio 75% o fewnbynau)	£21.2 miliwn
Cymhareb mewnbynau'r Gronfa i fanteision rhyddhau arian (gros)	2.1:1

3.17 Ar gyfer y prosiectau Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd a Caffael Cymru Gyfan y GIG, roedd gwybodaeth am ariannu sector cyhoeddus arall ar gael, gyda chyfanswm o £17.6 miliwn mewn cyfanred dros/uwchlaw adnodd y Gronfa a nodwyd ar gyfer y ddau brosiect. Eto, felly, gellir priodoli'r arbedion rhyddhau arian i'r Gronfa, gyda chymhareb enillion ar fuddsoddiad dangosol yn cael ei greu, fel y cyflwynir yn Nhabl 3-3.

Tabl 3-3: Cymhareb costau a manteision rhyddhau arian ar gyfer Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd a Caffael Cymru Gyfan y GIG

Adnodd Buddsoddi i Arbed	£3.3 miliwn
Cyfanswm manteision rhyddhau arian	£75.9 miliwn
Manteision rhyddhau arian a briodolir i'r Gronfa (seiliedig ar % o fewnbyn cyhoeddus)	£14.2 miliwn
Cymhareb mewnbynau'r Gronfa i fanteision rhyddhau arian (gros)	4.3:1

3.18 O'u hystyried gyda'i gilydd mae'r data'n awgrymu cyfanswm manteision rhyddhau arian **dangosol** gan brosiectau wedi'u cwblhau o tua £35 miliwn o fuddsoddiad Cronfa gwerth £13.3 miliwn, gyda chymhareb enillion ar fuddsoddiad o tua 2.7:1. Felly, os caiff y manteision a ddisgwyli'r yn y dyfodol eu creu yn llawn, bydd yr enillion (gros) ar fuddsoddiad drwy'r gronfa o ran manteision rhyddhau arian ar gyfer y prosiectau hynny sydd nawr wedi'u cwblhau yn agos i dri i un. Er nad oes meincnodau ffurfiol o ran enillion ar

⁴ Mae'r gymhareb enillion ar fuddsoddiad yn sensitif i gyfran yr ariannu. Fodd bynnag, os caiff hwn ei leihau i 70% cymhareb effeithiau'r Gronfa i fanteision rhyddhau arian (gros) yw 2.0:1, ac ar 60% 1.7:1.

fuddsoddiad ar gael, mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol gyda'r Gronfa yn cael 'mwy allan' o ran manteision rhyddhau arian nag y mae wedi ei 'roi i mewn' ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cwblhau.⁵

Prosiectau sy'n mynd rhagddynt

- 3.19 Defnyddiwyd tair ffynhonnell gwybodaeth i amcangyfrif y manteision rhyddhau arian o brosiectau sy'n mynd rhagddynt: (i) ymgynghoriadau gyda phrosiectau sy'n mynd rhagddynt; (ii) astudiaethau achos gyda phrosiectau sy'n mynd rhagddynt; a (iii) thystiolaeth flaenorol mewn dogfennau ychwanegol perthnasol a data a ddarparwyd i'r Tîm Astudiaeth.
- 3.20 Fel y disgwyliid, mae'r sail tystiolaeth ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt yn llai datblygedig nag ydyw ar gyfer rhai sydd wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, o edrych ar y ffynonellau tystiolaeth hyn yn eu tro, dangosodd yr **ymgynghoriadau** gyda phrosiectau sy'n mynd rhagddynt bod manteision i raddau helaeth heb eu gwireddu eto: ar gyfer saith o'r wyth prosiect ni adroddwyd ar unrhyw fanteision rhyddhau arian. Yr eithriad oedd Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Powys, sydd yn ôl yr adroddiadau wedi creu arbedion gwerth £1.7 miliwn hyd yma.
- 3.21 Nododd **astudiaethau achos** prosiectau sy'n mynd rhagddynt, a oedd yn cynnwys mwy o archwilio manwl a thrafodaeth gydag Arweinwyr Prosiect, lefel uwch o arbedion rhyddhau arian ar y pwynt hwn, er unwaith eto yn y rhan fwyaf o achosion nid oedd y rhain wedi eu gwireddu yn llawn.
- 3.22 O'r chwe phrosiect sy'n mynd rhagddynt a gynhwyswyd yn yr astudiaethau achos, nodwyd manteision rhyddhau arian mewn pedwar ohonynt, hyd at gyfanswm o tua £3.7 miliwn. Unwaith eto, gan briodoli cyfran o'r arbedion i'r Gronfa ar sail maint y mewnbwn (yn yr achos hwn 73%), mae hyn yn rhoi arbediad priodoladwy dangosol a grëwyd gan y Gronfa o £2.7 miliwn, yn erbyn buddsoddiad gan y Gronfa hyd yma o £4.1 miliwn. Mae'r enghreifftiau yn y blwch isod yn rhoi syniad o gwmpas a maint yr effeithiau a alluogwyd gan y Gronfa.

⁵ Noder nad yw'r data arbedion wedi ei ddisgowntio oherwydd gwahanol fannau cychwyn ar gyfer cyflawni manteision a pheth ansicrwydd ynglŷn ag yn union pryd y caiff rhai o'r manteision a ddisgwyliir yn y dyfodol eu gwireddu. Dros gyfnod o bum mlynedd, bach iawn fyddai effaith disgowntio'r data, gan leihau cyfanred yr arbedion i £102 miliwn.

Mae'r **Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Powys** yn rhaglen fawr sydd â'r nod o ailddatblygu'r sail asedau ysgolion a lleoliadau addysg ar draws Powys, yn cynnwys creu ysgolion newydd a chau rhai presennol. Rhoddodd y Gronfa gymorth i helpu i adnoddu tîm trawsnewid/moderneiddio ysgolion. Nododd yr ymgynghoriad bod arbedion gwerth £1.7 miliwn wedi eu creu hyd yma drwy gau nifer o ysgolion ar draws yr ardal,

Mae prosiect **Ein Gofod Caerdydd** yn ymwneud â rhesymoli portffolio swyddfeydd Cyngor Caerdydd. Darparodd y Gronfa adnodd ysgogi i gynorthwyo'r cam ymchwil a chynllunio cychwynnol, gan arwain at waredu nifer o leoliadau swyddfa mewn nifer o brif safleoedd. Ar y cam hwn, yr arbedion rhyddhau arian a adroddir yw £250 mil drwy resymoli swyddfeydd, a £1.5 miliwn o dderbyniadau cyfalaf. Disgwylir rhagor o arbedion yn y dyfodol.

3.23 Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad a'r astudiaethau achos mae **tystiolaeth flaenorol** ar brosiectau sydd wedi'u cwblhau wedi nodi arbedion sylweddol, yn cynnwys:

- £1.4 miliwn mewn arbedion drwy gynllun Effeithlonrwydd Ynni a Lleihau Carbon Cyngor Wrecsam
- £5.8 miliwn mewn arbedion drwy sefydlu Uned Cymorth Presgripsiynau Dadansoddol Cymru.

3.24 O ystyried y data hwn gyda'i gilydd, hyd yma mae'r prosiectau sy'n mynd rhagddynt wedi creu arbedion rhyddhau arian **dangosol** gwerth £12.6 miliwn. Eto, o gofio prinder y wybodaeth ynglŷn â chostau sector cyhoeddus eraill, os tybir y priodolir 75% o'r arbedion i'r Gronfa, mae hyn yn rhoi arbediad priodoladwy hyd yma gan brosiectau sy'n mynd rhagddynt o £9.5 miliwn, ac yn ei dro, enillion ar fuddsoddiad ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt o 1.7:1.

3.25 Mae'r enillion hyn ar fuddsoddiad yn is na'r data ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cwblhau (fel y gellid disgwyl, gyda manteision yn dal i gael eu cyflawni), ond maent eto'n 'ganlyniad cadarnhaol' gyda'r manteision (gros) a awgrymir yn uwch na'r costau.

Tabl 3-4: Cymhareb costau a manteision rhyddhau arian ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt

Adnodd Buddsoddi i Arbed	£5.5 miliwn
Cyfanswm manteision rhyddhau arian	£12.6 miliwn
Manteision rhyddhau arian a briodolir i'r Gronfa (seiliedig ar	£9.5 miliwn

75% o fewnbwn cyhoeddus)	
Cymhareb mewnbynnau'r Gronfa i fanteision rhyddhau arian (gros)	1.7:1

Crynodeb o'r dystiolaeth ar fanteision rhyddhau arian

- 3.26 O gofio prinder y data, dylid ystyried y canfyddiadau a gyflwynir uchod yn rhai dangosol. Hefyd, data gros ydyw (nid yw'n rhoi cyfrif am ychwanegedd adnodd y Gronfa), ac mae'n cynnwys amcangyfrifon o'r hyn y disgwylir i gael ei gyflawni yn y dyfodol, yn ogystal â beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma.
- 3.27 Wedi dweud hynny, mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod y Gronfa wedi creu arbedion rhyddhau arian sydd (mewn termau gros o leiaf) yn fwy na maint yr adnodd a ddefnyddiwyd i'w cyflawni: ar ffactor sy'n agos i dri i un ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cwblhau, ac yn agos i ddau i un ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt. Hefyd, er na ellir priodoli data penodol yn uniongyrchol i'r Gronfa ym mhob achos, er enghraifft ar gyfer y cymorth i'r Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir, mae manteision rhyddhau arian yn debygol o fod wedi cael eu cyflawni. Mae'r metrigau felly yn debygol o danamcangyfrif manteision (gros) y Gronfa, er bod angen cadw mewn cof Ogwydd Optimistiaeth manteision a ddarogenir.
- 3.28 Yn ddelfrydol, dylai data ar fanteision rhyddhau arian gael eu hadrodd yn gyson ac yn dryloyw i'r Uned Buddsoddi i Arbed drwy weithgaredd monitro parhaus a safonol, yn hytrach na drwy weithgaredd gwerthuso. Nid oedd y data hwn wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata o wybodaeth monitro a ddarparwyd i ni ac a ddefnyddiwyd gan y tîm gwerthuso ar gyfer yr astudiaeth hon, er bod y gwerthuswyr yn deall y gofynnir am y rhain fel rhan o waith monitro prosiectau unigol.
- 3.29 Dylai rhoi systemau ar waith i hwyluso a goruchwyllo bod prosiectau yn monitro manteision rhyddhau arian mewn amser real, wedi eu clymu wrth amcanion yr arbedion y gwnaethant eu cynnig yn eu cais, fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynorthwyo i wella cywirdeb tystiolaeth, a sicrhau nad yw dirywiad cof, newid mewn personél ac anawsterau mewn tracio adnoddau'r Gronfa wedi i brosiect gael ei gyflawni (fel isod) yn cyfyngu'r potensial i'r

Gronfa adrodd yn llawn a thrylwyr ar ei heffeithiau. Byddai cronfa ddata gynhwysfawr ac wedi'i diweddarau o arbedion rhyddhau arian sy'n cael eu creu ar draws y Gronfa, hefyd yn cefnogi dull rheoli mwy gweithredol ar gyfer y portffolio, gan lywio blaenoriaethau a phenderfyniadau buddsoddi, gyda dealltwriaeth 'amser real' o raddfa'r manteision sy'n cael eu creu, lle gallai tanberfformio fod yn amlygu, a rheoli risgiau mewn cyflenwi.

3.30 Fel yr amlinellir uchod, nododd y gwerthusiad hefyd nifer o enghreifftiau yn yr astudiaethau achos ac ymgynghoriadau lle nad oedd manteision rhyddhau arian a nodwyd ar y dechrau yn gallu cael eu monitro. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau yn y sector iechyd lle rhagwelwyd y byddai disgwyliadau o arosiadau byrrach mewn gwelyau, hyd arhosiad byrrach a metrigau defnydd gwasanaeth eraill yn rhoi arbedion rhyddhau arian, ond mewn gwirionedd mae hyn wedi arwain at effeithiau mwy cymhleth a allai, mewn gwirionedd, fod wedi cynyddu costau darpariaeth gwasanaeth. Mae'r rhain yn faterion cymhleth, ac nid oes ffordd hawdd i'w datrys. Fodd bynnag, y mater allweddol yw bod eglurder ar ddechrau prosiectau, cyn belled a bod hynny'n ymarferol, ynglŷn â beth fydd (a beth na fydd) yn rhoi arbedion rhyddhau arian.

3.31 Mae'r gwerthusiad hefyd yn awgrymu bod tua un o bob pum prosiect a gefnogwyd gan y Gronfa heb, ac ni fyddant yn, creu manteision rhyddhau arian. O gofio natur y Gronfa, sef cefnogi sefydliadau i gynnal gweithgareddau newydd a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio, nid yw hyn fel petai'n 'gymhareb methiant' afresymol. Fodd bynnag, o'r pum prosiect a gwblhawyd lle na chafodd manteision rhyddhau arian eu creu, roedd pedwar yn brosiectau llywodraeth leol (yn eu tro, o'r 10 prosiect llywodraeth leol a gwblhawyd, ni wnaeth pedwar greu manteision rhyddhau arian). Bydd sicrhau bod prosiectau llywodraeth leol yn cael eu cwrpasu, eu datblygu a'u harfarnu'n briodol er mwyn lleihau 'cyfraddau methiant' wrth symud ymlaen yn bwysig.

Manteision nad sy'n rhyddhau arian

3.32 Mae manteision nad sy'n rhyddhau arian yn ymwneud â gwelliannau, a sicrheir drwy brosiectau, yn ansawdd neu faint darpariaeth gwasanaeth, am yr un faint neu gynnydd cymesuroi llai mewn mewnbwn adnoddau, ond nad sy'n rhyddhau adnoddau ariannol y gellir eu defnyddio yn rhywle arall. Mae'r

mathau hyn o fanteision yn ymwneud yn y bôn â gwell cynhyrchiant neu well ansawdd gwasanaeth. O gofio eu natur, mae'n llawer anoddach cael tystiolaeth amdanynt a'u monitro na manteision rhyddhau arian.

3.33 Fel y nodwyd uchod, nid chafodd manteision nad sy'n rhyddhau arian eu cofnodi'n gyson mewn amcanion yn y camau datblygu ac arfarnu prosiect. O ganlyniad, nid oedd tystiolaeth am y mathau hyn o fanteision yn gallu cael eu casglu'n arferol yn erbyn gwaelodlin mewn ymgynghoriadau ac astudiaethau achos gyda phrosiectau a gefnogwyd, er gwaethaf archwilio'n benodol amdani a'i nodi ymlaen llaw fel maes i'w gwmpasu mewn ymgynghoriad. Felly, ni fu'n bosibl, fel y disgwyliwyd ar ddechrau'r gwaith, i goladu a chroesgyfeirio manteision tebyg o brosiectau, gan 'fwndelu'r' arbedion ynghyd i roi amcangyfrif cyffredinol o faint arbedion nad sy'n rhyddhau arian. Yn syml, nid yw'r sail dystiolaeth wedi ei sefydlu i alluogi'r gwerthusiad i roi asesiad cyfanredol a/neu feintiol o'r manteision nad sy'n rhyddhau arian a grëwyd ar y cam hwn yng nghyflawniad y Gronfa.

3.34 Fodd bynnag, mae'r ymchwil wedi nodi enghreifftiau penodol o fanteision nad sy'n rhyddhau arian. Gellir grwpio'r rhain yn dair prif thema:

- **Gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaeth drwy ddatblygiad a gweithrediad systemau TG a systemau technegol eraill:** gan arwain at, er enghraifft, ymatebion cyflymach i alw gan gwsmeriaid, lleihad yn yr amser a dreulir yn cludo dogfennau, gwell cysylltedd a gweithio o bell, gwell a symlach ffyrdd o wneud penderfyniadau mewn caffael a chynllunio gwasanaeth, a gwell cywirdeb o ran rheoli gohebiaeth a dogfennau
- **Gwell darpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i resymoli a gwell defnydd ar asedau presennol,** asedau ffisegol (e.e. swyddfeydd ac eiddo masnachol) ac o ran staffio ac adnoddau eraill; mae hyn yn cynnwys nifer o enghreifftiau yn y Sector Iechyd lle mae manteision nad sy'n rhyddhau arian wedi eu gwireddu drwy leihau hyd arhosiad cleifion gan alluogi mwy o gleifion i gael eu gweld, cyfraddau derbyn ac ail-dderbyn is, a chyfraddau uwch o ryddhau i fan preswyllo arferol

- **Effeithlonrwydd drwy integreiddio a chydgyssylltu gwasanaethau**, o fewn a rhwng sefydliadau; gan alluogi sefydliadau i ddarparu mwy o wasanaethau neu wasanaethau gwell i ddefnyddwyr (er enghraifft, hwyluso mwy o ddefnydd neu leihau dyblygu) neu gostau is, o ran amser cydgysylltu gwasanaethau rhwng asiantaethau partner.

3.35 Cynigir enghreifftiau penodol o'r gwaith ymchwil ynglŷn â sut y cafodd yr arbedion nad sy'n rhyddhau arian hyn eu gwireddu yn ymarferol isod.

Roedd prosiect **Gweithredu a Chymhwyso Systemau Adrodd Llinell Gwasanaeth** (sydd nawr wedi'i gwblhau) a arweinir gan Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn ceisio lleihau gwastraff ac amrywiad mewn darpariaeth gwasanaeth drwy ddatblygu cronfa ddata a system sy'n caniatáu i gostau darpariaeth gwasanaeth ar draws ac o fewn byrddau iechyd gael eu cymharu. Adroddwyd, yn ogystal â manteision rhyddhau arian, bod y prosiect wedi arwain at well defnydd ar theatrau llawdriniaeth mewn un Bwrdd Iechyd, a rhyddhau amser staff.

Mae'r prosiect **Trawsnewid y Gweithle** (mynd rhagddo), a arweinir gan CBS Blaenau Gwent yn canolbwyntio ar resymoli'r trefniadau adeiladau ar gyfer gwahanol dimau yn y Cyngor er mwyn lleihau costau llety a gweithredu gweithio ystwyth. Yn dilyn arbedion rhyddhau arian drwy gostau eiddo, adroddwyd bod y prosiect wedi arwain at well cynhyrchiant gan staff drwy lai o absenoldeb, cynnydd mewn gweithio o gartref a mwy o hyblygrwydd.

Ceisiodd prosiect **Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un** (sydd nawr wedi'i gwblhau) uno rhwydwaith cymhleth a thameidiog o ganolfannau gwasanaeth cwsmeriaid sy'n gysylltiedig â themâu gwasanaethau cymunedol penodol, drwy sefydlu model 'prif ganolfan a lloerennau' cydlynol a hygyrch, gan gysylltu cwsmeriaid yn well i wasanaethau. Yn greiddiol i hyn oedd cyfleuster gwasanaeth cwsmeriaid newydd. Nododd yr ymchwil astudiaeth achos bod y prosiect wedi sicrhau lefel uwch o ddefnydd, fel sydd i'w weld mewn adolygiadau perfformiad, gan alluogi mwy o bobl i gyrchu gwasanaethau'r Cyngor (a phartneriaid), yn ogystal â gwell ansawdd ar gyfer y cysylltiadau hyn drwy leihau gwallau a dyblygu gwasanaeth.

Bwriad prosiect **BIP Caerdydd a'r Fro - Gweithio Symudol** (nawr wedi'i gwblhau) oedd gwella diogelwch, effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cymunedol drwy hwyluso gweithio symudol ar gyfer staff yn y gymuned ar draws y Bwrdd Iechyd, drwy ddefnyddio dyfeisiau symudol. Adroddodd y prosiect y cafwyd gwelliannau mewn cynhyrchiant: drwy alluogi i ffurflenni gwasanaeth gael eu llenwi o bell. Nid oes angen mwyach i staff ddychwelyd i'w gweithle i gofnodi a lanlwytho nodiadau achos, gan roi mwy o amser ar gyfer darpariaeth gwasanaeth uniongyrchol, ac ymgysylltiad gyda nifer uwch o

ddefnyddwyr gwasanaeth.

- 3.36 Dylid nodi mai enghreifftiau a dewiswyd yw'r rhain. Ar draws portffolio'r Gronfa cyflawnwyd ystod eang o arbedion nodedig a phenodol nad sy'n rhyddhau arian, gyda mwy o enghreifftiau yn cael eu darparu yn y crynodebau o Astudiaethau Achos a gyhoeddir gyda'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, o gofio amrywiaeth, a diffyg metrigau a mesuriadau trawsbynciol ffurfiol, nid yw'n bosibl cael asesiad mwy integredig ar y cam hwn. Wrth symud ymlaen, dylai rhoi system ar waith i hwyluso asesiad mwy cyflawn (a meintiol) o arbedion nad sy'n rhyddhau arian fod yn flaenoriaeth ar gyfer yr Uned Buddsoddi i Arbed.
- 3.37 O gofio'r heriau mewn gwahaniaethu rhwng rhyddhau arian a dim rhyddhau arian (gydag enghreifftiau yn cael eu nodi lle mai'r disgwyliad gwreiddiol oedd creu manteision rhyddhau arian pan, mewn gwirionedd, rhai nad sy'n rhyddhau arian oeddent) efallai y byddai canllawiau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr prosiect ynglŷn â'r diffiniadau - yn cynnwys enghreifftiau yn y 'byd go iawn' - yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen.

Arbedion ac ad-dalu

- 3.38 Nid yw o fewn cylch gwaith y gwerthusiad hwn i ddadansoddi'n fanwl berfformiad ad-daliad ariannol adnodd y Gronfa.
- 3.39 Fodd bynnag, er mwyn rhoi cyd-destun, dangosodd y data a ddarparwyd i'r Tîm Astudiaeth bod ad-daliadau ym mis Mai 2013 yn dod i gyfanswm o tua £10.2 miliwn, sy'n cyfateb i 32% o'r arian a dalwyd allan.
- 3.40 Roedd lefel yr ad-daliad yn amrywio ar y cam hwn, fel y gellid disgwyl, yn ôl Rowndiau:
- Rownd Un: 59% o ad-daliad wedi ei wneud erbyn mis Mai 2013
 - Rownd Dau: 29% o ad-daliad wedi ei wneud erbyn mis Mai 2013
 - Rownd Tri: 11% o ad-daliad wedi ei wneud erbyn mis Mai 2013
 - Rownd Pedwar-Chwech – dim ad-daliad ar y pwynt hwn.
- 3.41 Fodd bynnag, mae nifer o bwyntiau sy'n ymwneud â'r broses ad-dalu, a chymhelliant sy'n deillio o'r rhain, yn bwysig ar gyfer yr astudiaeth yn ehangach.

- 3.42 Yn gyntaf, mae ymchwil y gwerthusiad yn dangos, a chadarnhawyd hyn gan yr Uned Buddsoddi i Arbed, bod angen ad-dalu'r arian a ddarperir gan y Gronfa boed arbedion yn cael eu cyflawni neu beidio h.y. caiff y buddsoddiad ei ad-dalu gan fuddiolwr *nid pan wneir arbedion*, ond yn ôl *amserlen talu a gytunwyd*, yn seiliedig ar yr arbedion a ragwelir gan hyrwyddwyr y prosiect, hyd yn oed os nad yw arbedion wedi eu gwireddu/wedi eu gwireddu hyd yma. Cytunir ar y taliadau fel rhan o'r trafodaethau ffurfiol gyda'r Gronfa, ac fe'u hamserlennir ar gyfer pan ddisgwylir gwneud arbedion.
- 3.43 Canfuwyd nifer cyfyngedig o enghreifftiau yn y gwerthusiad - er enghraifft, astudiaeth achos Ein Gofod Caerdydd - lle roedd ad-daliad wedi ei glymu'n uniongyrchol gyda chyflawni arbedion. O roi'r achosion prin hyn i'r neilltu, yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd dangosodd y dystiolaeth bod y buddsoddiad yn cael ei ad-dalu drwy linellau cyllideb ganolog y sefydliadau, ar adegau cytunedig a nodwyd ar y dechrau, nid pan oedd arbedion wedi eu creu.
- 3.44 Mae'r model gweithredu hwn yn lleihau'r risg i Lywodraeth Cymru, gan olygu y gellid ailgylchu'r adnodd hwn yn gyflym er mwyn cefnogi gweithgareddau newydd, a lleihau'r posibilrwydd o ddiffygdalu. Fodd bynnag, mae iddo nifer o ganlyniadau posibl pwysig nas bwriadwyd:
- heb yr angen i dracio'n ffurfiol yr arbedion a grëir, gellir colli llwybr ariannol y prosiect; o'i ddweud mewn ffordd arall, gan nad oes yn rhaid i sefydliadau ad-dalu'r buddsoddiad o'r arbedion a grëir nid yw bob amser yn flaenoriaeth i ymgeiswyr (mae hon yn broblem o gofio canfyddiadau Adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol o'r Gronfa a nododd mai'r prosiectau gorau yw'r rheiny sy'n dangos cysylltiad clir rhwng y buddsoddiad a wneir a'r arbedion a grëir⁶)
 - wedi'i gysylltu i hyn, mae perygl o ddatgysylltiad ar lefel cyflenwi prosiect rhwng rheolaeth 'ymarferol' ac 'ariannol', gyda'r ddwy elfen yn gweithredu ar wahân yn hytrach na gyda'i gilydd: o ganlyniad, mae'r potensial i ddysgu o fewn sefydliad ynglŷn â beth sy'n gweithio yn cael ei leihau

⁶ Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, adroddiad ar Gronfa Buddsoddi i Arbed, Mawrth 2013

- yn llai diriaethol, ond o bosibl yn fwy pwysig, mae perygl y gall datgysylltu buddsoddiad, arbedion ac ad-daliadau arwain at golli 'disgyblaeth' yng ngweithrediad y prosiect a'r broses gyflenwi ar lefel prosiect. Yn syml, os yw buddsoddiad y Gronfa i'w ad-dalu, fel y mae yn arferol, o adnoddau corfforaethol canolog, yn hytrach nac o ganlyniad i arbedion uniongyrchol gyda thystiolaeth a grëir, bydd y cymhelliant i staff gweithredol sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ar ei fwriad yn cael ei leihau.

- 3.45 Nid oes dull cywir nac anghywir clir yma - y mater allweddol yw cydbwysu'r risg a'r gwahanol fuddiannau. Ar hyn o bryd, a gyda'r ad-daliad wedi ei ddatgysylltu oddi wrth arbedion, mae'r risg ariannol yn bennaf ar y sefydliadau sy'n fuddiolwyr; mae'r risg i Lywodraeth Cymru yn isel (gan y bydd yn adennill ei fuddsoddiad os yw'r prosiectau yn cyflawni yn unol â'r bwriad neu beidio). Golyga hyn bod gweithgarwch prosiectau yn gyffredinol (ond nid bob amser) yn llai arloesol a mentrus (ond gyda phosibilrwydd o enillion uwch) nag y gallai o bosibl fod. O gofio bod y risg ariannol wedi ei bwysu ar ochr ymgeiswyr a chyflenwyr prosiectau, mae perygl bod gan sefydliadau lai o gymhelliant i gyflwyno prosiectau bylchog o gofio'r risg ariannol annatod sy'n gysylltiedig.
- 3.46 Mae proffil risg mwy cytbwys yn bosibl - ar gyfer rhai elfennau o'r Gronfa o leiaf - lle mae Llywodraeth Cymru yn gallu lleihau'r risg ar sefydliadau sy'n cyflenwi drwy glymu (yn llawn, neu yn fwy realistig yn rhannol) ad-daliad i gyflawniad arbedion. Yr anfantais o safbwynt cyllidwr yw na fyddai'r arian yn cael ei ad-dalu os na grëir arbedion. Fodd bynnag, gall y dull hwn arwain yn ei dro at gyflwyno prosiectau mwy arloesol a newydd, gyda'r risg i bartneriaid prosiect os bydd y prosiect yn methu yn cael ei leihau.
- 3.47 Amlygodd ymchwil y gwerthusiad hefyd yr her o wahanu'r yr arbedion a grëwyd gan y Gronfa pan fo'r cymorth yn rhan o fwndel gweithgarwch ehangach. Mae enghreifftiau yn cynnwys cymorth y Gronfa i raglen Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus Cymru-gyfan; er bod partneriaid prosiect yn adrodd y bydd y prosiectau wedi creu manteision rhyddhau arian drwy gefnogi ehangu'r rhwydwaith, nid yw'n bosibl (nac yn realistig o gofio'r adnodd presennol) rhoi bys ar lle, ac ar ba raddfa, y mae'r manteision hyn wedi ymddangos. Mae hon yn neges bwysig ar gyfer y gwerthusiad, am ddau reswm:

- Mae'n awgrymu na ellir yn hawdd cyfri'r holl fanteision rhyddhau arian a grëir gan y Gronfa, ac felly mae ei gyfraniad cyffredinol yn debygol o fod yn fwy nac y mae'r data sydd ar gael yn ei awgrymu.
- Mae'n golygu nad yw'n hollol glir beth yn union y bydd y Gronfa yn ei 'brynu', gyda goblygiadau o ran i ba raddau y gellir gwneud gwaith monitro a mesur manwl gywir. Mae hefyd yn awgrymu efallai y bydd angen dadansoddiad a chraffu tynnach ar sut y bydd arbedion rhyddhau arian yn cael eu creu.

Data wedi'i ddiweddarau ar ad-dalu

3.48 Fel y nodwyd uchod, mae'r data a ddarparwyd i'r Tîm Astudiaeth ym mis Mai 2013 i'w ddefnyddio ar gyfer y gwerthusiad yn dynodi gwerth £10.2 miliwn o ad-daliad. Mae data ar wariant ac ad-daliadau a ddiweddarwyd ac a ddarparwyd gan yr Uned Buddsoddi i Arbed ym mis Mawrth 2014, ac sydd wedi ei gynnwys yma er mwyn iddo fod yn gyflawn, yn dynodi bod tua £17.6 miliwn o ad-daliad wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Tabl 3-5: Gwybodaeth a ddiweddarwyd ar wariant ac ad-daliadau, a ddarparwyd ym mis Mawrth 2014

	2009-10	2010-11	2011-12	2012-13
Gwerth buddsoddiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn prosiectau newydd	8,141	20,074	11,937	19,024
Gwerth ad-daliadau o fuddsoddiadau a wnaed gan brosiectau a gefnogwyd	0	668	8,440	8,507

Argymhellion yr Adran

Argymhelliad 3: Dylai cyfeiriad a rheolaeth prosiect fod yn gyfrifoldeb clir a diamheuol unigolyn penodedig yn y sefydliad Partner Arweiniol; dylai'r trefniadau hyn gael eu diweddarau'n barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy, yn y pen draw, sy'n atebol am berfformiad y prosiect a chyflawniad gweithgarwch y Gronfa, dros gyfnod cyflawni'r prosiect, a'r cyfnod ad-dalu sy'n dilyn. Mae'r prosesau ar waith i gyflawni hyn, ac wrth symud ymlaen dylai bod mwy a mwy o ganolbwyntio ar sicrhau bod arfer yn adlewyrchu'n

llawn y disgyblaethau proses hyn. Fel cam cyntaf, dylid cynnal adolygiad ffurfiol o'r manylion cyswllt ar gyfer yr holl brosiectau sydd wedi'u cwblhau a rhai sy'n mynd rhagddynt er mwyn sicrhau bod manylion cyswllt priodol nawr yn bodoli er mwyn rhoi llwyfan cadarn wrth symud ymlaen.

Argymhelliad 4: Dylai'r gwaith o fonitro a choladu arbedion rhyddhau arian gael ei integreiddio'n llawn i system CRM/cronfa ddata Buddsoddi i Arbed. O gofio mai arbedion rhyddhau arian yw'r allbwn allweddol sy'n cael ei 'brynu' gan y Gronfa, dylid ei ystyried fel data allbwn sydd i'w gasglu'n arferol wrth fonitro (ar ffurf gros), yn hytrach na thrwy weithgarwch gwerthuso. Ni chynhwyswyd y data hwn yn y wybodaeth monitro ar lefel Cronfa a ddarparwyd i'r tîm gwerthuso ar gyfer yr astudiaeth hon, dylai fod wedi ei gynnwys ar gyfer unrhyw werthusiad/ymchwil effaith yn y dyfodol.

Argymhellid 5: Dylid datblygu canllawiau i alluogi ceisiadau prosiect i nodi'n well, ac yna monitro, manteision nad sy'n rhyddhau arian prosiectau'r Gronfa, ac felly sicrhau y gall prosiectau gynllunio'n well ar gyfer, a dangos, manteision nad sy'n rhyddhau arian yn y dyfodol. Yn ymarferol gallai hyn gynnwys datblygiad a lledaeniad cyfres o gameos prosiect sy'n rhoi enghreifftiau 'byd go iawn' o'r Gronfa ac, yn fwy eang, sut y mae manteision nad sy'n rhyddhau arian wedi eu gwireddu a'u casglu er mwyn hysbysu ymgeiswyr newydd. Hyd yma prin yw'r canllawiau ar fanteision nid mewn arian: rhydd hyn gyfle i'r Uned Buddsoddi i Arbed arwain yn y maes hwn a lledaenu a gwreiddio ei arbenigedd amlwg.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ffurfiol, drwy asesu dewisiadau os, a sut, i gysylltu'n gliriach gyflawniad arbedion ac ad-daliad buddsoddiad y Gronfa. Dylai hyn gynnwys ail-gydbwyso'r proffil risg oddi wrth y sefydliadau cyflenwi ac ar y Llywodraeth fel ffordd o ysgogi prosiectau sy'n fwy arloesol a mentrus, ond a fydd o bosibl yn rhoi gwell canlyniadau. Dylai hyn gynnwys ymchwil gydag asiantaethau sector cyhoeddus perthnasol (yn cynnwys ymgeiswyr y gorffennol ac ymgeiswyr posibl yn y dyfodol) er mwyn darparu tystiolaeth ynglŷn ag i ba raddau y byddai dull ail-gydbwyso risg yn ysgogi mwy o syniadau prosiect, neu rai gwahanol.

4 Effeithiau Prosiectau Buddsoddi i Arbed

4.1 Mae'r adran hon yn ystyried y dystiolaeth ar effeithiau ehangach y Gronfa, yn ychwanegol at y manteision rhyddhau arian ac nad sy'n rhyddhau arian a amlinellwyd yn yr adran flaenorol, gan ganolbwyntio ar y manteision meintiol ac ansoddol a gyflawnwyd, ac unrhyw effeithiau nas bwriadwyd.

4.2 Mae nifer o bwyntiau (rhyngberthynol) yn bwysig cyn nodi'r dystiolaeth:

- Mae prosiectau a gefnogir gan y Gronfa yn cwmpasu ystod eang iawn o fathau o ganlyniad ar draws ystod o barthau polisi, o iechedd ac addysg i lywodraeth leol, gyda phrosiectau hefyd yn cyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi ystod llawer ehangach o feysydd gwasanaeth penodol.
- Nid yw'r Gronfa wedi sefydlu casgliad o fesuriadau canlyniad neu effaith i brosiectau gyflawni yn eu herbyn, ac arbedion rhyddhau arian yw'r unig elfen fesur gyson ar draws gweithgarwch y Gronfa hyd yma. Mae hyn yn bwysig er mwyn rhoi hyblygrwydd i brosiectau ddarparu gweithgareddau yn seiliedig ar angen a chyfle. Fodd bynnag, golyga hefyd bod natur y canlyniadau a gyflawnir gan y Gronfa yn amrywiol, yn anodd i'w casglu ac nid oes nodweddiad (drwy ddangosyddion) sy'n dangos sut y mae theorïau newid mewn prosiectau yn gweithio drwodd yn gyson. Mae hyn i gyd yn gwneud monitro o ansawdd uchel a chyfeiriol (ac, o ganlyniad, gwerthusiad) canlyniadau'r Gronfa yn anodd.
- Mae monitro canlyniadau yn ymddangos fel petai'n amrywio ar draws prosiectau'r Gronfa: mewn rhai achosion, mae prosiectau wedi monitro'n agos fesuriadau canlyniadau perthnasol - boed y rhain yn ymwneud â darpariaeth gwasanaeth, bodlonrwydd defnyddwyr neu fesuriadau ehangach eraill o fanteision cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, y dystiolaeth a geir o ymgynghoriadau gyda rheolwyr prosiect yw bod monitro canlyniadau ffurfiol mewn achosion eraill wedi bod yn gyfyngedig, gyda dim gwybodaeth yn cael ei darparu i'r gwerthuswyr mewn ymgynghoriadau ar effeithiau ehangach gweithgarwch prosiect. Mae'n ofyniad ffurfiol gan yr Uned Buddsoddi i Arbed bod prosiectau yn adrodd ar ddangosyddion perfformiad drwy fonitro chwarterol, gyda'r ffocws hwn

yn cael ei gryfhau yn rowndiau diweddarach y Gronfa. Wedi dweud hyn, mae'r gwerthusiad yn dangos mai cymysg yw arfer a gweithrediad y systemau ar lawr gwlad. Mae cyfle yma i gryfhau a chael mwy o gadernid.

Manteision Mesuradwy

- 4.3 Manteision mesuradwy yw'r effeithiau hynny o weithgarwch y Gronfa y gellir eu meintoli, ond nid yn hawdd yn ariannol - er enghraifft, 'gwell amser gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid'. Mae i ba raddau y caiff manteision mesuradwy eu mesur yn dibynnu ar eu pwysigrwydd, ond hefyd ar i ba raddau y cânt eu casglu'n ymarferol ac yn briodoladwy i'r Gronfa.
- 4.4 Yn gyson â'r agwedd hyblyg tuag at fesuriadau canlyniad a gymerwyd gan y Gronfa, fel gyda manteision nad sy'n rhyddhau arian, mae natur y manteision meintiol a welwyd yn brosiect-benodol, ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cwblhau a rhai sy'n mynd rhagddynt. Fodd bynnag, er gwaethaf y canolbwyntio ar lefel prosiect hwn, o edrych ar draws y portffolio o brosiectau mae tri math o fanteision mesuradwy a gyflawnwyd gan brosiectau'r Gronfa yn dod i'r amlwg:
- **gwell canfyddiad defnyddwyr gwasanaeth**, gyda gwelliannau yn ansawdd a/neu raddfa'r gwasanaeth a ddarperir gan asiantaethau yn arwain at well bodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid, sydd mewn nifer o achosion wedi ei feintoli a'i gofnodi
 - **gwell mynediad at wasanaethau**, gyda nifer o brosiectau yn arwain at fwy o ddarpariaeth gwasanaethau yn cynnwys, er enghraifft, gynnydd mewn darpariaeth gofal, cynnydd mewn cefnogaeth monitro galwadau a chynnydd yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd a gafwyd trwy'r prosiect
 - mewn nifer o achosion, **gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth**, gyda ffocws ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys symud gofal yn agosach adref, hyd arhosiad byrrach ar gyfer cleifion, systemau haws eu defnyddio, yn ogystal â chanlyniadau eraill yn cynnwys dedfrydau carchar.

- 4.5 Ar draws y gwahanol fathau o fanteision nid yw'r holl ganlyniadau a nodwyd wedi eu cael meintoli. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o'r rheini a gafodd wedi eu nodi yn y blwch isod, a'u grwpio yn ôl y math a nodwyd uchod.

Gwell canfyddiad defnyddwyr gwasanaeth

Mae prosiect **UWIC - parth-g, siop-un-stop i fyfyrwyr** sydd wedi'i gwblhau wedi cyrraedd 90% o fodlonrwydd gyda'r gwasanaeth, gyda 75% o gwsmeriaid yn adrodd bod y gwasanaeth yn mynd y tu hwnt i'w disgwyliadau, a 50% o geisiadau yn cael eu datrys gan ddefnyddio hunanwasanaeth

Mae prosiect **Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un** sydd wedi'i gwblhau wedi gweld lefelau gwell o fodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid, a adroddwyd drwy arolygon a gynhaliwyd ers ei weithredu, ynghyd â lefelau uwch yn y nifer sy'n manteisio ar y gwasanaethau a lleihad mewn atgyfeirio a diffygion yn cael eu dyblygu

Gwell mynediad at wasanaethau

Mae prosiect **Cludiant Di-frys i Gleifion** parhaus wedi arwain at leihad yn nifer y siwrneiau difrys a wneir gan ambiwlansys, gan ostwng o 19% i tua 11% o siwrneiau ym mis Tachwedd 2013

Mae prosiect **BIP Caerdydd a'r Fro - Gweithio Symudol** sydd wedi'i gwblhau wedi arwain at gynnydd o 14,000 yn nifer y cleifion (9% o gynnydd) a chynnydd yn faint o amser y gall staff dreulio gyda chleifion o ganlyniad i'r offer ar gyfer gweithio symudol sy'n golygu nad oes yn rhaid i staff ddychwelyd i'r swyddfa i gwblhau gwaith papur.

Mae'r **Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru** sydd wedi'i gwblhau wedi arwain at gynnydd o 7% yn nifer y galwadau sy'n cael eu monitro yn erbyn y sefyllfa waelodlin, gyda nifer cynyddol o alwadau yn cael eu derbyn (cynnydd o 38%) ers dechrau'r prosiect

Gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth

Mae prosiect **Dychweliad Cleifion Iechyd Meddwl Gofal Iechyd Parhaus i Leoliadau** sydd wedi'i gwblhau wedi cyflawni ystod o fanteision, yn cynnwys gostyngiad o 15% yn nifer y cleifion mewn gofal preifat, archwilio darparwyr yn fwy rheolaidd, a sicrhau bod gan yr holl gleifion erbyn hyn 'reolwr'

Mae prosiect **Ymgyrch Wyn: Adennill a Chadw Annibyniaeth** sy'n mynd rhagddo wedi arwain at nifer o fanteision meintiol, sef: symud y cydbwysedd o gartref gofal i ddarpariaeth gofal yn y cartref, yn cynnwys cymorth strôc yn y cartref; gwelliannau mewn data cwmpiaadau; rhyddhau i fan preswyllo arferol yn cynyddu gan 3%; a gweithgarwch yn yr Uned Asesu Gofal i'r Henoed a'r Ysbyty Dydd yn lleihau

Mae prosiect **Adsefydlu Iechyd Meddwl – Adfer a Chynhwysiant Cymdeithasol** sydd wedi'i gwblhau wedi dod â 30 o bobl yn ôl i ofal yn yr ardal leol, gydag unigolion ychwanegol nawr yn cael eu cefnogi o ganlyniad i'r arbedion a gyflawnwyd, a gyda hyd arhosiad wedi ei leihau o ganlyniad i fod yn agosach i adref ac at deulu, a bod mewn amgylchedd lleol, Cymraeg ei iaith yn gwella canlyniadau cleifion

- 4.6 Mae'r canfyddiadau hyn yn galonogol a dylid eu croesawu. Maent yn dangos ehangder ac, mewn rhai achosion, graddfa'r manteision a gyflawnir. Hefyd, yn gyffredinol sefydlwyd meincnodau ar ddechrau'r prosiect er mwyn sicrhau y gellid mesur cynnydd. Fodd bynnag, mae diffyg fframwaith trawsfwaol a threfniadol yn golygu na ellir cyfanredu ac uwchraddio'n gadarn y mathau hyn o fanteision i lefel Cronfa.
- 4.7 Yn ogystal, mae manteision mesuradwy *posibl* eraill wedi eu cyflawni hyd yma. Cyfeirir at ddwy enghraifft benodol a nodwyd yn ymchwil y gwerthusiad isod: er nad yw data meintiol ar gael eto ar gyfer y prosiectau hyn.

Dywedodd ymgynghoreion bod prosiect **Cydweithio Gwell Adferiad ar ôl Llawdriniaeth 1000 o Fywydau a Mwy Cymru** wedi arwain at arosiadau byrrach ar gyfer cleifion mewn un o'r byrddau iechyd cyfranogol, er y nodwyd bod meintoli hyd a lled yr effaith hwn yn anodd o gofio'r ystod o ffactorau sy'n effeithio ar hyd arhosiad.

Adroddodd y prosiect **Darparu Gofal Amlapio** bod y gweithgarwch wedi arwain at lai o bobl ifanc yn cael dedfrydau o garchar, er bod darparu tystiolaeth feintiol am hyn, yn cynnwys priodoli hyn i'r prosiect, yn anodd ac nad yw'r data ar gael hyd yma.

- 4.8 Gwelwyd tystiolaeth ychwanegol am natur manteision mesuradwy drwy'r astudiaethau achos, a grynhoir yn Adran 6, ac a nodir yn llawn yn y ddogfen astudiaeth achos a gyhoeddir gyda'r adroddiad hwn.

Manteision anfesuradwy

- 4.9 Mae manteision anfesuradwy yn ymwneud â chanlyniadau sydd o werth i'r sector cyhoeddus, ond ni ellir eu meintoli. Er enghraifft, cynnydd ym moral y staff o ganlyniad i lai o lenwi ffurflenni. Manteision strategol yw'r rhain yn y bôn y gall gweithgarwch y Gronfa eu galluogi, yn cynnwys gwell cydweithredu a newid diwylliannol mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

4.10 Yn ôl eu natur ni ellir meintoli'r mathau hyn o fanteision. Fodd bynnag, y dystiolaeth o'r gwerthusiad yw eu bod wedi bod yn elfen hollbwysig o gyfraniad y Gronfa. Fel y trafodir mewn rhagor o fanylder yn yr adran nesaf, mater allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r astudiaethau achos a'r broses ymgynghori ehangach yw bod prosiectau'r Gronfa yn aml - ond nid bob amser - yn ymwneud â newid ymddygiad ac agweddau.

4.11 Unwaith eto, roedd yr effeithiau hyn yn aml yn benodol i brosiectau unigol, ond ar draws y gwerthusiad gwelwyd tri math allweddol o fanteision anfesuradwy.

4.12 Yn gyntaf, **dysgu a gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o ddarpariaeth gwasanaeth a gwella**, gan wneud darpariaeth gwasanaeth yn fwy effeithiol ac effeithlon. Sicrhawyd dysgu drwy weithrediad a datblygiad prosiect, gyda'r broses o sicrhau adnodd Buddsoddi i Arbed yn cynorthwyo i 'ganolbwyntio'r meddwl' ar heriau gwasanaeth. Fel y dwedodd un ymgynghorai:

'Mae cymryd rhan yn y prosiect hwn wedi codi ein hymwybyddiaeth ac wedi gwella ein gwybodaeth sy'n fantais wirioneddol. Rydym wedi dysgu am union ddarpariaeth y gwasanaeth ei hun, ac yn fwy pellgyrhaeddol y safonau sy'n rhaid i chi eu cyrraedd a'r safonau y mae'n rhaid i chi anelu atynt. Credwn fod potensial i wella'r gwasanaeth drwy ei wneud yn fewnol oherwydd gwybodaeth leol – mae pobl yn gyfarwydd â'r safleoedd, y llwybrau cyflymaf – mae ganddynt y wybodaeth leol.' (Prosiect wedi'i Gwblhau).

4.13 Yn ail, **gwell cydgysylltu a gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau**. Roedd prosiectau a ariannwyd yn aml yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu, sydd â manteision posibl yn yr hirdymor o ran sefydlu cydberthynas, gwell cydweithredu ac, yn fwy ymarferol, lleihau dyblygu gwasanaeth dros y tymor canolig i'r hirdymor. Hefyd nodwyd gwell rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau mewn nifer o achosion.

4.14 Fel enghraifft, un o gasgliadau allweddol astudiaeth achos prosiect *Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un* oedd:

'Mae arian Buddsoddi i Arbed wedi bod yn alluogydd allweddol ar gyfer buddsoddi mewn partneriaeth, gan weithredu fel llwyfan ac ysgogiad ar gyfer cefnogaeth ddilynol asiantaethau partner a chynorthwyo i

wrthbwyso'r heriau cydgysylltu - rhai ymarferol ac ariannol - a all lesteirio gweithio amlasiantaethol effeithiol'. (Astudiaeth Achos Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un)

- 4.15 Wedi dweud hynny, er nad yn gyffredin, nodwyd rhai achosion unigol lle roedd natur partneriaeth y gweithgarwch yn ymarferol yn llai sylweddol nag yn y cam cynllunio, neu lle nad oedd gweithio mewn partneriaeth y gorau y gallai fod. Er enghraifft, adroddwyd bod ymrwymiad i'r ymgyrch ymhlith awdurdodau cyfranogol yn amrywio yn astudiaeth achos *Ymgyrch Wyn*. Mae materion ymarferol (yn cynnwys materion technegol ar gyfer prosiectau'n ymwneud â TGCh) wedi atal mwy o weithio mewn partneriaeth, yn arbennig pan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau technegol. Fodd bynnag, fel yw'r achos bob amser gyda gweithio mewn partneriaeth, roedd materion atebolrwydd a pherchnogaeth prosiect hefyd yn bwysig. Dylai sicrhau bod yr holl bartneriaid a nodir yn ymgysylltu'n ymarferol yn y gweithgarwch fod yn ffocws wrth symud ymlaen.
- 4.16 Yn drydydd, **datblygu gallu a gwell gwytnwch o ran darpariaeth gwasanaeth a chynllunio**. Mae nifer o brosiectau'r Gronfa wedi bod yn ymwneud â phrofi, neu gynnal cynlluniau peilot, o fathau newydd o weithgarwch - yn gyffredinol yn newydd i'r sefydliad ac weithiau'n arloesol ar draws sail ehangach - neu sefydlu systemau a fydd yn rhoi manteision penodol sydd ag effeithiau cadarnhaol ehangach. Er enghraifft, darparodd brosiect *Ein Gofod Caerdydd* y gallu i gynnal ymchwil ac ymarferiad cynllunio a ddatblygodd ddeunyddiau y gellir wedyn eu defnyddio ar gyfer ymarferion tebyg eraill ar draws y Cyngor. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y gwahanol systemau yn cael eu rhoi ar waith drwy weithgarwch y Gronfa, gan alluogi sefydliadau i ymateb yn fwy manwl gywir i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu er mwyn sicrhau mwy o wytnwch mewn Diogelwch Gwybodaeth. Mae'r manteision 'etifeddol' hyn sydd gan y Gronfa yn bwysig, sy'n dangos sut y gall y manteision a grëir barhau ac ymwreiddio dros y tymor hwy.
- 4.17 Mae'r rhain yn fanteision calonogol, a dylid eu dathlu. Wedi dweud hyn, mae'n bwysig yn y cyd-destun penodol hwn i nodi y canfu'r gwerthusiad mai cymysg oedd y seilwaith mewn sefydliadau prosiect i sicrhau bod y gwersi a'r dysgu a grëir gan y Gronfa yn cael eu cynnal a'u lledaenu. Mae hyn yn cysylltu'n ôl i'r

pwynt blaenorol ynglŷn â staff mewn sefydliadau prosiect yn symud neu'n newid, ac mae hyn bob amser yn risg mewn ymyriadau o'r math hyn.

- 4.18 Mae tystiolaeth bod dysgu gan weithgareddau a gefnogir gan y Gronfa wedi cael, neu y caiff, ei ledaenu ac o bosib ei gyflwyno'n fwy eang. Cyflwynir rhai enghreifftiau isod.

Adroddwyd bod prosiect **Teleofal Gogledd Cymru** wedi darparu'r sbardun i ragor o weithio mewn partneriaeth rhwng y partneriaid rhanbarthol, gyda'r prosiect yn gweithio fel patrwm o'r arbedion effeithlonrwydd posibl y gellir eu gwneud drwy weithio'n rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd **prosiect wedi'i gwblhau a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad TGCh** bod y dull nawr wedi ei gyflwyno i wasanaethau eraill, a bod sefydliadau allanol wedi ymweld â'r asiantaeth arweiniol ar gyrchoedd 'canfod ffeithiau' er mwyn dysgu am y prosiect.


- 4.19 Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol ar draws y portffolio prosiectau mae'n ymddangos bod perygl na fydd dysgu ac arfer da yn cael eu cynnal a'u gwreiddio fel a fyddai'n ddelfrydol, sy'n golygu efallai y bydd y dysgu, gallu a gwell cydberthynas a ddatblygwyd yn cael eu colli i'r system. Dylai sefydlu gweithdrefnau atebolrwydd ac adrodd clir gynorthwyo i sicrhau bod ymlediad ac ymwreiddiad yn digwydd yn fwy trylwyr.
- 4.20 Gwelir ystod o fanteision ehangach – yn cynnwys cyfrannu at adfywiad lleol drwy ddatblygiad ffisegol, gwreiddio a chefnogi egwyddorion datblygu cynaliadwy ac ysgogi defnydd o ddulliau ac egwyddorion newydd – yn yr ymchwil astudiaethau achos, a gyflwynir yn Adran 6 a'u crynhoi yn y ddogfen a gyhoeddir gyda'r adroddiad.

Ystyriaeth ar Berfformiad Prosiectau

- 4.21 O gofio'r amrywiaeth mewn canlyniadau - mesuradwy ac anfesuradwy - ar draws y portffolio prosiectau, fel rhan o'r broses ymgynghori gyda phrosiectau wedi'u cwblhau a rhai sy'n mynd rhagddynt, gofynnwyd i Rheolwyr/Arweinwyr Prosiectau nodi a oedd eu prosiect yn ei gyfanrwydd wedi perfformio/yn perfformio yn erbyn ei amcanion a'i dargedau fel yr amlinellwyd yn yr Achos Busnes gwreiddiol.

4.22 Mae'r canfyddiadau wedi eu nodi isod. Noder bod mater Gogwydd Optimistiaeth yn bwysig yma, yn arbennig wrth hunan-adrodd ar gynnydd ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt.

Ffigur 4-1: Safbwynt rheolwr/arweinydd prosiect ar berfformiad prosiect yn erbyn cynlluniau a thargedau



Ffynhonnell: Tystiolaeth ymgynghoriad

4.23 Ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cwblhau, roedd yr adborth yn amrywiol - o nifer fechan o brosiectau'n adrodd gorberfformio sylweddol, a nifer tebyg yn adrodd tanberfformio sylweddol (er bod hyn i'w weld pan nad oedd eu prosiectau mewn gwirionedd wedi eu cyflawni'n llawn, a phroblemau sylweddol wedi eu hwynebu). Fodd bynnag, adroddodd mwyafrif y prosiectau bod perfformiad ar y cyfan yn unol â'u disgwyliadau gwreiddiol, gyda'r prosiectau yn arwain at y canlyniadau yr oeddent yn disgwyl eu cyflawni.

4.24 Roedd y wybodaeth am berfformiad a adroddwyd gan brosiectau sy'n mynd rhagddynt yn debyg, sef bod prosiectau ar y cyfan yn cyflawni fel y cynlluniwyd er, fel y nodwyd uchod, mae nifer o'r canlyniadau a'r manteision eto i'w cyflawni, ac mewn nifer o achosion bu oedi mewn gweithredu'r prosiect.

4.25 Ar draws y prosiectau, ac fel yr adroddir yn llawnach yn yr astudiaethau achos (a grynhoir yn Adran 6 ac yn y ddogfen a gyhoeddir gyda'r adroddiad), lle nad oedd perfformiad fel y disgwyliid roedd hyn yn ymwneud yn gyffredinol naill ai

ag amseru ac oedi o ran gweithrediad, neu'n amlach yr angen i ailymweld a diwygio cynlluniau'r prosiect o ganlyniad i realiti'r cyflawniad.

- 4.26 Mae'r negeseuon o'r ymgynghoriadau yn gyson ar y cyfan gyda'r archwilio mwy manwl ar brosiectau a wnaed fel rhan o'r astudiaethau achos. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod, fel y dynodir yn y Ffigur uchod, ac yn arbennig yn yr astudiaethau achos lle roedd cyfle i wyntyllu'r materion mewn rhagor o ddyfnder, nad yw 'llwyddiant a methiant' bob amser yn annibynnol ar ei gilydd nac yn llinol.
- 4.27 Gall prosiectau'r Gronfa 'danberfformio' o ran gweithgarwch yn cymryd yn hwy nag a gynlluniwyd, neu ddim yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, tra ar yr un pryd yn 'gorberfformio' ar fesuriadau eraill, megis effeithiau cadarnhaol ehangach nas bwriadwyd cysylltiedig ag ymgysylltiad staff, dysgu neu mwy o wytnwch a gallu gwasanaeth. O gofio cymhlethdod prosiectau'r Gronfa, ac yn aml yr heriau y maent yn ceisio eu datrys, mae'n bwysig cydnabod nad yw llwyddiant yn aml yn ddu a gwyn.

Crynodeb o Effeithiau

- 4.28 Ar y cyfan, mae'r gwerthusiad yn dynodi bod y Gronfa wedi creu ystod o fanteision mesuradwy ac anfesuradwy. Ar y cyfan nid yw manteision gwella gwasanaeth hyd yma wedi datblygu'n ganlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth – er bod enghreifftiau cynnar o hyn – ond mae'r darlun cyffredinol yn galonogol. Yn ôl eu natur mae'r effeithiau hyn yn 'gadarnhaol', a byrdwn yr adborth gan Bartneriaid Prosiect yw bod prosiectau ar y cyfan ar y llwybr cywir i gyrraedd eu targedau.
- 4.29 Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y Gronfa ar y cyfan wedi cyflawni newid 'cynyddraddol' yn hytrach na bylchog o ran darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau. Er bod enghreifftiau o ymddygiad arloesol yn cael ei gefnogi gan y Gronfa, yn gyffredinol mae natur y gweithgareddau a'r canlyniadau y maent wedi eu creu wedi gwella ond heb newid yn sylfaenol y canlyniadau a'r prosesau a ddefnyddir ar gyfer eu creu. Nid yw hyn yn afresymol, yn arbennig ar gyfer y don gyntaf o brosiectau a gefnogir gan y Gronfa. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio'n ôl at y mater a drafodwyd yn yr adran flaenorol ynglŷn â rhai tueddiadau nas bwriadwyd yn y

modd y mae'r Gronfa wedi ei llunio (er enghraifft, yn ymwneud â'r ddisgyblaeth ad-dalu), a allai ffafrio ceidwadaeth.

- 4.30 Wrth edrych yn ôl ar y model rhesymeg a nodwyd yn Adran 1, mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod y Gronfa'n gwneud cynnydd mewn cyflawni yn erbyn effeithlonrwydd gwasanaeth a chanlyniadau gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr. Er bod y dystiolaeth ynglŷn ag arbedion effeithlonrwydd yn fwy cadarn, mae tystiolaeth ddiriaethol canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth yn gyfyngedig hyd yma; cyfyd hyn yn rhannol oherwydd nad oes gweithdrefnau, na chymau gorfodi, ffurfiol a chyson ar waith i'w mesur. Mae'r canlyniadau ar y pwynt hwn ar y cyfan, er nad yn llwyr, yn honiadol ac anecdotaidd, yn hytrach nac wedi eu cael drwy dystiolaeth ac wedi eu mesur. Hefyd, gydag oddeutu hanner prosiectau'r portffolio yn dal ar waith, mae nifer o ganlyniadau eto i'w gwireddu.
- 4.31 Mae'n werth nodi yn y cyd-destun hwn bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal prosiect i greu fframwaith ar gyfer gwerthuso gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gadarn a chyson, tra'n rhoi ystyriaeth i wahaniaethau lleol o ran dull, cyd-destun a mecanweithiau. Gellid o bosibl defnyddio hwn ar gyfer prosiectau Buddsoddi i Arbed, a gall weithredu fel arddangoswr ar gyfer meysydd polisi eraill a gwmpasir gan y Gronfa.
- 4.32 Fodd bynnag, ar y pwynt hwn, mae'n ymddangos bod prosiectau'r Gronfa, a thrwy hynny y Gronfa yn ei chyfanrwydd, yn gwneud yn fras yr hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud, ac ar y cyfan yn gwneud hynny'n foddhaol - er bod rhai heriau ar gyfer prosiectau penodol. O gofio proffil risg a natur y gweithgarwch a gyflenwir, nid yw hyn yn annisgwyl, ond mae'n dal i fod yn neges werthuso gadarnhaol.

Argymhellion yr Adran

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu cyfres o fesuriadau canlyniad, gyda dangosyddion wedi eu sefydlu a rhesymeg sy'n cysylltu'n ôl i amcanion y Gronfa. Gellir defnyddio'r rhain i gasglu'n well ac yn gyson y mathau o ganlyniadau y mae'r Gronfa yn ceisio eu cyflawni. Er enghraifft, mae canlyniadau'n ymwneud â manteision cysylltiedig ag iechyd a

mesuriadau traws-sector o ganfyddiad defnyddwyr yn feysydd posibl y gellid datblygu mesuriadau canlyniadau. Dylai'r rhain fod yn ddigon eang i beidio cyfyngu ar fathau gweithgarwch, ond â digon o ffocws iddynt i alluogi dadansoddiad a gwerthusiad addysgiadol. Fel cam cyntaf, dylai'r Uned Buddsoddi i Arbed ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn asesu i ba raddau y gellid defnyddio hyn i lywio fframwaith ar gyfer y Gronfa.

5 Ychwanegedd Buddsoddi i Arbed

- 5.1 Mae'r adran hon yn nodi'r dystiolaeth o'r gwerthusiad ynglŷn ag ychwanegedd y Gronfa.

Dangos ychwanegedd

- 5.2 Mae dangos ychwanegedd ymyrraeth polisi cyhoeddus yn greiddiol i werthusiad cadarn. Mae'n galluogi addasu - yn feintiol ac yn ansoddol - o allbynnau a chanlyniadau gros' h.y. y pethau hynny sy'n ymddangos eu bod wedi digwydd, i allbynnau a chanlyniadau 'net' h.y. y pethau hynny sydd, mewn gwirionedd, wedi digwydd o ganlyniad i ymyrraeth a ariannwyd yn gyhoeddus.
- 5.3 Yn nodweddiadol ceir ychwanegedd ar ffurf 'rhannol', boed hynny o ran amser, graddfa neu ansawdd. Hynny yw, adroddir bod ymyrraeth wedi gwneud i weithgareddau a chanlyniadau ddigwydd yn fwy cyflym, ar raddfa fwy, neu ar ansawdd uwch na fyddai wedi digwydd fel arall. Ychwanegedd llawn yw lle byddai gweithgareddau a chanlyniadau heb ddigwydd o gwbl heb yr ymyrraeth.
- 5.4 O gofio natur y Gronfa, ac amseriad y gwerthusiad (sy'n golygu, yn dyngedfennol, nad oedd hi'n bosibl sefydlu grŵp rheolydd o brosiectau), mae'r asesiad o ychwanegedd wedi ei seilio'n bennaf ar dystiolaeth a hunan-adroddwyd gan y prosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa. Yn yr ymgynghoriadau a'r astudiaethau achos gofynnwyd i Reolwyr/Arweinwyr Prosiect nodi a disgrifio beth fyddai wedi digwydd o ran gweithgarwch ac allbwn pe na fyddai cymorth y Gronfa wedi ei roi ar gael.
- 5.5 Mae'r arsylwadau hyn felly yn bersbectif uniongyrchol, ond goddrychol, o sut y caiff ychwanegedd y Gronfa ei ystyried ar lawr gwlad. Nid oes rheswm i amau didwylledd na gonestrwydd yr ymatebion a ddarparwyd, ond fel sy'n wir bob amser gydag ymatebion o'r math hyn, maent yn debygol o gynnwys Gogwydd Optimistiaeth sylweddol - hynny yw, bod effeithiau'r Gronfa (beth bynnag fo'r rhain) yn debygol o gael eu cofio fel bod yn fwy sylweddol nag oeddent yn debygol o fod yn wirioneddol. Mae angen cynnwys y Gogwydd Optimistiaeth annatod hwn yn y canfyddiadau.

- 5.6 Fodd bynnag, er mwyn darparu rhagor o dystiolaeth am ychwanegedd yn y canfyddiadau a hunan-adroddir, mae'r asesiad hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau ymchwil gyda phrosiectau cymharol nas cefnogwyd gan y Gronfa. Er na ddylid pwyso'n rhy drwm ar y canfyddiadau hyn, o gofio maint cyfyngedig y sampl, maent yn gymorth i brofi a chadarnhau'r dystiolaeth a gafwyd gan brosiectau a gefnogwyd.

Tystiolaeth gan brosiectau a gefnogwyd

Tystiolaeth o'r ymgynghoriadau dros y ffôn

- 5.7 Roedd yr ymgynghoriadau gyda 25 prosiect oedd wedi eu cwblhau ac yn mynd rhagddynt yn cynnwys cyfres o gwestiynau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddau fath o ychwanegedd:

- Ychwanegedd mewn ariannu h.y. a fyddai'r prosiect wedi gwneud cynnydd heb gefnogaeth y Gronfa, ac os felly a fyddai hyn wedi bod yn ddiweddarach, yn llai, neu ar ffurf/ansawdd gwahanol?
- Ychwanegedd mewn canlyniadau h.y. a fyddai'r manteision wedi cael eu creu heb y prosiect, ac os felly a fyddai hyn wedi bod yn ddiweddarach, yn llai, neu ar ffurf/ansawdd gwahanol?

- 5.8 O ran ychwanegedd mewn gweithgarwch, mae'r dystiolaeth yn dangos mai prif rôl Buddsoddi i Arbed, fel y'i gwelwyd gan Reolwyr/Arweinwyr Prosiect oedd i ddod â gweithgarwch y prosiect ymlaen yn gynt nag a fyddai wedi bod fel arall: o'r 25 prosiect yr ymgynghorwyd â hwy, dywedodd 13 y byddai gweithgarwch y prosiect wedi cael ei oedi heb gefnogaeth y Gronfa.


- 5.9 Mae nifer o enghreifftiau o raddfa'r ychwanegedd amser, lle nodwyd hynny, wedi eu cyflwyno isod:

Heb gefnogaeth y Gronfa, byddai'r prosiect '*wedi cymryd llawer yn hwy, efallai y byddem yn edrych ar 2015*' (Ymgynghorai prosiect wedi'i gwblhau)

Heb gefnogaeth y Gronfa, byddai'r prosiect wedi bod '*tua 12-18 mis yn ddiweddarach, oherwydd fe fyddai wedi bod yn fwy cymhleth i'w gyflawni*' (Ymgynghorai prosiect wedi'i gwblhau)

5.10 Dywedodd saith prosiect (dros chwarter y rhai yr ymgynghorwyd â hwy) na fyddai eu prosiect wedi mynd rhagddo heb y Gronfa h.y. ychwanegedd llawn mewn gweithgarwch.

Ffigur 5-1: Ychwanegedd gweithgarwch o ymgynghoriadau dros y ffôn



Ffynhonnell: Tystiolaeth ymgynghoriad


5.11 Mae'n nodedig bod adroddiadau am 'ychwanegedd llawn' yn fwy amlwg ymhlith prosiectau a oedd yn mynd rhagddynt (tri o'r wyth), na'r prosiectau oedd wedi'u cwblhau (pedwar o'r 17). Yn amlwg, o ystyried y niferoedd a drafodir, rhaid bod yn ofalus rhag dod i ormod o gasgliadau o'r data hwn, ond fe all adlewyrchu lefel uwch o Ogwydd Optimistaidd ynglŷn â rôl Buddsoddi i Arbed ymhlith prosiectau sy'n mynd rhagddynt, rhywbeth y gall meddwl mwy ffres weithiau ei annog. Yn nodedig, fel y trafodir isod, pan archwiliwyd mewn rhagor o ddyfnder, ni chanfu'r astudiaethau achos dystiolaeth gyson bod ychwanegedd prosiectau sy'n mynd rhagddynt yn uwch nag ychwanegedd prosiectau wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, efallai y bydd hi'n werth dychwelyd at y cwestiynau hyn tua dwy neu dair blynedd yn y dyfodol er mwyn profi a oedd mewn gwirionedd lefel uwch o ychwanegedd gweithgarwch ymhlith y genhedlaeth ddiweddarach o brosiectau Buddsoddi i Arbed.

5.12 Y dystiolaeth o'r prosiectau yw bod y Gronfa wedi chwarae dim ond rôl gyfyngedig mewn newid natur/ffurf gweithgarwch prosiectau drwy ychwanegedd 'ansawdd': i'w weld mewn dim ond tri achos o'r 25 prosiect yr

ymgynghorwyd â hwy. Mae hyn yn gwbl gyson â chanfyddiadau'r Gwerthusiad Interim cynharach a ddaeth i'r casgliad bod y Gronfa wedi creu 'ychwanegedd rhannol', gan gyflymu ac uwchraddiad gweithgarwch prosiect, ond gyda thystiolaeth gyfyngedig o'r Gronfa yn ysgogi syniadau newydd. Yn hyn o beth, mae'r dystiolaeth eto'n awgrymu nad yw'r cyfle i sicrhau cymorth y Gronfa yn dylanwadu ar natur y gweithgarwch a gynigir, ond yn hytrach ar ei amseru, ei raddfa neu ei gynnydd.

- 5.13 Dylid ystyried rôl mwy 'datblygiadol' ar gyfer y Gronfa, yn cynnwys cefnogi prosiectau risg uwch a phrosiectau y gellir dangos sy'n arloesol, a gyda'r Gronfa yn gweithio i siapio prosiectau drwy eu prosesau datblygu ac arfarnu. Rydym yn dychwelyd at y mater hwn isod, yng nghyd-destun yr astudiaethau achos.
- 5.14 Gan droi at **ychwanegedd mewn canlyniadau**, mae'r dystiolaeth ar y cyfan yn gyson, gyda'r manteision sy'n cael eu creu (cyflawnwyd neu disgwylir) gan y Gronfa yn cael eu hystyried yn bennaf fel rhai sy'n cael eu datblygu yn gynt neu eu cyflymu gan Buddsoddi i Arbed, neu rhai na fyddent wedi cael eu cyflawni o gwbl heb y Gronfa. Dim ond tri o'r 25 prosiect a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad a ddywedodd y byddent wedi cyflawni eu manteision yn llawn heb gefnogaeth y Gronfa. Unwaith eto roedd canfyddiad o ychwanegedd llawn ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt yn uwch mewn termau cymharol na'r rheiny ar gyfer prosiectau wedi'u cwblhau.

Ffigur 5-2: Ychwanegedd canlyniad o ymgynghoriadau dros y ffôn



Ffynhonnell: Tystiolaeth ymgynghoriad

5.15 Mae'r canfyddiadau 'gweithgarwch' a 'chanlyniad' o'r ymgynghoriadau dros y ffôn yn dynodi tystiolaeth gref o ychwanegedd amseru – mae'n ymddangos bod y Gronfa yn gyson wedi dwyn prosiectau ymlaen yn gynt nag a fyddent fel arall. Er y gellid dadlau mai ychwanegedd amseru yw dim ond gwneud i bethau ddigwydd yn gyflymach nag a fyddent beth bynnag, mae hyn yn parhau'n effaith bwysig; yn wir, mae Llyfr Gwyrdd y Trysorlys (y canllaw tanategol a'r man cyfair allweddol ar gyfer y gwerthusiad hwn) yn cydnabod bod cyflymu manteision yn werthfawr o gofio 'Dewisiad Amser Cymdeithasol', hynny yw bod cymdeithas yn gwerthfawrogi pethau'n fwy 'nawr; nag ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

5.16 Mae ychwanegedd amseru hefyd yn werthfawr o gofio'r cyd-destunau cyllidebol heriol yr oedd prosiectau yn gweithio ynddynt; mae gwneud i arbedion a manteision eraill ddigwydd yn gynt yn effaith bwysig ar lefel sefydliadol, gan gyfrannu at dargedau arbedion effeithlonrwydd tymor byr. Nododd yr ymgynghoriadau hefyd enghreifftiau lle galluogodd y Gronfa i brosiectau 'achub ar gyfle' a fyddai wedi ei golli petai'r gweithgarwch wedi ei oedi.

5.17 Mae peth tystiolaeth hefyd o 'ychwanegedd llawn' yn cael ei adrodd. Dynoda tystiolaeth fod y Gronfa wedi galluogi rhai sefydliadau i gyflawni gweithgarwch a manteision a fyddai fel arall heb eu creu. Er y perygl o Ogwydd

Optimistiaeth, yn arbennig ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt, mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol.

5.18 Archwiliwyd un elfen arall o ychwanegedd gyda phrosiectau - i ba raddau yr oedd ymglymiad yng ngweithgarwch y Gronfa yn golygu bod sefydliadau cyfranogol ddim yn gallu parhau gyda gweithgareddau datblygu eraill er mwyn cyflawni canlyniadau arbedion effeithlonrwydd a gwelliant gwasanaeth. Amnewid yw'r term ffurfiol ar gyfer hyn.

5.19 Yn gadarnhaol, ar draws yr ymgynghoriadau prin iawn oedd y dystiolaeth o amnewid - yn wir, dim ond un o'r 25 prosiect yr ymgynghorwyd â hwy a nododd amnewid fel ffactor, gydag ymglymiad ym mhrosiect y Gronfa yn arwain at lai o ganolbwyntio ar weithgareddau ehangach.

Tystiolaeth o'r astudiaethau achos

5.20 Rhoddodd yr astudiaethau achos gyfle i archwilio mewn rhagor o fanylder faterion ychwanegedd. Noder bod peth gorgyffwrdd yma gyda phump o'r astudiaethau achos (o brosiectau wedi'u cwblhau) hefyd wedi ymgynghori â hwy dros y ffôn ar gam gyntaf y gwaith.

5.21 Mae'r dystiolaeth o'r astudiaethau achos ar y cyfan yn gyson â'r ymgynghoriadau dros y ffôn er, o gael y cyfle i drafod y materion mewn rhagor o fanylder, roedd yr amrywiol ffyrdd yr oedd y Gronfa yn rhoi ychwanegedd yn amlwg. Daeth tri phwynt allweddol i'r amlwg:

- Yn gyntaf, yn gyson â'r ymgynghoriadau dros y ffôn, rhoddodd yr astudiaethau achos dystiolaeth o ychwanegedd y Gronfa - roedd rôl y Gronfa fel ysgogwr gweithgarwch, gan wneud i weithgarwch ddigwydd yn gynt neu wneud iddo ddigwydd pan na fyddai fel arall wedi digwydd, yn thema gyson a oedd yn rhedeg drwy'r astudiaethau achos, yn gwbl gyson â bwriad strategol cyffredinol y Gronfa a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Yn ail, fodd bynnag, wrth archwilio cylch datblygu'r prosiect mewn rhagor o ddyfnder, nodwyd ffactorau allanol ac ysgogwyr corfforaethol mewnol yn aml yn allweddol i ddatblygiad prosiectau. Yn hyn o beth, mae'r syniad 'na fyddai dim wedi digwydd' heb y Gronfa yn cael ei gwestiynu o ddifrif.

Nid yw'n bosibl, neu nid yw o fewn cylch gwaith y gwerthusiad hwn, i archwilio penderfyniadau ariannu unigol a wnaed gan y Gronfa. Fodd bynnag, nododd yr astudiaethau achos enghreifftiau lle roedd tystiolaeth y gwerthusiad yn awgrymu bod y Gronfa yn ffynhonnell cefnogaeth 'ddefnyddiol', ond yn hollbwysig ddim yn 'hanfodol', ac y byddai llawer (os nad y cyfan) o'r gweithgarwch a gynigwyd wedi parhau hyd yn oed heb gefnogaeth. Dyma ganlyniad rhesymegol y Gronfa yn gyffredinol yn cefnogi datblygiad prosiectau sy'n bodoli, yn hytrach na'n gweithredu mewn modd datblygol er mwyn siapio ac ysgogi prosiectau newydd.

- Yn drydydd, thema bwysig a ddaeth i'r amlwg oedd y graddau yr oedd ychwanegedd gweithgarwch a chanlyniadau prosiect yn debygol o gael ei benderfynu gan lefel yr arloesedd a'r risg a ddangoswyd gan y prosiect; ar draws yr astudiaethau achos, roedd ychwanegedd y Gronfa fel petai ar ei uchaf pan oedd prosiectau yn cynnwys arloesedd a risgiau sylweddol. Mae *Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un* yn enghraifft o hyn. Roedd y partneriaid a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect hwn yn ystyried arian Buddsoddi i Arbed yn hollbwysig er mwyn goresgyn rhwystrau i'r buddsoddiad ar y cyd oedd ei angen arno h.y. lle nad oedd un sefydliad yn gallu (neu'n barod i) chwarae rôl y cyllidwr craidd, o gofio risgiau annatod datgysylltiad partneriaid a/neu rwystrau ymarferol i rannu/cydgrynhoi adnoddau. Mewn achosion eraill, lle defnyddiwyd y Gronfa i gefnogi prosiectau a oedd yn bwysig, ond ar y cyfan yn fentrau 'risg is', roedd lefel yr ychwanegedd yn gymharol lai.

Prosiectau Cymharol

- 5.22 Mae astudiaethau achos prosiectau cymharol nad sy'n rhai Buddsoddi i Arbed yn rhoi persbectif pellach ar ychwanegedd y Gronfa, yn arbennig gan y ddau brosiect hynny a geisiodd, ond na sicrhodd yn y pen draw, gymorth gan y Gronfa.
- 5.23 Mae'r negeseuon allweddol o'r ddau brosiect yma a 'wrthodwyd' wedi eu nodi yn y Tabl isod. Er bod angen bod yn ofalus rhag darllen gormod i mewn i ddwy enghraifft benodol, mae'r ddau brosiect yn cadarnhau'r negeseuon

ychwanegedd ehangach o ran amseru, a mathau eraill o ychwanegedd rhannol.

	Prosiect A	Prosiect B
Heb gymorth y Gronfa ...	Ac eithrio peth ail-drefnu cymharol fach ar gostau er mwyn lleihau graddfa ariannol y prosiect, aeth y prosiect rhagddo yn bennaf ar batrwm y prosiect Buddsoddi i Arbed arfaethedig. Fodd bynnag, datblygwyd y prosiect dros gyfnod amser hwy nag a gynlluniwyd o dan y Gronfa. Ystyriwyd y prosiect fel blaenoriaeth uchel, gyda'r methiant i sicrhau adnodd y Gronfa ddim yn lleihau'r angen i ddatblygu'r prosiect ar ryw ffurf.	Ailstrwythurwyd y prosiect: heb yr adnodd ni ellid ffurfio'r tîm penodedig oedd ei angen er mwyn cyflawni un agwedd o'r prosiect, er bod hon wedi ei gweithredu ers hynny ar raddfa lai, gan gyflawni canlyniadau ar gyfradd arafach a graddfa lai nag a ragwelwyd gyda chefnogaeth y Gronfa Buddsoddi i Arbed. Ni chafodd ail elfen y prosiect, a oedd yn cynnwys prynu offer cyfalaf, ei datblygu ac mae wedi ei hamserlennu ar gyfer ei gweithredu dros y tymor hwy, pan a phryd y bydd y bydd adnoddau yn caniatáu ymyrraeth. Canlyniad methu â sicrhau adnodd y Gronfa oedd bod y prosiect wedi colli ei siâp: mae uchelgais y prosiect yn parhau, ond erydwyd ei fodel cyflenwi, gan uno gyda gweithgarwch prif ffrwd.
Sut ariannwyd unrhyw weithgarwch ...	Ariannwyd y prosiect drwy ddefnyddio adnodd mewnol, ond roedd hyn yn golygu ailgyfeirio arian o raglenni blaenoriaeth eraill (h.y. toriadau i raglenni eraill).	Ariannwyd elfennau'r prosiect sydd wedi eu cyflawni drwy ddefnyddio cyllidebau mewnol.
Negeseuon y Gwerthusiad	Awgryma ychwanegedd amseru y Gronfa.	Awgryma ychwanegedd amseru, graddfa ac ansawdd y Gronfa.

Ffynhonnell: Gwaith Maes y Gwerthusiad

Golwg integredig ar ychwanegedd

- 5.24 O'i hystyried yn ei chyfanrwydd, canfu'r gwerthusiad bod y Gronfa wedi cyflawni ychwanegedd, o ran amseru, graddfa ac yn achlysurol – er yn fwy ar gyfer prosiectau sy'n mynd rhagddynt na rhai sydd wedi'u cwblhau – o ran ychwanegedd llawn.
- 5.25 Yn y rhan fwyaf o achosion a gwmpaswyd gan ymchwil cynradd y gwerthusiad, byddai'r gweithgarwch prosiect wedi mynd rhagddo mewn rhyw ffurf heb y Gronfa - sydd ddim yn annisgwyl o gofio bod y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi eu datblygu cyn ceisio cymorth y Gronfa fel y trafodwyd yn Adran 2. Fodd bynnag, gwnaeth y Gronfa hyn i ddigwydd yn gyflymach, ar raddfa fwy, ac ar adegau hi oedd prif ysgogydd cynnydd prosiectau.

- 5.26 O gofio natur 'newid calon a meddyliau' oedd i'w weld yn aml yng ngweithgareddau'r Gronfa, a'r cymhlethdodau mewn deall y gwrthffeithiol mewn cyd-destun darpariaeth gwasanaeth, nid fyddai dadansoddiad meintiol o ychwanegedd yn briodol. Yn ogystal, bydd lefelau ychwanegedd yn amrywio rhwng prosiectau ac felly byddai cyfanred y data yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan nifer o achosion unigol a allai ei ystumio. Wedi dweud hynny, mae tystiolaeth yn dangos y byddai cyfran dda o'r manteision rhyddhau arian, a'r manteision ehangach, a grëir gan brosiectau'r Gronfa heb eu cyflawni, neu fe fyddent wedi eu cyflawni'n ddiweddarach, heb y Gronfa.
- 5.27 O gofio bod nifer o'r prosiectau wedi eu datblygu cyn ceisio cymorth y Gronfa, efallai bod achos dros gyflwyno gwerthusiad cadarnach o ychwanegedd prosiectau cyn cynnig cymorth y Gronfa a/neu ddarparu lefelau is o adnodd y Gronfa i brosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gyflymu manteision presennol, yn hytrach na chreu rhai cwbl newydd.

Gwerth am Arian y Gronfa

- 5.28 Mae Gwerth am Arian yn ystyriaeth allweddol ar gyfer astudiaethau gwerthuso, oherwydd ei fod yn sefydlu'r berthynas rhwng y mewnbynnau a wnaed (gan y sector cyhoeddus) a'r enillion a sicrhawyd o ganlyniad.
- 5.29 Yn ddelfrydol, mae Gwerth am Arian yn deillio o ddadansoddiad Cost a Budd swyddogol, fodd bynnag, mae hyn yn gofyn am i'r holl fewnbynnau ac allbynnau i gael gwerth ariannol iddynt a'u prisio'n ffurfiol. O gofio'r ystod eang o weithgarwch ac allbwn y mae'r Gronfa'n ymwneud â hwy, yn amlwg nid yw hyn yn bosibl. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n arferol i symud at asesiad mwy ansoddol o Werth am Arian a asesir fel arfer drwy roi ystyriaeth dair elfen, sef:
- Darbodusrwydd: i ba raddau y mae allbynnau/canlyniadau'r prosiect wedi eu cyflawni ar y mewnbwn cost isaf (h.y. gyda'r ariannu di-fuddiant isaf posibl)
 - Effeithlonrwydd: y costau a gafwyd er mwyn cyflawni'r allbynnau/canlyniadau (gros a/neu net) (a gyflwynir yn arferol fel 'Cost fesul XX'),

- Effeithiolrwydd: i ba raddau y mae'r amcanion a ddiffiniwyd ar gyfer ymyrraeth ar y dechrau wedi eu gwireddu yn ymarferol, ac y cânt eu cynnal yn y dyfodol.

5.30 Gan edrych ar y rhain yn eu tro, yn arferol gydag ymyriadau 'lefel prosiect' megis y Gronfa, asesir **Ddarbodusrwydd** drwy adolygu sut y mae deialogau rhwng yr ymgeisydd a'r cyllidwr wedi datblygu dros amser. Rhoddir mewnwelediadau yn nodweddiadol drwy adolygu sut y mae costau cyffredinol prosiect, lefelau'r ariannu y gofynnir amdano, a lefelau allbwn yr ymrwymwyd iddo wedi newid yn natblygiad y prosiect o'r cam 'amlinellol', i 'gais ffurfiol', i 'werthusiad', ac i 'gynnig terfynol'.

5.31 O gofio'r hyn y mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio arno - ar arbedion, effeithiau ac ychwanegedd - ni adolygwyd y broses hon yn fanwl. Fodd bynnag, mae'r data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn dynodi, ar draws y chwe rownd gyntaf, bod gwerth y cynnig ar gyfer prosiectau llwyddiannus yn gyson is na'r gwerth gwreiddiol a geisiwyd: cymeradwywyd 80% o'r gwerth a geisiwyd gan brosiectau.

5.32 Mae hyn yn awgrymu bod Darbodusrwydd yng ngweithrediad y Gronfa, yn ymarferol drwy ddisgyblaethau'r prosesau cais ac asesu.

Tabl 5-2: Gwerth a geisiwyd a gwerth a gynigiwyd

	Cyfanswm a geisiwyd (£000)	Gwerth a gynigiwyd (£000)	Cynnig fel % o'r cyfanswm a geisiwyd
Rownd 1	10,011	9,971	100%
Rownd 2	23,322	16,915	73%
Rownd 3	5,114	5,115	100%
Rownd 4	6,901	3,850	56%
Rownd 5	16,177	12,777	79%
Rownd 6	5,341	6,408	120%
Rownd heb ei nodi	4,895	2,694	55%
Cyfanswm	71,761	57,730	80%

5.33 Mae hefyd yn werth nodi o safbwynt Darbodusrwydd, am Gronfa o'i maint - tua £60 miliwn erbyn ei chau - mae graddfa'r gweinyddu a'r rheoli yn ymddangos yn gymharol fach gyda thîm bach penodedig yn rheoli'r rhaglen, wedi ei gefnogi gan Banel ehangach. Rydym yn deall mai cost flynyddol cynnal y cynllun yw

tua £200 mil y flwyddyn. Yn nodweddiadol ar gyfer ymyriadau fel hyn, mae costau gweinyddol a chostau rhedeg yn cyfateb i tua 3-5% o gyfanswm cost y rhaglen. Mae £200,000 y flwyddyn yn llawer iawn is na'r trothwy hwn, ac felly mae'n rhoi tystiolaeth bellach o Ddarbodusrwydd cryf gweithrediad y Gronfa.

5.34 Mae **Effeithlonrwydd**, yn golygu asesiad o'r gost ar gyfer cyflawni allbynnau a chanlyniadau net gan yr ymyrraeth. O gofio natur y Gronfa mae hyn yn anodd i'w asesu, am ddau reswm:

- Mae'r ystod o fanteision a greir gan y Gronfa yn eang iawn ac nid oes casglid cyson o allbynnau y gellir ei gyfrifo i roi rhifiadur uwchben yr enwadur mewnbwn ariannu. Hefyd, mae llawer o'r allbynnau mewn gwirionedd yn anodd iawn i'w meintoli a'u prisio, gan gyfyngu ymhellach farn ar effeithlonrwydd.
- Fel y nodwyd uchod, unwaith eto o gofio natur y Gronfa, mae effeithiau 'net' mewn termau mesuradwy yn anodd i'w casglu, a gallant fod yn gamarweiniol.

5.35 Wedi dweud hynny, gellir gwneud dau bwynt:

- Lle mae metrigau ar gael, o ran graddfa arbedion sy'n rhyddhau arian, awgryma'r gwerthusiad bod yr enillion ar fuddsoddiad yn gadarnhaol, gyda'r Gronfa yn 'cael yn ôl' mwy nac y mae'n ei 'roi i mewn' yn ariannol mewn termau gros ac, yn ddangosol, termau net. Mae'r mater hwn yn cryfhau'r ddadl dros ddatblygu casgliad o ddangosyddion perthnasol a chymesurol i gwmpasu peth, os nad y cyfan, o feysydd polisi craidd a mathau gweithgarwch y Gronfa.
- O gofio'i ffocws ar ad-dalu, gellir yn rhesymol ddisgwyl i effeithlonrwydd y Gronfa fod yn dderbyniol, yn arbennig o gofio'r model ad-dalu a fabwysiadwyd fel y trafodwyd uchod (noder nad oedd asesu rheolaeth ariannol y Gronfa, yn cynnwys cyfraddau diffyg dalu, yn rhan o'r gwerthusiad hwn). Gan dybio ad-daliad llawn, yr unig 'gost' i Lywodraeth Cymru (ac eithrio'r 'cost' cyfle⁷) fydd o beidio codi llog ar y buddsoddiad a

⁷ Nid oedd asesu ddefnyddiau posibl eraill o'r arian a ddyrannwyd i'r Gronfa yn rhan o gylch gwaith y gwerthusiad.

chost rheolaeth y rhaglen. Yn hyn o beth mae'n debygol o fod yn ymyrraeth effeithlon.

- 5.36 Mae **Effeithiolrwydd**, yn golygu i ba raddau y mae amcanion datganedig ymyrraeth yn cael eu cyflawni drwy'r allbynnau a'r canlyniadau y mae'n eu creu. Nid dim ond maint, gwerth, nac yn wir amrywiaeth allbynnau/canlyniadau sy'n bwysig, ond mai'r canlyniadau yn wir yw'r pethau hynny y bwriadwyd iddynt gael eu cyflawni gan yr ymyrraeth yn y lle cyntaf.
- 5.37 Fel y nodir yn Adran 4, y dystiolaeth o'r gwerthusiad yw bod y Gronfa'n ymddangos fel petai'n cyflawni yn erbyn ei bwriad cyffredinol o gefnogi arbedion effeithlonrwydd a chyfrannu at wella gwasanaethu cyhoeddus. Yn ogystal, mae'r Gronfa wedi cyflawni'n glir a chyson yn erbyn blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella yn y sector cyhoeddus, gyda hwn yn faen prawf creiddiol y broses werthuso a dethol prosiectau. Felly, er bod y dystiolaeth ynglŷn ag effaith y Gronfa ar y cam hwn yn gyfyngedig – yn arbennig gan fod cymaint o'r prosiectau eto i'w cwblhau – mae'r neges gyffredinol ar Effeithiolrwydd yn galonogol.
- 5.38 Wedi dweud hynny, fel y dadleuwyd hefyd yn Adran 2 uchod, nid oes Theori Newid ffurfiol sy'n nodi'n sylfaenol y methiannau a'r amodau gwaelodol y mae'r Gronfa yn ceisio mynd i'r afael â hwy. Heb hyn, er gwaethaf y 'pethau da' y mae'r ymyrraeth yn ei wneud yn gyffredinol, a fesul achos gyda phrosiectau unigol, ni all y gwerthuswr roi asesiad uniongyrchol seiliedig ar dystiolaeth o'r graddau y mae'r Gronfa yn mynd i'r afael ag achosion gwaelodol methiant ymhlith sefydliadau sy'n rhoi'r sail resymegol ar gyfer yr ymyrraeth yn llawn.
30. Wrth symud ymlaen, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru allu adrodd yn gadarn a gyda thystiolaeth ar Effeithiolrwydd y Gronfa. Bydd datblygu Theori Newid ffurfiol yn allweddol i gyflawni hyn lle y gellir cynnal, ochr yn ochr ag uniongyrchedd y manteision a grëir (o ran arbedion ac effeithiau ehangach posibl wrth i systemau mesur perfformiad esblygu), asesiadau cadarn ynglŷn ag i ba raddau mae'r Gronfa yn mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol y mae'n ceisio ymateb iddynt. Fel y dywed Llyfr Gwyrdd y Trysorlys '*Os yw ymyrraeth yn ymddangos yn werth*

chweil, yna mae angen datgan yn glir amcanion y polisi, rhaglen neu brosiect newydd arfaethedig'.⁸

Argymhellion yr Adran

Argymhelliad 8: Dylai lleihau diffyg ychwanegedd wrth ddewis prosiectau a gwerthusiad fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen, er mwyn cael y gwerth am arian a'r enillion gorau posibl ar fuddsoddiad mewnbwn y Gronfa. Er bod ychwanegedd yn amlwg, mae'r gwerthusiad yn nodi y byddai llawer o'r gweithgarwch a gefnogir gan y Gronfa wedi digwydd beth bynnag, er yn ddiweddarach, neu ar raddfa lai. Ochr yn ochr ag Argymhelliad 2, ac Argymhelliad 9, a fydd yn chwarae rhan mewn lleihau diffyg ychwanegedd, gallai hyn gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i bob ymgeisydd prosiect gwblhau datganiad Theori Newid cryno ac wedi'i ganolbwyntio yn nodi: (i) beth sydd angen ei newid (ii) beth gaiff ei newid a (iii) sut bydd y prosiect yn peri'r newid. Dylai hyn gynorthwyo Uned a Phanel Buddsoddi i Arbed i flaenoriaethu a chefnogi dim ond y prosiectau hynny lle mae'r theori newid yn gydlynol, bod iddi dystiolaeth a'i bod yn ddilys.

⁸ Llyfr Gwyrdd y Trysorlys, gweler

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220541/green_book_complete.pdf

6 Synthesis Astudiaethau Achos

- 6.1 Mae'r adran hon yn amlinellu synthesis o astudiaethau achos prosiectau'r Gronfa. O gofio ehangder ac amrywiaeth y Gronfa ar draws y portffolio 54 prosiect, diben yr astudiaethau achos oedd galluogi'r gwerthusiad i roi adolygiad ac asesiad manylach o 'siwrneiau'r' prosiectau drwy eu profiad o'r Gronfa, er mwyn llywio adroddiad y gwerthusiad ac er mwyn darparu gwersi ar gyfer eu dysgu mewn mannau eraill. Mae'r adroddiadau astudiaethau achos wedi eu darparu'n llawn yn y ddogfen a gyhoeddir gyda'r adroddiad hwn.
- 6.2 Mae'n bwysig cydnabod bod y prosiectau a gwmpesir gan yr astudiaethau achos yn cynnwys prosiectau oedd yn mynd rhagddynt (chwech) a phrosiectau wedi'u cwblhau (pump), ac felly maent ar wahanol gamau yn eu cyflawniad a'u chynnydd. Maent hefyd yn wahanol yn eu swyddogaeth, eu ffurf a'r lefel 'llwyddiant'.

Sail resymegol a rôl ar gyfer arian Buddsoddi i Arbed

- 6.3 Y sail resymegol ar gyfer defnydd adnodd y Gronfa ar draws yr astudiaethau achos oedd galluogi'r asiantaethau sector cyhoeddus dan sylw i wella perfformiad ar raddfa fwy, yn gyflymach, yn fwy arloesol ac/neu mewn modd sydd wedi'i integreiddio'n well nag y byddent wedi gallu ei gyflawni gan ddefnyddio adnodd mewnol yn unig.
- 6.4 Roedd tri chategori sail resymegol cyffredinol ar draws y prosiectau astudiaethau achos.
- **Rhoi hwb dechreuol i fenter neu ariannu prosiect arddangos.** Er enghraifft, cefnogodd arian Buddsoddi i Arbed *Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un* y gwaith cynllunio cychwynnol oedd ei angen rhwng nifer o asiantaethau er mwyn uno rhwydwaith gymhleth a thameidiog o ganolfannau gwasanaeth cwsmeriaid. Gyda'r arian a sicrhodd prosiect ***Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG*** bod tîm prosiect penodedig yn cael ei sefydlu ar gyfer rheoli cynllun peilot blwyddyn o hyd i ddangos yr arbedion cost o ddefnyddio dull 'Cymru gyfan' ar gyfer caffael o fewn y GIG. Aeth cefnogaeth Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru i'r afael â diffyg refeniw er mwyn dechrau'r gwasanaeth, yn cynnwys y costau cysylltiedig â chyfuno'r gwasanaethau a

cholli swyddi, a chostau refeniw cynnal y gwasanaeth yn ei flwyddyn gyntaf.

- **Galluogi ehangiad a/neu ddatblygiad menter sy'n bodoli'n barod** er mwyn cynyddu graddfa a chyflymder ei effeithiau trawsnewidiol bwriedig - e.e. *Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd GIG Cymru* (a fyddai fel arall wedi bod yn llai), *Ein Gofod Caerdydd* (a fyddai wedi bod yn fwy tameidiog yn ei ffordd o resymoli eiddo) ac *Ymgyrch Wyn* (a ehangodd rôl Timau Ymateb Cymunedol er mwyn gwella gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl hŷn).
- **Lledaenu a chyflwyno arfer da a ddatblygwyd yn flaenorol neu mewn man arall.** Er enghraifft, lledaenodd *Rhaglen Gwell Adferiad Cymru Gyfan* arfer da yn genedlaethol parthed defnydd arferion Adferiad Gwell ar ôl Llawdriniaeth er mwyn gwella canlyniadau cleifion a chael arbedion mewn costau. Cyflwynodd prosiect *Powys Di-bapur* broses a oedd eisoes wedi ei phrofi ar raddfa lai er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac i ysgogi gwelliant busnes.

- 6.5 Fel y dangoswyd ar draws y boblogaeth prosiect ehangach, roedd y prosiectau astudiaethau achos yn amrywiol yn uniongyrchedd eu cysylltiadau gydag arbedion mewn arian, ac yn y graddau yr oeddent wedi eu plethu gyda mentrau eraill er mwyn gwella perfformiad gwasanaeth.
- 6.6 Roedd rhai prosiectau yn syml o ran hyn. Er enghraifft, roedd Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG a Chynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd GIG Cymru yn canolbwyntio'n unig ar sicrhau arbedion costau - i ddechrau drwy arbedion maint wrth brynu ac yna drwy leihau cyllidebau'r gweithlu. Efallai y bu manteision eraill a ragwelwyd ond prif ddiben y prosiectau hyn oedd gwneud arbedion mewn arian. Dyma oedd yr achos hefyd gyda phrosiect Ein Gofod Caerdydd lle roedd cysylltiad uniongyrchol rhwng gweithgarwch ac arbedion rhyddhau arian a lle gellid seilio ad-daliad arian Buddsoddi i Arbed ar arbedion a wireddwyd. Ar gyfer y prosiectau hyn roedd gan ymyriadau a gweithgarwch y Gronfa fodel rhesymeg clir o fewnbwn, ymlaen i weithgarwch, ac i arbedion.
- 6.7 Fodd bynnag, roedd gweithgareddau a ariannwyd gan Buddsoddi i Arbed mewn rhai prosiectau yn rhan o gyfres o fentrau i wella perfformiad

gwasanaeth ac yn yr achosion hyn bu'n anodd datgysylltu cyfraniad Buddsoddi i Arbed oddi wrth unrhyw welliannau disgwylledig mewn canlyniadau gwasanaeth ac arbedion cost (e.e. Ymgyrch Wyn a Gweithio Ystwyth). Gwnaeth hyn hi'n anoddach i ganfod cysylltiad uniongyrchol rhwng gweithgareddau a ariannwyd gan Buddsoddi i Arbed ac arbedion mewn arian - ond nid yn amhosibl. Er enghraifft, ym mhrosiect Gweithio Ystwyth defnyddiwyd ffurf ad-daladwy arian Buddsoddi i Arbed fel ysgogiad i flaenoriaethu ymdrechion i wneud y newidiadau effeithlonrwydd oedd eu hangen er mwyn adennill yr arian.

- 6.8 Mewn rhai prosiectau - yn arbennig y rheiny oedd yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd - nid oedd y cysylltiad gydag arbedion mewn arian yn glir o gwbl. Disgwyliwyd i *Raglen Gwell Adferiad Cymru Gyfan* wella canlyniadau cleifion drwy leihau cymhlethdodau wedi llawdriniaethau, llawdriniaethau yn cael eu canslo a chyfraddau ail-dderbyn a lleihau hyd arhosiad ac felly cyflawni arbedion costau mewn arian. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiad rhwng hyd arhosiad is ac arbedion mewn arian yn syml o gwbl ac mae'n anodd i'w feintoli. Roedd yr un mater yn amlwg yn *Ymgyrch Wyn* ar gyfer gwella gofal iechyd ar gyfer pobl hŷn lle ad-dalwyd arian Buddsoddi i Arbed o adnoddau corfforaethol craidd yn hytrach nag o'r arbedion a hawliwyd a oedd yn gysylltiedig â hyd arhosiad is a manteision eraill. Roedd ddisgwyl cael manteision o'r ddau brosiect hwn ar ffurf canlyniadau gwell i gleifion a gwasanaeth perfformiad, ond nid yw'n briodol cyfiawnhau arian Buddsoddi i Arbed yn bennaf ar arbedion mewn arian sy'n seiliedig ar ganlyniadau hyd arhosiad a chanlyniadau cysylltiedig, lle bo'r rhain yn anodd i'w casglu a'u hamcangyfrif.

Manteision

- 6.9 Honnwyd bod arbedion rhyddhau arian ar draws yr astudiaethau achos yn dod i gyfanswm o tua £41 miliwn wedi'i wireddu hyd yma, o gymharu â chyfanswm ariannu o tua £37 miliwn⁹ (ar gyfer prosiectau lle mae arbedion wedi eu nodi) yn cynnwys ariannu Buddsoddi i Arbed gwerth tua £22.5 miliwn. Mae disgwyl i'r arbedion mewn arian ar gyfer nifer o'r prosiectau hyn fod yn rheolaidd (fel yn

⁹ Mae hyn yn eithrio mewnbynnau 'mewn nwyddau' a pheth ariannu 'arall' nad oes amcangyfrifon ar gael ar eu cyfer hyd yma

achos yr arbedion cysylltiedig â *Chynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd Cymru*) ac nid ydynt yn cynnwys arbedion eraill (e.e. yr arbedion a ragamcannir mewn costau cynnal a derbyniadau cyfalaf disgwylidig ar gyfer prosiect *Ein Gofod Caerdydd*). Er bod yn rhaid rhoi cafeatau ar rai o'r arbedion a honnir (e.e. mae rhai yn dal yn dybiedig yn hytrach nac wedi'u gwireddu), mae'r dystiolaeth o'r astudiaethau achos yn awgrymu y bydd arbedion gros¹⁰ yn mynd y tu hwnt i gyfanswm costau'r prosiect a hynny gan swm sylweddol.

6.10 Mae manteision eraill wedi eu creu gan y prosiectau ond sydd hyd yma heb eu meintoli neu roi gwerth ariannol iddynt, fel a ganlyn:

- **Rhesymoli eiddo** (e.e. *Ein Gofod Caerdydd, Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru*): Gwelliannau amgylcheddol; gwell cysylltiadau a gweithio trawsadrannol anffurfiol; gwell amgylchedd gweithio; effeithiau dysgu ac etifeddol o ran gwell rheolaeth asedau
- **Integreiddio a chydgyssylltu darpariaeth gwasanaeth** (e.e. *Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un*): Gwell lefelau o fodlonrwydd cwsmeriaid; lefel uwch yn manteisio ar wasanaethau; lleihad gwallau o ran atgyfeirio a dyblygu; gwell rhannu gwybodaeth a gweithio amlasiantaeth
- **Cydgysylltu caffael** (e.e. *Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG*): Gwell effeithiolrwydd mewn caffael; gwell trefn lywodraethol a chydymffurfriad prosesau caffael y gwasanaeth cyfan; dileu gwallau; sefydlu fframwaith rheoli perfformiad parhaus
- **Symudedd a hyblygrwydd wedi'i alluogi gan TG** (e.e. *Gweithio Ystwyth a Powys Di-bapur*): Gwell cadw cofnodion a rheoli stoc; lleihad mewn amser teithio a chostau; ymateb cyflymach a mwy hyblyg i gwsmeriaid; mwy o dryloywder mewn llwybrau archwiliad
- **Gwell gwasanaethau ieuchyd** (e.e. *Rhaglen Gwell Adferiad Cymru Gyfan, Ymgrych Wyn ac Ad-drefnu Adsefydlu ac Ymadfer Iechyd Meddwl Mental*): Hyd arhosiad byrrach; llai o dderbyniadau i'r ysbyty a chyfraddau

¹⁰ Arbedion gros yw arbedion cyn rhoi ystyriaeth i ddi-fuddiant - h.y. arbedion a fyddai wedi eu creu heb ariannu Buddsoddi i Arbed

ail-dderbyn is; cyfraddau 'cwympiadau' is; cyfraddau cynyddol o ryddhau i fan preswyl arferol; gwell canlyniadau cleifion.

- **Cadw a gwella gwasanaethau** (e.e. *Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru, PSBA*). Cadw gwasanaeth Cymraeg, gwell gwytnwch a chyflymder seilwaith band eang gan arwain at welliant a datblygiad gwasanaeth.

6.11 Mae rhai o'r manteision hyn bod amser yn debygol o fod yn ansoddol o ran eu natur (e.e. gwell gweithio amlasiantaeth) ond gall rhai fod yn addas i feintoliad a chynnig gwerth ariannol hyd yn oed os oes yn rhaid gwneud hyn drwy briodoli gwerthoedd i'r manteision neu'r arbedion. Er enghraifft, roedd hi'n amlwg yn anodd amcangyfrif arbedion mewn arian o leihad mewn hyd arhosiad a briodolwyd i rai prosiectau. Fodd bynnag, efallai y bydd hi'n bosibl i briodoli arbedion cost o leihad mewn hyd arhosiad ac, felly, hwyluso rhoi amcangyfrif mwy cyflawn o'r enillion ar fuddsoddiad neu'r cydbwysedd cost a budd cysylltiedig â'r prosiectau dan sylw.

6.12 Lle bydd asesiad mwy cynhwysfawr o gostau a buddiannau prosiect i'w gynnal, bydd yn hanfodol i sefydlu metrigau a systemau mesur perfformiad ar ddechrau'r prosiect a sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cytuno i'r gofynion darparu gwybodaeth y bydd yn rhaid eu bodloni. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan ragfynegir prosiectau ar arbedion mewn arian a bydd yr ad-daliadau, mewn egwyddor, i'w talu ohonynt a phan fydd prosiectau yn gynlluniau peilot neu'n rhai sy'n ceisio cyflwyno arfer da a ddatblygwyd yn rhywle arall. Y dystiolaeth o'r astudiaethau achos oedd na chafodd hyn bob amser wedi ei wneud i'r graddau yr oedd ei angen. Mae hyn eto'n awgrymu y byddai darparu mwy o ganllawiau ac eglurder ar gyfer prosiectau ynglŷn â'r mathau o fanteision i'w creu o fuddsoddiad y Gronfa yn werth chweil.

Ychwanegedd

6.13 Dangosodd yr ystyriaeth gynharach o'r sail resymegol ar gyfer arian Buddsoddi i Arbed ar draws yr astudiaethau achos (ac yn wir y portffolio prosiectau ehangach) ei bod wedi ei defnyddio'n bennaf i gynyddu graddfa, cyflymder a natur arloesol/integredig y prosiectau. Cadarnhawyd hyn gan yr asesiad ychwanegedd a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaethau achos.

6.14 Mewn rhai achosion gellid cymryd effaith graddfa'r ariannu ar allbynnau a chanlyniadau i fod yn gymesur fras i'r cynnydd mewn gwariant a gynrychiolwyd gan yr arian Buddsoddi i Arbed ychwanegol. Byddai'n rhesymol i ddweud yn achos *Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd GIG Cymru* na fyddai tua 60% (cyfran cyfanswm yr ariannu a gynrychiolir gan Buddsoddi i Arbed) o'r arbedion cost wedi eu sicrhau heb gymorth Cronfa Buddsoddi i Arbed. Felly, byddai cymhareb gadarnhaol arbedion i lefelau ariannu wedi bod yn eithaf tebyg heb ariannu Buddsoddi i Arbed ond ar lefel llawer is o arbedion.

6.15 Mewn achosion eraill roedd effaith maint yn debygol o fod yn anghymesur uwch nag a gynrychiolwyd gan y cynnydd mewn ariannu drwy Buddsoddi i Arbed – h.y. roedd arbedion maint. Mae enghreifftiau o'r astudiaethau achos yn cynnwys:

- *Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG*: Heb arian Buddsoddi i Arbed y canlyniad fyddai prosiect ar raddfa lai, wedi ei ysgogi gan yr agenda 'gwasanaethau a rennir' ehangach. O weithredu ar y raddfa lai hon, byddai'r arbedion a'r manteision cysylltiedig wedi bod yn llai sylweddol ac wedi bod yn arafach yn cael eu sylweddoli. Yn hollbwysig, efallai y byddai'r prosiect wedi cyflwyno achos llai cymhellol i Gyfarwyddwyr Cyllid wrth iddynt ystyried buddsoddi ym mharhad y prosiect a'i fabwysïadau'n ehangach.
- *Ein Gofod Caerdydd*: Byddai rhesymoli swyddfeydd wedi digwydd mewn modd mwy tameidiog, ymatebol yn hytrach nac integredig, a byddai wedi digwydd yn ddiweddarach, ac efallai ddim o gwbl – chwaraeodd Buddsoddi i Arbed rôl ysgogi allweddol yn uchelgais y broses.
- *Powys Di-bapur*: Byddai diffyg adnodd mewnol wedi golygu rhaglen lai a fyddai wedi bod yn annhebygol o fod wedi rhoi manteision yr ateb corfforaethol ac adnodd rheoli penodedig a wnaed yn bosibl gydag arian Buddsoddi i Arbed.

6.16 Roedd ychwanegedd allbynnau a chanlyniadau o brosiectau a ariannwyd gan Buddsoddi i Arbed yn debygol o fod uchaf lle roeddent yn cynnwys arloesedd a risgiau sylweddol. Mae *Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un* yn enghraifft o hyn. Roedd y partneriaid a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect hwn yn ystyried

arian Buddsoddi i Arbed yn hollbwysig er mwyn goresgyn rhwystrau i'r buddsoddiad ar y cyd oedd ei angen arno h.y. lle nad oedd un sefydliad yn gallu (neu'n barod i) chwarae rôl y cyllidwr craidd, o gofio risgiau annatod datgysylltiad partneriaid a/neu rwystrau ymarferol i rannu/cydgrynhoi adnoddau.

Beth weithiodd yn dda . . . beth allai fod wedi gweithio'n well

6.17 Mae profiad y prosiectau astudiaethau achos yn awgrymu'n gryf dair ffactor hollbwysig mewn sicrhau llwyddiant - pob un yn atgyfnerthu'r lleill wrth nodi, lliniaru a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau graddfa fwy a phrosiectau arbennig o arloesol:

- **Cydberthynas o ymddiriedaeth rhwng partneriaid allweddol wedi ei gwreiddio mewn ymchwil a chynllunio prosiect cadarn:** er enghraifft
 - *Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG:* Mabwysiadau cynllunio cadarn, wedi ei danategu gan ymchwil yn ystod y broses gynllunio ac ymgysylltiad eang a chynnar gyda rhanddeiliaid
 - *Powys Di-bapur:* Datblygiad cynllun gwireddu manteision i nodi beth fydd yn cael ei gyflawni, pryd a sut - gydag enillion cyflym yn cael ei hamserlennu er mwyn dangos manteision i staff
- **Ymgysylltiad eang a manwl gyda rhanddeiliaid:** er enghraifft
 - *Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un:* Defnydd dull mapio proses manwl, ail-drefnu proses fusnes a chynllunio trawsnewid drwy ymgynghoriad eang ac ymgysylltiad â chwsmeriaid, staff ac undebau, a rhanddeiliaid
 - *Ein Gofod Caerdydd:* Lliniaru risgiau drwy ymarferiad ymgysylltu eang a defnyddio cynlluniau peilot, wedi eu cyflwyno drwy broses a gynlluniwyd a phroses raddol gydag ymchwil a cham cynllunio manwl; ac ymgysylltu â staff o ystod eang o ddisgyblaethau
- **Recriwtio tîm rheoli pwrpasol:** er enghraifft

- *Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG*: Recriwtio tîm prosiect galluog a phrofiadol wedi eu dewis o, ac yn gysylltiedig â'r, system gaffael bresennol
- *Prosiect Ad-drefnu Adsefydlu ac Ymadfer Iechyd Meddwl Mental*: Sefydlu tîm a all drosglwyddo arian o wahanol gyllidebau a mabwysiadu dull systemau cyfan

6.18 Mae elfennau'r prosiectau na wnaeth wneud cynnydd cystal ag y gobeithiwyd yn dangos yr angen i'r ffactorau hollbwysig a nodwyd uchod fod ar waith. Er enghraifft, awgrymodd yr adroddiad astudiaeth achos Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un y gallai fod wedi elwa o gael deialog hyd yn oed mwy strwythuredig gyda phartneriaid ar y dechrau, gyda materion hollbwysig yn ymwneud â'r paramedrau cyfreithiol y byddai'n rhaid i bob partner weithredu yn cael eu trin yn fwy manwl.

6.19 Nodwyd yn achos Ymgyrch Wyn bod peth tensiwn rhwng partneriaid ynglŷn â phwy fyddai'n ad-dalu'r arian Buddsoddi i Arbed, a sut – o gofio nad oedd proses glir wedi ei chytuno ar y dechrau ar gyfer casglu ac amcangyfrif yr arbedion.

6.20 Roedd y mater olaf hwn – y methiant i ddatblygu metrigau a system perfformiad digonol ar y dechrau – yn cael ei ailadrodd ar draws nifer o'r prosiectau astudiaeth achos. Yn gyffredinol roedd diffyg sylw i sefydlu gwaelodlinau a monitro canlyniadau er mwyn rhoi asesiad cadarn 'ex post' o gostau a manteision prosiectau.

Dysgu Gwersi o Astudiaethau Achos

6.21 Roedd y gwersi a awgrymwyd gan y prosiectau astudiaeth achos ar gyfer cynllunio a chyflawni prosiectau tebyg yn y dyfodol yn cyfateb i'r elfennau hynny o'r prosiectau a weithiodd yn dda - yn y bôn mewn rheoli risg.

6.22 Mae pum pwynt dysgu bras yn deillio o brofiad y prosiectau astudiaeth achos:

- Sicrhau ymrwymiad lefel uwch i'r prosiect a pherchnogaeth ohono ymhlith partneriaid drwy ymgysylltiad eang/manwl gyda phartneriaid

- Rheoli disgwyliadau – a darparu cefnogaeth ar gyfer – yr aelodau staff hynny y mae disgwyl iddynt ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a staff nad sy'n gysylltiedig â'r prosiect ond y gellir effeithio arnynt
- Sefydlu a chytuno ar fetrigau a systemau mesur perfformiad o'r dechrau - yn arbennig o ran arbedion mewn arian uniongyrchol lle mai'r rhain fydd y ffynhonnell ar gyfer ad-dalu
- Lleihau risg drwy ddull fesul cam a chynllunio wrth gefn gydag ymchwil a cham cyntaf cynllunio cadarn
- Mabwysiadu dull systemau cyfan – lle bo hynny'n bosibl drwy dîm rheoli dynodedig gyda phwerau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n dda.

Negeseuon o'r prosiectau cymharol

6.23 Yn ychwanegol at yr astudiaethau achos o brosiectau'r Gronfa, cynhaliwyd ymchwil gyda phedwar prosiect nas cefnogwyd gan y Gronfa, dau brosiect 'aflwyddiannus' a wnaeth gais i'r Gronfa, a dau brosiect 'allanol' a oedd yn gwneud pethau tebyg ond a gafodd eu hariannu drwy ddulliau eraill (mewn un achos Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ac mewn un achos drwy adnodd mewnol). Cyflwynir y prosiectau hyn yn y blwch isod.

Math	Trosolwg o'r prosiect
<i>Prosiectau aflwyddiannus</i>	Prosiect A (<i>Moderneiddio Ystâd Cadwraeth Heddlu De Cymru</i>): roedd hwn yn ymwneud â rhesymoli wedi'i gynllunio o ystâd cadwraeth yr heddlu, gan symud o nifer o gyfleusterau ar wahân i bedair canolfan gadwraeth gadarn benodedig. Roedd y prosiect yn seiliedig ar agenda hirsefydledig a ysgogwyd gan ystâd gadwraeth a oedd yn dirywio ac yn aneffeithlon. Roedd y cais i Buddsoddi i Arbed yn canolbwyntio ar gyfleusterau gwarchodaeth a fyddai'n cael eu hadeiladu o'r newydd. Prosiect B (<i>Gwella Ansawdd ac Effeithlonrwydd Iechyd Plant a Mamolaeth Cymunedol ym Mhowys</i>): roedd hwn yn ymwneud â buddsoddiad oedd wedi'i gynllunio mewn gallu clinigol a rheoli perfformiad y bwrdd iechyd a oedd ei angen er mwyn lleihau atgyfeiriadau pediatriig dewisol arferol gan y bwrdd iechyd i wasanaethau tu allan i'r ardal. Ysgogwyd y prosiect gan gynllun strategol y sefydliad ar gyfer effeithlonrwydd, gyda dyhead 4-5 mlynedd yn deillio'n ôl i gyfnod cyn cais Buddsoddi i Arbed. Roedd y cais i Buddsoddi i Arbed yn ceisio arian i sefydlu tîm prosiect penodedig i gefnogi meddygon teulu i atgyfeirio cleifion i gyfleusterau lleol.
<i>Prosiectau allanol</i>	Prosiect C (<i>Adolygiad Asedau Sir Gâr</i>): roedd hwn yn ymwneud â


	chefnogaeth ar gyfer adolygu asedau'r Awdurdod Lleol, ac asedau asiantaethau partner, ar draws Rhanbarth yr Awdurdod Lleol. Ymatebodd y prosiect i ymgyrch ar lefel genedlaethol ar gyfer gwell rheolaeth asedau, a'r angen lleol i hybu effeithlonrwydd a gwell defnydd ar adnoddau. Ariannwyd y prosiect gan yr Awdurdod Lleol. Prosiect D (Consortiwm Teleofal a Thai Gofal Ychwanegol <i>De Ddwyrain Cymru</i>): roedd hwn yn ymwneud â chefnogaeth barhaus ar gyfer gwell cydweithrediad rhanbarthol mewn darparu gwasanaethau teleofal a llety ychwanegol Datblygwyd y prosiect drwy gydweithrediad rhanbarthol oedd yn bodoli eisoes, gyda theleofal a llety ychwanegol wedi eu nodi fel meysydd lle gellid sicrhau gwell gwasanaeth ac effeithlonrwydd. Ariannwyd y prosiect drwy grant gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
--	---

6.24 Ceir manylion pellach am y prosiectau yn y ddogfen astudiaethau achos a gyhoeddir gyda'r Adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae nifer o negeseuon cyffredinol i'w gweld o'r elfen hon o waith ymchwil y gwerthusiad:

- Nid yw egwyddor "buddsoddi i arbed" er yn cael ei phwysleisio gan y Gronfa yn unigryw o gwbl, ac er bod y prosiectau cymharol yn cael eu hariannu drwy ddulliau nad oedd yn ad-daladwy, roedd cysyniad mwy cyffredinol "buddsoddi i arbed" yn parhau i fod yn ddilysnod ar gyfer gweithgarwch ar draws y ddau brosiect a oedd yn aflwyddiannus a'r rhai nad oedd yn ymwneud â'r Gronfa yn benodol - gydag adnoddau yn mynd yn gynyddol dynn, mae cael mwy i gefnogi cysyniad buddsoddi i arbed yn bwysig
- Amlygodd y ddau brosiect 'allanol' bwysigrwydd gallu ac adnoddau i weithredu gweithgareddau gwella a newid gwasanaeth. Roedd y ddau brosiect yn ymwneud â chefnogi staff, sy'n gyson â'r negeseuon a gafwyd o astudiaethau achos y Gronfa ynglŷn â phwysigrwydd rheolwyr a tîm cyflenwi penodedig – fel y nodwyd gan un o'r ymgynghoreion pan y'i holwyd am y gwersi allweddol a ddysgwyd o'r prosiect '*Adnodd penodedig yw'r allwedd, cael y gallu "i'w wneud"*'. Fel cyferbyniad, ar gyfer un o'r prosiectau 'aflwyddiannus' roedd diffyg adnodd y Gronfa yn golygu na ellid sefydlu tîm penodedig, a arweiniodd at oedi a lleihad mewn maint (a manteision posibl) y prosiect.
- Pwysigrwydd cynllunio a chaniatáu digon o amser ar gyfer ymchwil a gwaith cwmpasu cychwynnol, gan gynorthwyo i leihau risg o'r dechrau -

roedd y mater hwn yn amlwg ar gyfer y ddau brosiect ‘allanol’ gyda’r ddau ohonynt yn ymwneud â gwaith sylweddol ar gynllunio rhagblaen ac amser ymchwil, sy’n gyson â’r dulliau a ddefnyddiwyd gan brosiectau tebyg y Gronfa, er enghraifft prosiect Buddsoddi i Arbed Ein Gofod Caerdydd gyda chyfeiriad at brosiect allanol Adolygiad Asedau Sir Gâr, a phrosiect Buddsoddi i Arbed Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru gyda chyfeiriad at elfen teleofal prosiect allanol Consortiwm Gwella De Ddwyrain Cymru. Adlewyrchir hyn yng nghrynodeb siwrneiau prosiect y pedwar prosiect yma (dau wedi’u cefnogi gan y Gronfa a dau brosiect allanol sy’n cyfateb) a nodir isod.

Ffigur 6-1: Siwrneiau prosiectau Buddsoddi i Arbed a phrosiectau allanol



Rhanbarthli gwasanethau teleofal

Buddsoddi i Arbed - Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru

Cefndir ac ysgogwyr

- Aneffeithlonrwydd gwasanaeth teleofal ar draws y rhanbarth wedi ei ddarparu mewn nifer o leoliadau, angen ei gyfuno
- Angen gwella a datblygu'r gwasanaeth a gynigir, yn cynnwys cadw ac ehangu'r gwasanaeth Cymraeg
- Ffocws hir sefydledig ar ranbartholi darpariaeth gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella'r dull o'i gyflenwi



Gweithrediad

- Dim digon o adnoddau mewnol i ariannu'r gweithgarwch, gan arwain at gais llwyddiannus i Gronfa Buddsoddi i Arbed
- Asesiad manwl o'r achos busnes gan arwain at gyflawni'r prosiect, yn cynnwys cyfuno canolfannau teleofal mewn dau leoliad yn gwasanaethu'r rhanbarth



Manteision

- Arbedion rhyddhau arian yn cael eu creu a'u meintoli ochr yn ochr â manteision nad sy'n rhyddhau arian drwy well cynhyrchiant mewn darpariaeth gwasanaeth
- Natur y manteision ehangach a grëwyd
 - gweithio mewn partneriaeth agosach o fewn a rhwng asiantaethau lleol
 - gwelliannau i brosesau, yn cynnwys fframwaith sicrwydd ansawdd a threfniadau trefn lywodraethol er mwyn sicrhau cysondeb gwasanaethau ar draws y rhanbarth
 - diogelu ar gyfer y dyfodol a gwell cynaliadwydd y gwasanaeth teleofal a ddarperir yn cynnwys gallu VoIP

Dim Buddsoddi i Arbed – Teleofal De Ddwyrain Cymru

Cefndir ac ysgogwyr

- Ysgogwr i wella cysondeb y gwasanaeth teleofal a gynigir, yn cynnwys mynd i'r afael â methiannau cydgyssylltu, a manteisio ar botensial technoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg
- Angen hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd, yn cynnwys arbedion maint drwy gaffael a chomisiynu
- Ffocws hir sefydledig ar ranbartholi darpariaeth gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella'r dull o'i gyflenwi



Gweithrediad

- Dim digon o adnoddau mewnol i ariannu'r gweithgarwch, gan arwain at gais llwyddiannus am arian (ESF)
- Asesiad manwl o'r achos busnes ar gyfer cyfuno gwasanaethau teleofal – penderfyniad yn methu cael ei wneud yn ymarferol
- Ail-ganolbwyntio'r ffocws ar gapasiti a chefnogaeth partneriaeth



Manteision

- Arbedion rhyddhau arian ac arbedion nad sy'n rhyddhau arian heb eu cyflawni hyd yma
- Enghreifftiau o welliant gwasanaeth drwy well cydweithio, gyda'r potensial i gyflawni arbedion hirdymor
- Natur y manteision ehangach a grëwyd
 - gwell gweithio mewn partneriaeth yn galluogi partneriaid i rannu problemau, heriau ac arfer da
 - datblygu proses sy'n cael ei chydabod ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau a heriau darpariaeth gwasanaeth
 - datblygu offer a deunyddiau i lywio'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaeth

Argymhellion yr Adran

Argymhelliad 9: Ochr yn ochr â datblygiad datganiad ROAMEF y Gronfa, dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu a chynnwys datganiad model rhesymeg syml mewn Ceisiadau Prosiect ac wrth Fonitro i alluogi prosiectau i gasglu'n llawn, ac i staff gwerthuso a'r Uned Buddsoddi i Arbed brofi'n glir, y cysylltiadau rhwng amcanion, mewnbynnau, gweithgareddau, arbedion a chanlyniadau ehangach prosiectau.

7 Ystyriaethau o brofiad blaenorol gweithgarwch Buddsoddi i Arbed

- 7.1 Mae'r adran hon yr adroddiad yn adolygu'r canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn yng nghyd-destun tystiolaeth flaenorol o'r gwerthusiadau ac adolygiad y Swyddfa Archwilio Gwladol (NAO) o Gyllideb Buddsoddi i Arbed (ISB) Trysorlys y DU yn 2002.¹¹ Mae'n bwysig nodi bod gwahaniaethau rhwng y Gronfa a'r ISB ond hefyd ddigon o nodweddion cyffredin i'w gwneud hi'n briodol ac ymarferol i ystyried cysondeb y dystiolaeth ar eu cyflawniadau a meysydd ar gyfer gwella.
- 7.2 Gofynnodd Llywodraeth Cymru yn benodol i'r gymhariaeth hon fod yn ymwybodol o fanteision y dull 'buddsoddi i arbed' y gellid eu cryfhau ac i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau sylfaenol.
- 7.3 Mae'r adran hon hefyd yn adolygu canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yng ngoleuni canfyddiadau (perthnasol) gwerthusiad interim cynharach ac adolygiad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Gronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru¹².

Cyllideb Buddsoddi i Arbed Trysorlys EM

- 7.4 Sefydlwyd y Gyllideb Buddsoddi i Arbed (ISB) ym 1998 i greu 'cronfa gyfalaf menter' ar gyfer darpariaeth gwasanaeth sector cyhoeddus gyda phwyslais ar arloesedd, effeithlonrwydd a gweithio mewn partneriaeth. Rheolwyd yr ISB gan Drysorlys EM gyda noddwyr adrannol llywodraeth ganolog er mwyn creu gwelliannau cynaliadwy yn y gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.
- 7.5 Mae'n bwysig nodi mai prif egwyddor yr ISB oedd bod buddsoddiad i'w ddarparu yn gyfnewid am ddiwygio. Roedd yn ymwneud yn bennaf â hybu darpariaeth gwasanaeth cydgysylltiedig, creu cynghreiriau newydd, creu partneriaethau a hybu arloesedd drwy rannu'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â

¹¹ SQW a MORI ar gyfer Trysorlys EM, *Programme Evaluation of the Invest to Save Budget*, 2002 (SQW 2002) a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *The Invest to Save Budget*, 2002 (NAO 2002)

¹² Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR) ar gyfer Llywodraeth Cymru, *Cronfa Buddsoddi i Arbed: Gwerthusiad Interim*, 2012 (GSR 2012) a Phwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Buddsoddi i Arbed*, 2013 (NA 2013).

dulliau darparu newydd. *Ni* chafodd ei chynllunio'n benodol i greu arbedion mewn arian ac enillion effeithlonrwydd, er bod ei henw'n awgrymu y byddai hyn yn ddisgwyliedig gan rai o'r diwygiadau i ddarpariaeth gwasanaeth.

- 7.6 Darparu uchafswm o 75% yn unig o gyfanswm costau cam cychwynnol prosiectau oedd bwriad yr ISB ac yna, os byddent yn llwyddiannus, eu cyflwyno'n fwy cyffredinol a/neu eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio mecanweithiau darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.
- 7.7 Rhwng 1998 a 2006, buddsoddodd yr ISB dros £450 miliwn yn y DU gyda phrosiectau yn amrywio o ychydig filoedd i ychydig filiynau o bunnoedd ar draws ystod amrywiol o feysydd polisi. Fodd bynnag, cafodd ei hail-frandio yn 2004 i ganolbwyntio ar rôl y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau lleol. Cafodd yr ISB ei chau ar ddiwedd 2009/10 wrth i ragor o fentrau polisi cyffredinol gael eu cynllunio gan y Swyddfa ar gyfer Cymdeithas Sifil i hyrwyddo rôl y trydydd sector mewn datblygu cymunedol.
- 7.8 Gwerthuswyd prosiectau o rowndiau cynnar yr ISB gan SQW yn 2000 a 2002, gyda chanfyddiadau'r gwaith hwn ynghyd â'r dystiolaeth a gasglwyd gan yr NAO ar gyfer ei hadolygiad o'r cynllun yn cael eu cyhoeddi yn 2002. Nid oes rhagor o werthusiadau mwy diweddar yn ymdrin â blynyddoedd olaf rhaglen yr ISB wedi eu cynnal.

Gwerthusiad/adolygiad blaenorol y Gronfa Buddsoddi i Arbed

- 7.9 Mae gwerthusiad cyfredol y Gronfa wedi ei lywio'n glir gan ganfyddiadau'r Gwerthusiad Interim mewnol a'r adolygiad gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae'n tynnu ar wahanol dystiolaeth o bortffolio'r Gronfa sy'n cynnwys mwy o brosiectau sydd wedi eu cwblhau neu ar gamau olaf eu datblygiad. Felly, mae'r adran hon yn manteisio ar y cyfle i gymharu casgliadau'r gwerthusiad cyfredol gydag asesiadau blaenorol o'r Gronfa, yn ogystal ag asesiad yr ISB.

Cymharu'r canfyddiadau allweddol

- 7.10 Caiff y canfyddiadau o'r tair set o werthusiadau/adolygiadau eu cymharu yn y tabl canlynol yn erbyn pum agwedd allweddol o'r ISB a'r Gronfa – sef:

- Seiliau rhesymegol a nodweddion y prosiect

- Arbedion a grëwyd
- Effaith y prosiect, yn arbennig o ran gwelliannau a gynhaliwyd a gwelliannau ehangach mewn darpariaeth gwasanaeth
- Ychwanegedd a Gwerth am Arian y rhaglenni
- Rheoli perfformiad.

7.11 Mae'r crynodeb yn canolbwyntio ar natur a hyd a lled negeseuon cyffredin a allai gynorthwyo i lywio penderfyniadau parhaus ar ddarpariaeth a pholisi – yn amodol ar gydnabod nad oedd y rhaglenni a'r cyd-destunau yr un mewn rhai agweddau hollbwysig (yn arbennig ffocws yr ISB ar ddiwygio yn hytrach nag arbedion mewn arian a'i diffyg gofyniad i ad-dalu).

Tabl 7.1: Cymharu a chyferbynnu negeseuon gwerthusiad gweithgarwch “buddsoddi i arbed”

	Tystiolaeth o werthusiadau SQW ac adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) o'r Gyllideb Buddsoddi i Arbed (ISB 1998-2009)	Tystiolaeth flaenorol o'r Gwerthusiad Interim ac adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol (CC) o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed (I2S)	Tystiolaeth o werthusiad cyfredol y Gronfa Buddsoddi i Arbed (I2S)
Seiliau rhesymegol a nodweddion y prosiect	Ar y cyfan bodlonodd yr ISB yr angen am gyllideb cyfalaf menter i hwyluso prosiectau cydweithredu a risg uwch er mwyn gwella gwasanaethau sector cyhoeddus (SQW 2002). Roedd prosiectau ISB yn amrywio'n sylweddol o ran maint (20% o dan £100 mil a 15% dros £1 miliwn) ac o ran maes polisi (e.e. rhoddodd 23% fynediad haws at wasanaethau, roedd 20% ym maes gofal iechyd ac roedd 6% yn canolbwyntio ar gyflogaeth a hyfforddiant) (SQW 2002). Roedd hyd a lled yr arloesedd hefyd yn amrywio. Roedd nifer o'r prosiectau yn fwy prif ffrwd nac arloesol ac roedd pryder nad oedd digon o brosiectau o ansawdd da wedi eu cynnig gyda lefelau uchel o arian wedi ei gario ymlaen i flynyddoedd dilynol (NAO 2002).	Aseswyd bod I2S yn llwyddiannus o ran cefnogi prosiectau gwella gwasanaeth cyhoeddus drwy well cydweithredu ar draws ffiniau gweinyddol/ asiantaethau (GSR 2012). Mae portffolio'r I2S wedi ei ddylanwadu'n drwm gan brosiectau GIG a llywodraeth leol. Roedd angen mwy o weithredu er mwyn sicrhau bod sectorau a oedd wedi eu tangynrychioli yn ymwybodol o'r cynllun ac yn manteisio arno (CC 2013). Roedd casgliadau yn gwahaniaethu rhwng GSR 2012 a CC 2013 ynglŷn â'r angen am rowndiau cais yn seiliedig ar 'themâu' ac ynglŷn â'r lefel trothwy isaf ar gyfer prosiectau I2S.	Teimlwyd bod y sail resymegol ar gyfer I2S yn gadarn a bod ei phrosiectau ar y cyfan wedi eu seilio ar sail resymegol gadarn. Fodd bynnag, gallai'r achos dros brosiectau penodol fod wedi'i ganolbwyntio fwy ar 'pam' fod angen I2S er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o 'beth oedd yn gweithio, yn lle a phryd' ac felly galluogi lledaenu arfer da. Roedd y portffolio yn amrywiol iawn o ran maint prosiectau. Roedd yn dal wedi ei ddylanwadu'n drwm gan brosiectau GIG ond fel arall roedd yn fwy amrywiol nac a adroddwyd yn flaenorol. Roedd prosiectau ar y cyfan – er nad yn llwyr – yn rhai risg is a llai arloesol nag a fyddai wedi ei ddisgwyl pe bai I2S wedi ceisio profi mathau newydd o ddarpariaeth gwasanaeth.
Arbedion	Nid oedd arbedion rhyddhau arian yn amcan penodol i'r ISB ac ni wnaed unrhyw amcangyfrifon o'r arbedion a gyflawnwyd (er y rhoddwyd amcangyfrif cyffredinol o'r gymhareb cost a budd). Dim ond traean o'r prosiectau oedd wedi ceisio cyflawni enillion effeithlonrwydd. Roedd llai nac un ym mhob pump yn	Roedd hi'n rhy gynnar i roi asesiad cyffredinol ynglŷn ag arbedion cost, ond nid oedd tystiolaeth na fyddai'r arbedion cost disgwylidig yn digwydd (GSR 2012). Gwelwyd bod prosiectau yn ad-dalu eu buddsoddiadau buddsoddi i arbed ac mae'r gronfa I2S nawr yn cael ei hailgylchu i ariannu prosiectau newydd (CC 2013).	Crëwyd manteision rhyddhau arian gan 15 o'r 23 prosiect oedd wedi'u cwblhau a gynhwyswyd yn y gwerthusiad - gan ddod i gyfanswm o £55 miliwn erbyn 2012/13 a disgwylir £49 miliwn pellach erbyn 2016/17. Efallai bod yr arbedion hyn wedi eu tanamcangyfrif oherwydd ansicrwydd mewn rhai achosion ynglŷn ag i ba raddau yr

	Tystiolaeth o werthusiadau SQW ac adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) o'r Gyllideb Buddsoddi i Arbed (ISB 1998-2009)	Tystiolaeth flaenorol o'r Gwerthusiad Interim ac adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol (CC) o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed (I2S)	Tystiolaeth o werthusiad cyfredol y Gronfa Buddsoddi i Arbed (I2S)
	bwriadu cyflawni amseroedd ymateb cyflymach, lleihau costau cyflenwi neu ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn mae dinasyddion am gael gan wasanaethau cyhoeddus (NAO 2002).		oeddent yn rheolaidd ac yn debygol o barhau. Byddant wedi eu goramcangyfrif fel arbedion net oherwydd nid ydynt yn caniatáu ar gyfer dim ychwanegedd - gweler isod.
Effeithiau	Fe wnaeth yr ISB feithrin mwy o gydweithio rhwng sefydliadau sector cyhoeddus ar lefel leol. Ond roedd llai o dystiolaeth o arloesedd sylweddol ac effaith ar welliannau gwasanaeth diriaethol, yn rhannol oherwydd bod nifer o brosiectau yn dal i fod yn eu camau cynnar. Dros gyfnod tair rownd gyntaf yr ISB cynyddodd canran y prosiectau a adroddwyd fel rhai a fyddai'n debygol o gael eu cynnal a/neu eu mabwysiadu'n fwy eang o 42 i 60 y cant. Er gwaethaf hynny ystyriwyd bod angen ffyrdd mwy datblygedig o rannu'r manteision a'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau ISB fel bod ystod ehangach o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol ohonynt ac yn cael eu hannog i'w mabwysiadu (NAO 2002).	Ar y cyfan roedd rheolwyr prosiect I2S yn adrodd bod y gwelliannau gwasanaeth a gyflawnwyd yn cyfateb i, neu yn fwy nag a ddisgwyliwyd a bod eu manteision yn fwy na'r costau. Yn gyffredinol galluogodd I2S i brosiectau a gynlluniwyd i gael cychwyn da yn hytrach nag ysgogi syniadau ar gyfer prosiectau newydd (GSR 2012). Roedd angen gwneud mwy i hyrwyddo astudiaethau achos, annog sefydliadau i efelychu cynlluniau llwyddiannus, ac i hyrwyddo buddsoddi i arbed. Roedd CC 2013 fel petai'n cefnogi casgliad Swyddfa Archwilio Cymru, sef ar y cyfan nad oedd y rhwydweithiau y mae eu hangen ar gyfer dysgu a rennir o'r fath wedi eu sefydlu, er bod rhai cymunedau maes eto i ystyried a throsglwyddo arfer da.	Creodd I2S ystod o fanteision mesuradwy ac anfesuradwy. Er bod y gwelliannau mewn gwasanaeth ddim i'w gweld hyd yma fel gwell canlyniadau, mae'r darlun cyffredinol yn un calonogol. Ar y cyfan mae wedi cyflawni newid 'cynyddraddol' yn hytrach na sylweddol o ran darpariaeth gwasanaeth a chanlyniadau. Gwelwyd mai cymysg o ran eu hansawdd oedd y prosesau ar gyfer dysgu a lledaenu arfer da a ddatblygwyd gan I2S. Ar y cyfan mae perygl na chaiff arferion o'r fath eu cynnal a'u gwreiddio i'r graddau y gellid bod wedi ei ddisgwyl gan y Gronfa.
Ychwanegedd a Gwerth am Arian	Barnwyd bod ychwanegedd yn uchel (SQW 2002) - ystyriwyd ei bod yn debygol na fyddai 40% o'r prosiectau wedi mynd rhagddynt o gwbl heb arian ISB. Roedd	Roedd ychwanegedd yn anodd i'w asesu ond credir ei fod yn uchel mewn termau absoliwt (yn arbennig ar gyfer prosiectau mwy) neu o ran maint neu gyflymder (GSR	Ar y cyfan byddai gweithgarwch prosiect wedi mynd rhagddo mewn rhyw ffurf heb I2S gan fod y rhan fwyaf o brosiectau wedi eu datblygu cyn ceisio cymorth. Fodd bynnag,

	Tystiolaeth o werthusiadau SQW ac adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) o'r Gyllideb Buddsoddi i Arbed (ISB 1998-2009)	Tystiolaeth flaenorol o'r Gwerthusiad Interim ac adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol (CC) o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed (I2S)	Tystiolaeth o werthusiad cyfredol y Gronfa Buddsoddi i Arbed (I2S)
	prosiectau a ddatblygwyd yn flaenorol yn llai tebygol i fod ag ychwanegedd llawn. Er y barnwyd bod gwerth am arian hefyd yn uchel (SQW 2002), roedd meintoliad allbynnau, canlyniadau a chymarebau cost a budd yn brin. Ar gyfartaledd, amcangyfrifwyd bod y gymhareb cost a budd disgwylidig yn tua 2:1 (NAO 2002).	2012). Roedd ariannu amgen yn llai tebygol ar gyfer y GIG ac felly roedd I2S yn fwy tebygol i fod yn allweddol fel ffynhonnell ariannu ar gyfer prosiectau'r GIG. Fodd bynnag, daeth CC 2013 i'r casgliad y dylai cynllun I2S ond cael ei ddefnyddio pan fo tystiolaeth gadarn o arbedion o'r buddsoddiad nid dim ond lle mae angen ariannu ychwanegol.	gwnaeth I2S hyn i ddigwydd yn gyflymach a/neu ar raddfa fwy, ac ar adegau dyma oedd yr ysgogwr craidd. Aseswyd bod darbodusrwydd ac effeithiolrwydd I2S yn uchel. Mae'r cymarebau arbedion mewn arian gros i ariannu I2S o 2.7:1 (prosiectau wedi'u cwblhau) ac 1.7:1 (prosiectau sy'n mynd rhagddynt) yn awgrymu bod I2S wedi ei gyflawni'n effeithlon.
Rheoli perfformiad	Daeth NAO 2002 i'r casgliad: • Byddai'r siawns o hyrwyddo arloesedd llwyddiannus yn debygol o gynyddu pe bai'r ISB yn targedu nifer llai o feysydd allweddol a fyddai'n fwyaf tebygol o elwa o arloesedd. • Nid oedd gwersi ynglŷn â rheolaeth yr ISB wedi eu dysgu'n llwyr, megis yr angen i bawb a oedd yn gysylltiedig â phrosiect i gael yr un amcanion cytunedig. • Roedd angen i reolwyr adrannol chwarae mwy o ran mewn adolygu cynnydd prosiectau ISB, gan asesu beth sydd neu sydd ddim yn cyfrannu i lwyddiant ac ystyried cynaliadwyedd manteision prosiect.	Daeth CC 2013 i'r casgliad: • Dim wedi'i argyhoeddi ynglŷn â rowndiau cais seiliedig ar themâu ac yn argymhell eu bod yn cefnogi'r ceisiadau gorau, waeth beth fo'r cynnwys • Dylai'r trothwy gael ei ddychwelyd i £100,000 fel na fyddai prosiectau gyda'r potensial ar gyfer arbedion sylweddol yn cael eu colli i'r system • Roedd y prosiectau I2S gorau yn dangos cysylltiad clir rhwng y buddsoddiad a wnaed a'r arbedion a grewyd a dylai'r drefn rheoli fod wedi ei chynllunio i gyflawni hyn • Mae angen cryfhau'r monitro i gynnwys ymweliadau 6-12 mis wedi'r dyfarniad	Daeth y gwerthusiad presennol i'r casgliad: • Mae angen i brosiectau fod â ffocws tynnach o ran eu sail resymegol - pam bod eu hangen ar gyfer gwelliannau cynaledig i wasanaethau ac arbedion cost • Dylai'r cyfrifoldeb am reoli prosiect – ac yna ei brif ffrydio pan yn briodol - fod yn glir a diamwys gydag unigolyn penodedig yn y sefydliad arweiniol • Dylai monitro a choladu arbedion rhyddhau arian gael eu hintegreiddio i reolaeth prosiect a bod yn ofynnol ar gyfer system CRM/cronfa ddata yr I2S • Dylid sefydlu cysylltiadau ffurfiol a chlir rhwng cyflawni arbedion ac ad-daliad

	Tystiolaeth o werthusiadau SQW ac adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) o'r Gyllideb Buddsoddi i Arbed (ISB 1998-2009)	Tystiolaeth flaenorol o'r Gwerthusiad Interim ac adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol (CC) o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed (I2S)	Tystiolaeth o werthusiad cyfredol y Gronfa Buddsoddi i Arbed (I2S)
	- Cyfyngedig oedd monitro, gwerthuso ac adrodd ar gyflawniadau a heb fecanweithiau ar gyfer lledaenu fel mater o drefn y gwersi ynglŷn â ffyrdd arloesol o weithio a gwell dulliau o ddarparu gwasanaeth gyda'r potensial ar gyfer eu mabwysiadu'n ehangach ar draws llywodraeth. - Roedd angen ystyried yn ofalus pwy ddylai fod yn gyfrifol am weithredu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaeth yr oedd prosiect ISB wedi dangos i fod yn ymarferol.	gwreiddiol, neu pan fo ad-daliadau yn dechrau, er mwyn asesu effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth yn ogystal â pherfformiad yn erbyn targedau Angen mwy i hyrwyddo dysgu am arfer da a'i ledaenu. Roedd GSR 2012 yn credu bod angen rowndiau ar ffurf themâu a throthwyon uwch. Awgrymodd y dylid rhoi ystyriaeth i sut y gellid annog rheolwyr i hunan-arfarnu prosiect gyda chefnogaeth ar ffurf canllawiau a/neu offer a thechnegau safonedig er mwyn dangos manteision/arbedion .	buddsoddiad y Gronfa Dylid rhoi ystyriaeth i ddefnyddio mesuriadau canlyniad craidd a hyrwyddo bwriad mwy datblygiadol ar gyfer arian I2S - yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer prosiectau mwy arloesol, dull gweithredol ar gyfer rheoli porffolio a lledaenu/mabwysiadu arfer da

Negeseuon ac ystyriaethau allweddol

7.12 Cynlluniwyd ISB y Trysorlys a Chronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru mewn ffyrdd gwahanol ac fe'u gweithredwyd mewn cyd-destunau gwahanol ac ar adegau gwahanol. Fodd bynnag, fe wnaeth y ddau brosiect fabwysiadau dull "buddsoddi i arbed", gyda'r bwriad o hyrwyddo a phrofi arloesedd a diwygio mewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus mewn ffyrdd a oedd yn cynyddu eu heffeithlonrwydd a'u hansawdd ac, os byddent yn llwyddiannus, gellid eu cyflwyno yn fwy eang. I'r graddau hyn, efallai y gellid disgwyl i ganfyddiadau o werthusiadau ac adolygiadau y rhaglenni roi rhai negeseuon cyffredin ynglŷn â beth weithiodd yn dda a beth nad oedd wedi gweithio crystal.

7.13 Dyma a welwyd, gyda'r negeseuon allweddol canlynol yn ymddangos:

- **Seiliau rhesymegol a phortffolios prosiect:** Roedd y tair set o werthusiadau ac adolygiadau yn gyson wrth awgrymu bod angen mwy o eglurder a ffocws mewn rhai agweddau ar seiliau rhesymegol a dewis prosiectau y rhaglenni. Roedd hyn yn arbennig felly o ran y graddau o arloesedd yr oeddent yn ceisio ei gynnwys. Gwelwyd bod cyfran uchel o'r prosiectau a gefnogwyd yn rhai a gymerwyd 'oddi ar y silff', yn 'brif ffrwd' yn eu natur a/neu yn arloesol dim ond mewn modd cynyddraddol. O gofio bwriad datganedig y Gyllideb Buddsoddi i Arbed i ddarparu "cyllideb cyfalaf menter", ac un Buddsoddi i Arbed i "drawsnewid" effeithlonrwydd gweithredol gwasanaethau cyhoeddus, codwyd hyn fel achos pryder gan y gwerthusiadau.
- **Effeithiau:** Roedd hi'n anodd dod o hyd i dystiolaeth systematig a mesuradwy ynglŷn â gwelliant i wasanaethau a chanlyniadau a grëwyd gan y ddwy raglen. Roedd hyn, yn rhannol, oherwydd y cynhaliwyd y gwerthusiadau/adolygiadau cyn y cafodd digon o brosiectau eu cwblhau neu cyn iddynt gyrraedd cam o aeddfedrwydd a fyddai'n galluogi i ganlyniadau o'r fath gael eu hamcangyfrif ar draws portffolios y rhaglen yn gyfan. Fodd bynnag, gellid hefyd ei briodoli i ddwy ffactor arall. Yn gyntaf, roedd arfer

monitro, gwerthuso ac adrodd ar well gwasanaethau a'u canlyniadau yn eithaf anghyson ar lefel prosiect unigol. Yn ail, nid oedd mesuriadau canlyniadau craidd yr oedd gofyn i berfformiad y rhaglen gael eu hasesu yn eu herbyn. Mae'r ddwy ffactor yn awgrymu na roddwyd gorfodaeth ar y rhaglenni - a'r prosiectau a oedd yn rhan ohonynt - i arddangos eu cyflawniadau yn y termau hynny. Golygai hyn, hyd yn oed gyda chyfran uchel o'r portffolio yn cynnwys prosiectau aeddfed, byddai'n dal yn anodd asesu effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglenni mewn gwella ansawdd gwasanaeth a chanlyniadau. Dylid nodi, fel y mae'r gwerthusiad presennol wedi ei ddangos, ei bod hi'n bosibl, yn achos Buddsoddi i Arbed o leiaf, i asesu i ba raddau y mae cymorth y Gronfa wedi ei ad-dalu ac wedi cyflawni arbedion mewn arian lle mae'r ail yn cael ei nodi'n benodol fel dangosyddion perfformiad allweddol. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r dull hwn, mae dangos arbedion yn parhau'n her, ac roedd ansawdd y wybodaeth yn amrywio.

- Dangosodd gwerthusiadau/adolygiadau'r gorffennol hefyd mai tystiolaeth gyfyngedig oedd ar effaith ehangach y prosiectau a gefnogwyd o ran eu cynaliadwyedd a'u potensial ar gyfer prif ffrydio – h.y. i ba raddau y cafodd arferion da y gallent fod wedi eu datblygu eu cyflwyno a'u mabwysiadu mewn mannau eraill. Yn wir, roeddent yn awgrymu nad oedd y mecanweithiau diwylliannol ar gyfer hyn wedi eu sefydlu yn ddigon da i wneud iddo ddigwydd mewn modd systematig ac arferol.
- **Ychwanegedd a Gwerth am Arian:** Y casgliad cyffredinol o werthusiadau/adolygiadau'r gorffennol oedd bod llawer i'w ganmol yn y dull 'buddsoddi i arbed' fel y'i ymgorfforwyd yn rhaglenni Cyllideb Buddsoddi i Arbed a Buddsoddi i Arbed ac y dylid parhau â'r ddwy raglen. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn ystyried y gellid gwella'r rhaglenni pe bai eu dulliau ar gyfer dewis prosiectau a rheoli yn canolbwyntio'n fwy ar ysgogi ychwanegedd ac arloesedd, ac wedi eu trefnu'n well i ddangos manteision y prosiectau mewn perthynas â'u costau a lledaenu arfer da.

- **Rheoli perfformiad:** Yn gyson â'r negeseuon uchod, roedd gwerthusiadau/adolygiadau'r gorffennol yn cytuno bod angen i'r rhaglenni a'r prosiectau yr oeddent yn eu cefnogi gael eu rheoli mewn ffyrdd a oedd yn nodi ac yn rheoli risgiau, cynyddu'r siawns bod dulliau arloesol yn llwyddo ac yn trosglwyddo arferion da. Ymhlith pethau eraill, mae hynny'n gofyn bod cyfrifoldeb am reolaeth - a prif ffrydio pan fo hynny'n briodol - yn cael ei ymddiried yn glir a diamwys mewn unigolyn penodol mewn sefydliad arweiniol.

7.14 Yn gryno, mae nifer o'r negeseuon sy'n ymddangos o werthusiadau Cyllideb Buddsoddi i Arbed a Buddsoddi i Arbed yn y gorffennol yn gydnaws â'r themâu a nodwyd ar wahân ar gyfer y gwerthusiad cyfredol hwn. Mae hyn yn bwysig ar ddwy lefel:

- Yn gyntaf, maent yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Uned a'r Panel Buddsoddi i Arbed nad yw'r materion y maent yn ymgodymu â hwy er mwyn datblygu'r Gronfa yn eithriadol nac yn unigryw. Mewn nifer o ffyrdd, maent yn adlewyrchu ac yn deillio o'r heriau 'parhaol' mewn cyflawni'r mathau hyn o ymyriadau polisi.
- Yn ail, mae cydlifiad gweithgarwch cronfa blaenorol gyda'r rhaglen bresennol yn rhoi cyfle gwerthfawr i'r dysgu a'r profiad o'r gorffennol gael ei adolygu, a'i drosglwyddo, i'r cyd-destun presennol. Efallai bod cyd-destunau penodol y Gyllideb Buddsoddi i Arbed a'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn wahanol, ond mae nodweddion cyffredin a gorgyffwrdd clir a allai roi gwersi defnyddiol i ni wrth i weithgarwch 'buddsoddi i arbed', yn gyffredinol, ddatblygu yng Nghymru.

8 Casgliadau ac Argymhellion

8.1 Mae adran olaf hon o'r adroddiad yn nodi casgliadau'r gwerthusiad, ac yn reprises yr argymhellion sydd wedi eu nodi ar draws ei gynnwys.

Casgliadau

Y sail resymegol ar gyfer ymyrraeth

8.2 Barn y gwerthusiad yw bod y sail resymegol sy'n tanategu'r Gronfa yn gadarn a chryf. Mae'r Gronfa yn ymateb i nifer o ysgogwyr, gan gynnwys:

- y cyd-destun polisi strategol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar greu gwell gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys drwy gael mwy o gydweithio rhwng asiantaethau
- yr angen i gefnogi sefydliadau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn darpariaeth gwasanaeth o gofio'r cyd-destunau cyllidebol ac ariannol heriol
- 'methiannau' a materion penodol ar lefel darpariaeth gwasanaeth/leol, sy'n atal sefydliadau rhag datblygu prosiectau gwella a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac o ansawdd.

8.3 Ar lefel prosiect, roedd materion methiannau cydgysylltu rhwng sefydliadau a rhwystrau ariannol (yr ail yn arbennig ar gyfer prosiectau GIG Cymru) yn arbennig o amlwg mewn cyfiawnhau'r angen am adnodd Cronfa. Yn gyffredinol nid oedd prosiectau yn adrodd bod osgoi risg mewn buddsoddi adnoddau mewn gweithgareddau 'newydd' yn fater a ystyriwyd: diffyg adnoddau mewnol, yn hytrach nag osgoi eu defnyddio, oedd yn cael ei adrodd yn gyson fel y mater a oedd yn cyfiawnhau'r angen am gymorth y Gronfa.

8.4 Fodd bynnag, ni chafodd mathau eraill o gymorth allanol eu hystyried bob amser gan brosiectau cyn ceisio buddsoddiad y Gronfa, gydag adnodd mewnol yn fwy tebygol o fod y senario 'heb Gronfa' a

adroddwyd gan brosiectau. O ganlyniad, efallai bod osgoi risg defnyddio adnoddau mewnol yn fwy amlwg mewn gwirionedd nag a adroddwyd.

- 8.5 Mae'n ymddangos mai prin oedd ystyriaeth benodol o farchnad, ac yn arbennig yn achos y Gronfa, methiannau/materion eraill yng nghylch datblygu'r prosiect, gyda'r mathau hyn o faterion heb eu ffurfioli yn y broses arfarnu. Felly, mae a defnyddiwyd y Gronfa i fynd i'r afael yn gynaliadwy ag achosion, yn hytrach na *symptomau*, marchnad/methiant arall, yn rhywbeth dadleuol i raddau. Wrth symud ymlaen efallai y gallai mwy o ffocws ar fethiannau a seiliau rhesymegol annog canolbwyntio mwy cyson ar 'pam' y dylid defnyddio'r Gronfa, a rhoi gwell dysgu a dealltwriaeth ynglŷn â pha fath o ymyriadau sy'n gweithio, pryd a pham.

Manteision ac effeithiau

- 8.6 Mae manteision rhyddhau arian sylweddol wedi eu creu hyd yma gan brosiectau'r Gronfa. Ar gyfer prosiectau a gwblhawyd mae'r gwerthusiad yn amcangyfrif bod/y caiff tua £3 o arbedion gros ei greu am bob £1 o adnodd y Gronfa a fuddsoddwyd. Mae manteision rhyddhau arian gros o brosiectau sy'n mynd rhagddynt yn fwy cymedrol ar y cam hwn ond yn dal yn gadarnhaol. Mae'r data hwn yn cynnwys arbedion 'gwirioneddol' a 'rhagolygol', felly gall fod iddynt Ogwydd Optimistiaeth ar gyfer arbedion sydd heb eu cyflawni'n llawn hyd yma. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn dynodi yn gyfanredol bod y Gronfa'n debygol o gael mwy 'allan' o ran arbedion, nac a 'roddwyd i mewn' o ran buddsoddiad.
- 8.7 Nid yw'r holl brosiectau a gefnogwyd hyd yma wedi rhoi manteision rhyddhau arian. O'r 23 prosiect a gwblhawyd, mae o leiaf 15 wedi creu manteision rhyddhau arian y gellir eu priodoli i'r Gronfa. O'r pum prosiect a gwblhawyd lle na chafwyd manteision rhyddhau arian, arweiniwyd pedwar ohonynt gan sefydliadau llywodraeth leol. Dylid bod yn arbennig o ofalus wrth fonitro cyflawniad manteision rhyddhau arian gan brosiectau llywodraeth leol sy'n mynd rhagddynt, a rhai yn y dyfodol a gefnogir gan y Gronfa.

- 8.8 Mae'r dystiolaeth ar gyfer manteision nad sy'n rhyddhau arian fel arfer yn brosiect benodol, gyda dim prosesau na systemau ffurfiol mewn lle gan y Gronfa i dracio'r rhain yn gyson ar draws y portffolio prosiectau, er bod mathau o fanteision a welwyd nad oedd yn rhyddhau arian yn cynnwys gwelliannau i ddarpariaeth gwasanaeth drwy ddatblygu a gweithredu TG, gwell darpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i resymoli a gwell defnydd o asedau presennol, ac arbedion effeithlonrwydd drwy integreiddio a chydgyssylltu gwasanaethau.
- 8.9 Mae mynd i'r afael â diffyg prosesau a systemau i dracio manteision nad sy'n rhyddhau arian yn fater pwysig wrth symud ymlaen, a gellid dadlau y bydd angen rhagor o gyngor ac arweiniad er mwyn cefnogi gallu lleol.
- 8.10 Mae manteision eraill yn cynnwys
- manteision mesuradwy o ran gwell canfyddiad defnyddwyr gwasanaeth, gwell mynediad at wasanaethau ac, mewn nifer o achosion, gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth gyda ffocws ar iechyd a gofal cymdeithasol.
 - manteision anfesuradwy yn cynnwys dysgu a gwell gwybodaeth a chanfyddiad o ddarpariaeth a gwella gwasanaeth ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau, gwell cydgysylltu a gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau, a datblygiad gallu a gwell gwytnwch mewn darpariaeth gwasanaeth a chynllunio.
- 8.11 Ar y cyfan, mae'n dal yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau pendant ynglŷn ag effeithiau meintiol ac ansoddol ehangach y Gronfa. Fodd bynnag, mae'r arwyddion yn galonogol, ar er bod angen rhoi ystyriaeth i Ogwydd Optimistiaeth, barn gyffredinol rheolwyr prosiect oedd bod yr arbedion a'r manteision ehangach a ragwelwyd ar y dechrau wedi cael eu cyflawni, neu y cânt eu cyflawni.
- 8.12 Fel gydag arbedion nad sy'n rhyddhau arian, byddai'n fuddiol gwneud gwaith pellach i ddatblygu mathau o fanteision mesuradwy er mwyn galluogi prosiectau i ar lefel unigol, a Llywodraeth Cymru ar lefel cyfanredol, i gasglu'n well effeithiau gweithgarwch y Gronfa.

Cymhelliannau i ad-dalu

- 8.13 Mae'n rhaid ad-dalu'r buddsoddiad a ddarperir gan y Gronfa, boed arbedion wedi eu cyflawni neu beidio, yn seiliedig ar amserlen o daliadau a gytunwyd fel rhan o'r trafodaethau ffurfiol, a hyd yn oed os nad yw arbedion wedi eu gwireddu hyd yma. Mewn rhai achosion mae ad-daliad wedi ei glymu'n uniongyrchol gyda chyflawni arbedion. Ond yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd mae'r dystiolaeth yn dangos bod y buddsoddiad wedi/yn cael ei ad-dalu drwy linellau cyllideb canolog sefydliadau ar adegau a gytunwyd, nid pan fo arbedion gwirioneddol wedi eu creu.
- 8.14 Mae'r model hwn yn lleihau risg i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae ganddo nifer o ganlyniadau anfwriadol pwysig posibl: heb yr angen i dracio'n swyddogol yr arbedion a grëir, gellir colli llwybr ariannol y prosiect, ac y gellid cael datgysylltiad ar lefel cyflenwi'r prosiect rhwng rheolaeth 'ymarferol' ac 'ariannol'.
- 8.15 Yn llai diriaethol, ond yn bwysig, mae perygl cysylltiedig o golli 'disgyblaeth' yn y broses gweithredu a chyflawni'r prosiect, lle bo'r cymhelliant i staff sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei fwriad yn cael ei leihau. Gellir dadlau hefyd bod risg wedi'i chanolbwyntio ar bartneriaid cyflenwi wedi arwain yn gyffredinol at lai o brosiectau arloesol a newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer cymorth y Gronfa nag a fyddai mewn gwirionedd wedi ei ddisgwyl.
- 8.16 Nid oes dull cywir nac anghywir glir yma - y mater allweddol yw cydbwysu'r risg rhwng y cyllidwr a'r derbynnydd. Mae proffil risg mwy cytbwys yn bosibl - ar gyfer rhai elfennau o'r Gronfa o leiaf - lle gall Llywodraeth Cymru leihau'r risg ar sefydliadau sy'n cyflenwi drwy glymu'n ffurfiol (yn llawn, neu'n fwy realistig yn rhannol) ad-daliad i gyflawni arbedion. Yr anfantais o safbwynt cyllidwr fyddai na pe na bai arbedion yn cael eu creu ni fyddai ad-daliad yn cael ei wneud. Fodd bynnag, gallai'r dull hwn arwain yn ei dro at ddatblygu prosiectau mwy arloesol a newydd, gan leihau risg i bartneriaid y prosiect pe bai'r prosiect yn methu.

Ychwanegedd a Gwerth am Arian

- 8.17 Mae'r Gronfa wedi cyflawni ychwanegedd, yn arbennig o ran gwneud i brosiectau ddigwydd yn gynt, neu ar raddfa fwy na fyddent fel arall. Hunan-adroddwyd hefyd ar enghreifftiau o 'ychwanegedd llawn' lle na fyddai gweithgareddau na manteision wedi eu cyflawni heb y Gronfa.
- 8.18 O gofio natur gweithgareddau'r gronfa, a chymhlethdodau mewn deall y gwrthffeithiol mewn cyd-destun darpariaeth gwasanaeth, nid yw dadansoddiad meintiol o ychwanegedd yn briodol. Bydd lefelau pellach o ychwanegedd yn amrywio yn ôl prosiectau a byddai'r data cyfanredol yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan nifer o achosion unigol. Wedi dweud hynny, mae tystiolaeth yn dangos y byddai cyfran dda o'r manteision rhyddhau arian, a'r manteision ehangach, a grëir gan brosiectau'r Gronfa heb eu cyflawni, neu fe fyddent wedi eu cyflawni'n ddiweddarach, heb y Gronfa.
- 8.19 Yn gadarnhaol, nid cheir llawer o dystiolaeth o amnewid - nid yw ymwneud â phrosiectau a gefnogir gan y Gronfa wedi atal sefydliadau rhag gwneud cynnydd gyda gweithgareddau datblygu eraill er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau gwella gwasanaeth.
- 8.20 Tystiolaeth y gwerthusiad hwn (sy'n gyson ag asesiad interim cynharach o'r Gronfa) yw ei bod hi'n gyffredin i brosiectau gael eu datblygu cyn gofyn am gymorth y Gronfa. O ganlyniad, yn gyffredinol mae prosiectau wedi cael eu 'plygu' i fodloni bwriadau'r Gronfa yn hytrach na chael eu hysgogi ganddi, gyda'r Gronfa wedyn yn chwarae rôl allweddol i alluogi a hwyluso'r prosiectau hyn.
- 8.21 O ganlyniad i'r 'hwyluso' hwn, yn hytrach na 'rhoi genedigaeth', mae'r risg ac arloesedd y mae prosiectau'r Gronfa'n eu cynnwys ar y cyfan (er nad yn llwyr) yn gymharol fach, ac maent yn debygol o ddigwydd mewn rhyw ffurf hyd yn oed heb arian y Gronfa, er yn ddiweddarach neu ar raddfa lai. Efallai bod achos dros werthusiad sy'n canolbwyntio mwy ar ychwanegedd prosiectau cyn cael cymorth gan y Gronfa, a/neu ddarparu lefel is o adnoddau'r Gronfa i brosiectau sydd wedi eu

canolbwyntio'n bennaf ar gyflymu neu gynyddu gweithgareddau a manteision sy'n bodoli'n barod, yn hytrach na chreu rhai cwbl newydd.

8.22 Mae'r Gronfa yn dal yn weithredol, felly mae'n rhaid i unrhyw asesiad o Werth am Arian gael ei wneud yn ofalus. Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad bod Gwerth am Arian cyffredinol y Gronfa yn dderbyniol, o ran Darbodusrwydd, Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd.

8.23 Wrth symud ymlaen, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru allu adrodd yn gadarn a gyda thystiolaeth ar Effeithiolrwydd y Gronfa. Bydd datblygu Theori Newid ffurfiol yn allweddol i gyflawni hyn lle y gellir cynnal, ochr yn ochr ag uniongyrchedd y manteision a grëir (o ran arbedion ac effeithiau ehangach posibl wrth i systemau mesur perfformiad esblygu), asesiadau cadarn ynglŷn ag i ba raddau mae'r Gronfa yn mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol y mae'n ceisio ymateb iddynt.

Gwersi o'r astudiaethau achos

8.24 Roedd y gwersi allweddol o'r ymchwil astudiaethau achos ynglŷn â 'beth sy'n gweithio', sydd hefyd yn berthnasol i brosiectau eraill, fel a ganlyn:

- Sicrhau ymrwymiad lefel uwch i'r prosiect a pherchnogaeth ohono ymhlith partneriaid drwy ymgysylltiad eang/manwl gyda phartneriaid
- Rheoli disgwyliadau – a darparu cefnogaeth ar gyfer – yr aelodau staff hynny y mae disgwyl iddynt ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a staff nad sy'n gysylltiedig â'r prosiect ond y gellir effeithio arnynt
- Sefydlu a chytuno ar fetrigau a systemau mesur perfformiad o'r dechrau - yn arbennig o ran arbedion mewn arian uniongyrchol lle mai'r rhain fydd y ffynhonnell ar gyfer ad-dalu
- Lleihau risg drwy ddull fesul cam a chynllunio wrth gefn gydag ymchwil a cham cyntaf cynllunio cadarn
- Mabwysiadu dull systemau cyfan – lle bo hynny'n bosibl drwy dîm rheoli dynodedig gyda phwerau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n dda.

8.25 Amlygodd yr astudiaethau achos a'r gwerthusiad yn fwy eang hefyd bwysigrwydd perthynas o ymddiriedaeth rhwngartneriaid, ymgysylltiad eang a manwl rhanddeiliaid, a recriwtio – gyda goblygiadau o ran adnoddau – tîm rheoli a chyflenwi dynodedig. Lle roedd y ffactorau hyn i'w gweld roedd mwy, neu mae mwy, yn cael ei gyflawni.

I gloi . . .

8.26 Mae canfyddiadau gwerthusiad y Gronfa yn gadarnhaol. Mae'r Gronfa wedi cefnogi prosiectau da, i wneud pethau gwerthfawr, ac wedi cyflawni ystod eang o fanteision, yn cynnwys arbedion, sy'n dangos ychwanegedd. Er bod meysydd y gellir eu datblygu, sy'n cynnwys monitro perfformiad (yn arbennig o ran arbedion a chanlyniadau) a gallai model mwy parod am risg fod yn bosibl, ar y cam hwn mae'r Gronfa'n gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ei nodau a'i hamcanion cyffredinol.

8.27 Yn ogystal, nid yw nifer o'r heriau a nodir yn y gwerthusiad hwn yn rhai newydd. Roedd materion tebyg yn ymwneud â diffinio seiliau rhesymegol prosiectau, hyrwyddo ychwanegedd, cefnogi arloesedd, a dangos canlyniadau/effaith i'w gweld mewn adolygiadau cynharach o Gyllideb Buddsoddi i Arbed y Trysorlys.

8.28 Mae hyn yn rhoi sicrwydd i Uned a Phanel Buddsoddi i Arbed a Llywodraeth Cymru nad yw'r materion y maent yn ymgiprys â hwy er mwyn datblygu'r Gronfa yn rhai eithriadol nac unigryw. Mae'n rhoi cyfle gwerthfawr hefyd i adolygu'r dysgu a'r profiad o'r gorffennol a'i drosglwyddo i'r cyd-destun presennol, wrth i weithgaredd 'buddsoddi i arbed', yn gyffredinol, ddatblygu yng Nghymru.

8.29 Mae un pwynt olaf yn bwysig. Bydd goblygiadau o ran adnoddau o ganlyniad i unrhyw newidiadau monitro perfformiad, gweithrediad a rheolaeth y Gronfa. Yn wir, efallai y bydd angen mwy o adnoddau ar gyfer yr Uned Buddsoddi i Arbed er mwyn trosi prosesau canfyddedig yn wireddiad ymarferol mewn monitro, a gyda dull tebycach i 'bortffolio wedi'i reoli' ar gyfer y Gronfa ar waith. Mae Darbodusrwydd y Gronfa yn ymddangos yn dda o ran ei chostau gweithredu: efallai bod achos i

Llywodraeth Cymru leihau lefel darbodusrwydd mewn costau rheoli er mwyn galluogi'r tasgau rheoli hyn i gael eu cyflawni'n fwy effeithiol.

Argymhellion

8.30 Gan dynnu ar ganfyddiadau a chanlyniadau'r gwerthusiad, gwneir yr argymhellion canlynol:

- **Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu datganiad ffurfiol ar sail resymegol a Theori Newid y Gronfa, yn nodi'n glir y materion a'r heriau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy. Dylai hyn ddilyn rhesymeg ROAMEF (Sail Resymegol, Amcanion, Gweithgareddau, Monitro, Gwerthuso ac Adborth) safonol fel y nodir yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys. Bydd hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod y Gronfa yn gallu canolbwyntio'n gyson ac yn systematig ar y materion a'r methiannau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy. Bydd y Theori Newid hefyd yn rhoi darlun allanol hygyrch – i ymgeiswyr, rhanddeiliaid ac asiantaethau partner – ynglŷn â beth mae'r gronfa yn y bôn yn ceisio ei wneud.
- **Argymhelliad 2:** Yn dilyn datblygiad datganiad ROAMEF ffurfiol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys yn y Broses Datblygu Prosiect a Chais ffocws pendant ar sail resymegol prosiectau, yn cynnwys datganiadau a thystiolaeth ynglŷn â pham bod angen y prosiect a'r farchnad a/neu'r methiannau/materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy.
- **Argymhelliad 3:** Dylai cyfeiriad a rheolaeth prosiect fod yn gyfrifoldeb clir a diamheuol unigolyn penodedig yn y sefydliad Partner Arweiniol; dylai'r trefniadau hyn gael eu diweddarau'n barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy, yn y pen draw, sy'n atebol am berfformiad y prosiect a chyflawniad gweithgarwch y Gronfa, dros gyfnod cyflawni'r prosiect, a'r cyfnod ad-dalu sy'n dilyn. Mae'r prosesau ar waith i gyflawni hyn, ac wrth symud ymlaen dylai bod mwy a mwy o ganolbwyntio ar sicrhau bod arfer yn adlewyrchu'n llawn y disgyblaethau proses hyn. Fel cam cyntaf, dylid cynnal adolygiad ffurfiol o'r manylion cyswllt ar gyfer yr holl

brosiectau sydd wedi'u cwblhau a rhai sy'n mynd rhagddynt er mwyn sicrhau bod manylion cyswllt priodol nawr yn bodoli er mwyn rhoi llwyfan cadarn wrth symud ymlaen.

- **Argymhelliad 4:** Dylai'r gwaith o fonitro a choladu arbedion rhyddhau arian gael ei integreiddio'n llawn i system CRM/cronfa ddata Buddsoddi i Arbed. O gofio mai arbedion rhyddhau arian yw'r allbwn allweddol sy'n cael ei 'brynu' gan y Gronfa, dylid ei ystyried fel data allbwn sydd i'w gasglu'n arferol wrth fonitro (ar ffurf gros), yn hytrach na thrwy weithgarwch gwerthuso. Ni chynhwyswyd y data hwn yn y wybodaeth monitro ar lefel Cronfa a ddarparwyd i'r tîm gwerthuso ar gyfer yr astudiaeth hon, dylai fod wedi ei gynnwys ar gyfer unrhyw werthusiad/ymchwil effaith yn y dyfodol.
- **Argymhellid 5:** Dylid datblygu canllawiau i alluogi ceisiadau prosiect i nodi'n well, ac yna monitro, manteision nad sy'n rhyddhau arian prosiectau'r Gronfa, ac felly sicrhau y gall prosiectau gynllunio'n well ar gyfer, a dangos, manteision nad sy'n rhyddhau arian yn y dyfodol. Yn ymarferol gallai hyn gynnwys datblygiad a lledaeniad cyfres o gameos prosiect sy'n rhoi enghreifftiau 'byd go iawn' o'r Gronfa ac, yn fwy eang, sut y mae manteision nad sy'n rhyddhau arian wedi eu gwireddu a'u casglu er mwyn hysbysu ymgeiswyr newydd. Hyd yma prin yw'r canllawiau ar fanteision nid mewn arian: rhydd hyn gyfle i'r Uned Buddsoddi i Arbed arwain yn y maes hwn a lledaenu a gwreiddio ei arbenigedd amlwg.
- **Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ffurfiol, drwy asesu dewisiadau os, a sut, i gysylltu'n gliriach gyflawniad arbedion ac ad-daliad buddsoddiad y Gronfa. Dylai hyn gynnwys ail-gydbwyso'r proffil risg oddi wrth y sefydliadau cyflenwi ac ar y Llywodraeth fel ffordd o ysgogi prosiectau sy'n fwy arloesol a mentrus, ond a fydd o bosibl yn rhoi gwell canlyniadau. Dylai hyn gynnwys ymchwil gydag asiantaethau sector cyhoeddus perthnasol (yn cynnwys ymgeiswyr y gorffennol ac ymgeiswyr posibl yn y dyfodol) er mwyn darparu tystiolaeth ynglŷn ag i ba raddau y

byddai dull ail-gydbwyso risg yn ysgogi mwy o syniadau prosiect, neu rai gwahanol.

- **Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu cyfres o fesuriadau canlyniad, gyda dangosyddion wedi eu sefydlu a rhesymeg sy'n cysylltu'n ôl i amcanion y Gronfa. Gellir defnyddio'r rhain i gasglu'n well ac yn gyson y mathau o ganlyniadau y mae'r Gronfa yn ceisio eu cyflawni. Er enghraifft, mae canlyniadau'n ymwneud â manteision cysylltiedig ag iechyd a mesuriadau traws-sector o ganfyddiad defnyddwyr yn feysydd posibl y gellid datblygu mesuriadau canlyniadau. Dylai'r rhain fod yn ddigon eang i beidio cyfyngu ar fathau gweithgarwch, ond â digon o ffocws iddynt i alluogi dadansoddiad a gwerthusiad addysgiadol. Fel cam cyntaf, dylai'r Uned Buddsoddi i Arbed ymgysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sy'n datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn asesu i ba raddau y gellid defnyddio hyn i lywio fframwaith ar gyfer y Gronfa.
- **Argymhelliad 8:** Dylai lleihau diffyg ychwanegedd wrth ddewis prosiectau a gwerthusiad fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen, er mwyn cael y gwerth am arian a'r enillion gorau posibl ar fuddsoddiad mewnbwn y Gronfa. Er bod ychwanegedd yn amlwg, mae'r gwerthusiad yn nodi y byddai llawer o'r gweithgarwch a gefnogir gan y Gronfa wedi digwydd beth bynnag, er yn ddiweddarach, neu ar raddfa lai. Ochr yn ochr ag Argymhelliad 2, ac Argymhelliad 9, a fydd yn chwarae rhan mewn lleihau diffyg ychwanegedd, gallai hyn gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol i bob ymgeisydd prosiect gwblhau datganiad Theori Newid cryno ac wedi'i ganolbwyntio yn nodi: (i) beth sydd angen ei newid (ii) beth gaiff ei newid a (iii) sut bydd y prosiect yn peri'r newid. Dylai hyn gynorthwyo Uned a Phanel Buddsoddi i Arbed i flaenoriaethu a chefnogi dim ond y prosiectau hynny lle mae'r theori newid yn gydlynol, bod iddi dystiolaeth a'i bod yn ddilys.
- **Argymhelliad 9:** Ochr yn ochr â datblygiad datganiad ROAMEF y Gronfa, dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu a chynnwys

datganiad model rhesymeg syml mewn Ceisiadau Prosiect ac wrth Fonitro i alluogi prosiectau i gasglu'n llawn, ac i staff gwerthuso a'r Uned Buddsoddi i Arbed brofi'n glir, y cysylltiadau rhwng amcanion, mewnbynnau, gweithgareddau, arbedion a chanlyniadau ehangach prosiectau.

- **Argymhelliad 10:** Dylai'r Gronfa gael ei pharhau, ond dylid rhoi ystyriaeth ffurfiol i hyrwyddo bwriad mwy datblygol, yn cynnwys drwy roi cefnogaeth i brosiectau mwy arloesol a dull rheoli portffolio gweithredol. Bydd angen digon ac adnoddau a gallu o fewn yr Uned Buddsoddi i Arbed er mwyn cyflawni'r gofynion hyn.

Atodiad A: Prosiectau yr ymgysylltwyd â hwy yn y gwerthusiad

Ymgynghoriadau dros y ffôn

Prosiect	Sefydliad arweiniol
Caffael Cymru Gyfan	BILI Cwm Taf
BIP Caerdydd a'r Fro - Gweithio Symudol	BIP Caerdydd a'r Fro
Prosiect Asedau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd	Cyngor Caerdydd
Polisi Cymunedol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaeth Iechyd	Uned Cymorth Presgripsiynau Dadansoddol Cymru
Monitro Larwm Critigol	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
Arddweud Digidol/Adnabod Lleferydd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Strategaeth Gwario i Arbed Maethu	CBS Castell-nedd Port Talbot
Llesgedd Gwent	CBS Torfaen / BILI Aneurin Bevan
Gweithredu a chymhwyso systemau adrodd llinell gwasanaeth	BILI Cwm Taf
Gwella eich Gofod (FACE, SPACE & PLACE yn flaenorol)	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
System dreuliau ar-lein electronig integredig y GIG	Partneriaeth Cymorth Busnes Gogledd Cymru/Betsi Cadwaladr
Dychweliad Cleifion Iechyd Meddwl Gofal Iechyd Parhaus i Leoliadau	HSSDG
Darpariaeth Iechyd Meddwl	Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru
Prosiect Adsefydlu Iechyd Meddwl – Adfer a Chynhwysiant Cymdeithasol	BILI Hywel Dda
Cludiant Di-frys i Gleifion	Pencadlys Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
Gweithredu Prosiect Teleofal Gogledd Cymru	CBS Conwy
Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un	Cyngor Dinas Casnewydd
Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Powys	Cyngor Sir Powys
Trefniadau Gwasanaethau a Rennir ar gyfer GIG Cymru	Cyllid HSSDG
Datblygu GWE Trafodaethol	Cyngor Dinas Casnewydd

Prosiect	Sefydliad arweiniol
UWIC - parth-g, siop-un-stop i fyfyrwyr	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhyddhau Cynnal Gwirfoddol (VER)	BILI Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Trawsnewid y Gweithle	Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent
Darparu Gofal Amlapio	CBS Wrecsam
System e-gaffael Cyfnewid Cymru	CBS Merthyr Tudful

Astudiaethau Achos

Cwblhawyd astudiaethau achos gyda'r prosiectau Buddsoddi i Arbed canlynol

- Gweithio Ystwyth Sir y Fflint
- Ad-drefnu Adsefydlu ac Ymadfer Iechyd Meddwl
- Gorsaf Wybodaeth Casnewydd yn Un
- Ein Gofod Caerdydd
- Powys Di-bapur
- Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd y GIG
- Caffael ar y Cyd Cymru-gyfan y GIG
- Gwasanaeth Monitro Galwadau Teleofal Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cymorth i'r Cynllun Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus
- Ymgyrch Wyn: Adennill a Chadw Annibyniaeth
- Rhaglen Cydweithio Gwell Adferiad ar ôl Llawdriniaeth 1000 o Fywydau a Mwy Cymru